




Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004

ADRODDIAD PRIF

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad dau



AROLWG CENEDLAETHOL O CHWECHED DOSBARTHIAU YSGOLION CYMRU 2004

© ELWa Awst 2004. Cyhoeddwyd gan ELWa. Caniateir atgynhychu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydabyddir y ffynhonnell. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurf electronig ar wefan ELWa www.elwa.org.uk



Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd.

Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol. Mae'r tîm sy'n gweithio ar Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ac raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

CYNNWYS

Rhagair y cadeirydd	03
Cyflwyriad	04
Bodddhad cyffredinol	07
Gwneud y penderfyniad	14
Ansawdd y dysgu	26
Cymhelliant	35
Y ddarpariaeth gymraeg	46
Atodiad technegol	49
Atodiad A Llythyr gwahodd i benaethiaid	52
Atodiad B Canllawiau trafodaeth y grwpiau ffocws	54
Atodiad C Strategaeth ymchwilio'r cwsmer	56



Mae ELWa'n cydnabod bod yn rhaid parhau i ddeall gofynion dysgwyr i wneud yn siwr eu bod yn ganolog i bopeth y maen nhw'n ei wneud os am weithredu'i agenda

uchelgeisiol i ddysgu ôl-16. Dyma pam ein bod yn cynnal Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid; mae'r rhaglen ymchwil eang hon yn mynd i helpu i hysbysu ein barn am anghenion a bodlonrwydd dysgwyr gyda'r addysg rydym yn ei hariannu. Bydd y wybodaeth yn hanfodol i alluogi ELWa a'i phartneriaid i ehangu'n barhaus yr amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth, yn ogystal ag ehangu cyfranogiad mewn dysgu.

Mae Arolwg Cenedlaethol Chweched Dosbarthiadau Ysgolion yng Nghymru yn adeiladu ar ganlyniadau Arolwg Boddhad Dysgwyr yng Nghymru, oedd yn edrych ar farn dysgwyr mewn Addysg Bellach, Rhaglenni Dysgu yn y Gweithle ac Addysg Barhaus i Oedolion achrededig. Mae'r arolwg yma'n gam cychwynnol, ond arwyddocaol tuag at ehangu ein dealltwriaeth o ganfyddiad a safbwynt disgyblion dosbarthiadau chwech o'u profiad addysgol. Rydym wedi cael ymateb cadarnhaol gan ddosbarthiadau chwech ysgolion yn dymuno cymryd rhan yn yr ymchwil. Felly, roedd yn rhaid diwygio ein cynlluniau ar gyfer yr arolwg i fyny. O ganlyniad, mae'r adroddiad wedi'i seilio ar farn dros 5,700 o ddisgyblion. Gofynnwyd i ddisgyblion y dosbarthiadau chwech am eu barn o'u disgwyliadau o fod mewn dosbarth chwech, a oedden nhw'n astudio gyda darparwydd o'u dewis cyntaf ac wrth gwrs, lefelau eu cymhelliad presennol, unrhyw broblemau roedden nhw efallai wedi dod ar eu traws a'r boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu.

Yng nghanlyniadau'r arolwg gwelwyd lefelau boddhad gymharol uchel, ond roedden nhw hefyd yn amlygu meysydd i'w datblygu. Mae rhaglen o weithgareddau

ar y gweill i ymgynghori ymhellach ar y canlyniadau hyn a hefyd ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Boddhad Dysgwyr, gyda'r sector dysgu, i allu ymchwilio i faterion allweddol a datblygu dulliau o rannu arferion gorau a gwella lefelau boddhad i bob dysgwr.

Wrth gynllunio a gweithredu'r gweithgaredd ymchwil, rydym wedi ymgynghori gyda nifer o bartneriaid allweddol, a hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth – yn enwedig cynrychiolwyr Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd ELWa a weithredodd fel grŵp llywio allanol i'r prosiect. Hoffwn hefyd ddiolch i NOP, a gyflawnodd y gwaith.

Yn fwyaf pwysig, hoffwn ddiolch i'r miloedd o ddisgyblion yn y dosbarthiadau chwech oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil, yn mynegi eu barn werthfawr fel ein bod yn gallu gwella dyfodol cyfleoedd dysgu er mwyn 'gallu elwa ar ddysgu' yng Nghymru.

Sheila Drury – Cadeirydd
Medi 2004

1.0 CYFLWYNIAD

Mae gan ELWa gyfrifoldeb am gynllunio, cyllido a hyrwyddo'r ddarpariaeth ddysgu ôl-16 yng Nghymru ac eithrio Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Addysg Bellach (AB), Addysg Barhaus Oedolion (ACE), Chweched Dosbarthiadau Ysgolion a Dysgu yn y Gwaith (WBL).

Elfen allweddol mewn cyflawni ei gyfrifoldebau i'r dysgwyr yw y dylai ELWa ddeall anghenion a phrofiadau'r dysgwyr a defnyddio'r wybodaeth yma i wella amrediad ac ansawdd y ddarpariaeth yn wastadol.

Mae cwsmeriaid ELWa yn cynnwys y dysgwyr cyfredol i gyd a holl ddysgwyr posib y dyfodol – mae hyn yn cynnwys pob unigolyn, busnes a chymuned drwy Gymru gyfan. Mae'r gwaith ymchwil yma o chweched dosbarthiadau'n rhan o Strategaeth ELWa i Ymchwilio'r Cwsmer sy'n rhan o ymdrech gyffredinol ELWa i

- annog polisiau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwaith cynllunio sydd wedi'i arwain gan y galw
- ddod â'r "cwsmer" i ganol y llwyfan

Mae'r Strategaeth yn amlinellu tri phrif linyn o weithgaredd:

- Deall beth sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn ehangu a dyfnhau'r gyfranogaeth mewn dysgu
- Deall beth yw barn cwsmeriaid am y gwasanaethau addysg a dysgu a dderbyniant
- Olrhain a deall y gyfranogaeth ymysg y grwpiau cwsmeriaid (unigolion, busnesau a chymunedau)

Fel elfen allweddol o'r Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer, comisiynodd ELWa brosiect ymchwilio ymysg myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion i asesu lefel eu boddhad gyda'u profiad dysgu. Cam cychwynnol yn unig oedd hwn tuag at ddeall y grŵp yma o gwsmeriaid, ac o ystyried yr ymateb cadarnhaol a gafwyd ymysg ysgolion, rhagwelir y bydd hwn yn gychwyniad ymrwymiad tymor hirach i ddeall ac ymateb i farn disgyblion chweched dosbarth am eu profiadau dysgu.

Mae'r adroddiad yma'n edrych ar ganfyddiadau myfyrwyr ac yn disgrifio'r profiad dysgu o'u safbwynt hwy. Defnyddir yr wybodaeth yma i helpu ELWa a

budd-ddeiliaid eraill i wella ansawdd addysg i bobl ifainc yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.

I gael mwy o fanylion am Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer ELWa a'r ffordd mae'r gwaith ymchwil i'r chweched dosbarthiadau wedi'i integreiddio ynddi, edrychwch ar Atodiad C os gwelwch yn dda.

1.1 Yr Hyn mae'r Arolwg yn Ymdrin ag ef – Y Sampl

Roedd arolwg 2004 ymysg myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion yn gam cyntaf yn y broses o ganfod beth yw barn y grŵp yma o gwsmeriaid am ddysgu. I gychwyn, rhagwelwyd y byddai hwn yn ymarfer ansoddol yn anad dim, oedd yn canolbwyntio ar 12 grŵp ffocws mewn 8 ysgol, gydag ymarfer mesurol graddfa fechan lle'r oedd gofyn i'r dysgwyr lenwi holiaduron eu hunain. Gwahoddwyd bob chweched dosbarth ysgol i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda 72 o ysgolion yn dangos diddordeb. Am y rheswm yma, penderfynwyd y dylid cynnig yr arolwg hunan-gwblhau o'r myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 i bob ysgol oedd yn dangos diddordeb. Yn y diwedd, cytunodd 61 o ysgolion gymryd rhan a derbyniwyd holiaduron cyflawn gan 54 ohonynt.

Anfonwyd cyfanswm o 9,434 o holiaduron i'r ysgolion oedd yn cymryd rhan, ac aeth 5,717 o fyfyrwyr ati i gwblhau'r holiaduron a'u dychwelyd yn uniongyrchol i NOP. Rhoddodd hyn gyfradd ymateb gan y myfyrwyr o 61%.

Cafodd yr arolwg ei lunio i adeiladu ar yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003 (NLSSW). Aeth yr arolwg hwnnw ati i gyfweld oddeutu 6,200 o ddysgwyr mewn Addysg Bellach, Addysg Barhaus Oedolion wedi'i hachredu, a rhaglenni Dysgu yn y Gwaith. Ni chafodd myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion eu cynnwys yn yr arolwg cyffredinol cyntaf yma oherwydd teimlwyd na fyddai'r fethodoleg arolwg dros y ffôn yn briodol ar gyfer y grŵp yma o ddysgwyr. Am y rheswm hwn, lluniwyd yr Arolwg o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion yng Nghymru i sicrhau fod barn y grŵp yma o ddysgwyr yn derbyn ystyriaeth hefyd.



1.2 Yr Hyn mae'r Arolwg yn Ymdrin ag ef – Maes y Cwestiynau

Mae'r pynciau y canolbwyntiwyd arnynt gan yr arolwg o chweched dosbarthiadau ysgolion yn gorgyffwrdd â meysydd yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru a weithredwyd gan yr NOP yn 2003. Dyma oedd y meysydd allweddol a archwiliwyd:

- disgwyliadau am y chweched dosbarth
- pa mor aml y cawsant eu dewis cyntaf o ddarparwydd dysgu/cwrs astudio
- boddhad gyda'r dysgu
- lefelau cymhelliant
- boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu a'r rhesymau am hynny

Mae copïau o'r holiadur a'r canllawiau i gynnal trafodaeth â'r grŵp ffocws i'w cael yn yr Atodiad.

1.3 Y Fethodoleg

Ysgrifennwyd at benaethiaid pob chweched dosbarth ysgol o fewn y ddarpariaeth a ariennir gan ELWa ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Aeth ELWa ati i arolygu'r ymatebion, a darparu rhestr o'r ysgolion oedd â diddordeb i'r NOP.

Rhannwyd yr ysgolion yn ôl eu rhanbarthau ac yn ôl eu hiaith, h.y. y rheini sy'n darparu eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan fwyaf a'r rheini sy'n darparu addysg yn y Saesneg. Rhoddwyd 'sgôr' amddifadedd i'r ysgolion ar y ddwy restr oedd wedi'i seilio ar y Mynegai Amddifadedd Amryfal (Index of Multiple Deprivation) ac oedd wedi'i gysylltu â chod post yr ysgol (os oedd hwn ar gael). Ar y sail yma, cysylltwyd â'r ysgolion a chawsant eu recriwtio i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Sicrhawyd bod yn grwpiau'n cynnwys amrediad eang o sgorau amddifadedd a bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg wedi'u cynnwys fel ei gilydd. Arolygwyd y grwpiau ffocws yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnwyd i bob ysgol oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws ddosbarthu holiadur hunan-gwblhau i'w myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Yn ychwanegol at hynny, gwahoddwyd yr ysgolion oedd wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil, ond nad oeddent yn rhan o'r grwpiau ffocws, i gymryd rhan yn yr arolwg mesurol.

Defnyddiwyd holiadur papur hunan-gwblhau i wneud yr arolwg mesurol. Er mwyn cadw'r holiaduron yn ddienw, rhoddwyd amlen i bob myfyriwr ac roeddent hwy'n rhoi'r arolwg cyflawn ynddi. Gweinyddwyd yr arolwg gan yr ysgolion unigol oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r holiaduron i'r myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 ar un diwrnod, a chasglu a dychwelyd yr holiaduron cyflawn i'r NOP.

Darparwyd yr holiaduron mewn fformat dwyieithog, fel bod modd i'r myfyrwyr ddewis a oeddent am ymateb yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. Gweithredwyd yr arolwg (yr arolwg hunan-gwblhau a grwpiau ffocws) rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2004.

Mae manylion llawn yr ymateb i'w cael yn yr Atodiad Technegol.

1.4 Llundio Adroddiad

Roedd maint y sampl o fyfyrwyr a gynhyrchwyd gan yr arolwg hunan-gwblhau mor fawr a'r data a gafwyd o'r arolwg mor bendant nes bod cyfle i ni ddadansoddi'r canlyniadau i lawr i lefel ranbarthol ELWa. Ar ben hynny, mae ELWa wedi dyfeisio ffordd o fesur pa mor 'wledig' yw'r wardiau etholiadol er mwyn canfod ym mha wardiau mae'r cyfle lleiaf i dderbyn amrywiaeth o wasanaethau (ac sydd felly, efallai, â phroblemau mewn cael gafael ar wasanaethau dysgu). Mapiwyd y mesuriad yma yn erbyn cod post pob ysgol oedd yn cymryd rhan, gan alluogi i ni ddadansoddi'r ysgolion 'mwyaf gwledig' mewn cymhariaeth â'r ysgolion 'llai gwledig'.

Lle'r oedd hynny'n bosib, cymharwyd y canlyniadau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth â'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr 16 – 18 oed mewn AB a Dysgu yn y Gwaith (fel y cafwyd yn yr NLSSW diweddar). Dylid nodi bod y ddau arolwg wedi defnyddio dulliau gwahanol o gasglu data felly roedd rhaid cymryd gofal i ryw raddau wrth wneud cymariaethau uniongyrchol.

Rhoddir yr adborth a gafwyd gan y 12 grŵp ffocws mewn blychau tywyll i'w wahaniaethu oddi wrth y dadansoddiad mesurol. Pan fyddwn yn cynnwys sylwadau gair am air gan fyfyrwyr yn yr adroddiad yma, byddwn yn eu nodi mewn llythrennau italig ac yn rhoi rhif cyfeirnod penodol yr ysgol. Ceir rhestr o ysgolion a'u nodweddion yn yr Atodiad Technegol.

Bwriad yr adroddiad yma yw tynnu sylw at ganfyddiadau mwyaf arwyddocaol yr Arolwg o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion, gan gefnogi'r rhain lle bo hynny'n bosib gydag adborth anecdotaidd gan y grŵp ffocws. Yn ychwanegol at hynny, mae pob ysgol sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg hunan-gwblhau wedi derbyn crynodeb graffigol o'r canlyniadau ar gyfer eu myfyrwyr hwy o'i gymharu â'r canlyniadau ar gyfer pob myfyriwr sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil.

Ond, mae pawb sydd wedi cyfranogi yn y prosiect yn awyddus bod y data a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio'n llawn. O gofio hynny, bydd y data cyffredinol (h.y. hwnnw ar gyfer y myfyrwyr i gyd) ar gael ar wefan ELWa i'w ddadansoddi ymhellach: <http://www.elwa.org.uk>. (Nodwch, ni fydd hi'n bosib dadansoddi ymatebion gan ysgolion unigol).

1.5 Arweiniad i Ddehongli'r Data

Mae'r tablau yn yr adroddiad yma wedi'u seilio ar y ffaith fod pob myfyriwr wedi ateb bob cwestiwn.

Mae tabl am ddehongliad y data yn yr Atodiad Technegol.

Mae cywirdeb y brasamcanion wedi'u seilio ar ddata'r arolwg yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf, maint y sampl; yn ail, canlyniad gwirioneddol yr arolwg. Er enghraifft, ar sail 5,000 o gyfweiliadau, mae gan y canlyniad o 50% lwfans gwallau o +/- 1.4%. Felly, os bydd 50% o'r myfyrwyr chweched dosbarth yn yr arolwg yn dweud eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol y dysgu maent wedi'i dderbyn, mae'r ffigur cywir ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth yn gyffredinol (h.y. y boblogaeth chweched dosbarth) rhwng 48.6% a 51.4%. Mae'r lwfans gwallau'n uwch ynghanol y raddfa (h.y. ar gyfer canlyniadau oddeutu'r nod 50%) ac yn is ar frig ac ar waelod y raddfa. Mae gan ganfyddiad o 10% (neu ganfyddiad o 90%) lwfans gwallau o +/-0.8%. Felly os bydd 90% o fyfyrwyr chweched dosbarth yn dweud eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol y dysgu a dderbyniant (neu bod 10% yn anfodlon), mae'r gwir ganfyddiad yn y boblogaeth rhwng 89.2% a 90.8% (neu rhwng 9.2% a 10.8% yn anfodlon).

Wrth i faint y sampl fynd yn llai, mae'r lwfans gwallau'n mynd yn fwy. Yn gyffredinol, nid yw'n syniad i ddadansoddi unrhyw is-grŵp sy'n llai na 100. Ond, mae'r adroddiad yma'n cyhoeddi rhai ffigurau ar gyfer grwpiau llai er mwyn i ddefnyddwyr y data wneud y defnydd gorau o'r canfyddiadau. Dylai'r bobl sy'n defnyddio'r data yma fod yn ymwybodol o'r mater yma wrth ddelio â'r data.

Wrth gymharu canlyniadau mewn gwahanol is-grwpiau, e.e. ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fel rheol gyffredinol, wedi'i seilio ar samplau o 100 neu fwy, mae gwahaniaeth o 12% (neu fwy) rhwng dau grŵp yn ystadegol arwyddocaol bob amser. Felly, os ceir canlyniad o 50% ymysg myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chanlyniad o 62% ymysg myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn wahaniaeth go iawn yn y boblogaeth, ac ni ellir dweud mai canlyniad lwfans gwallau'r arolwg yn unig ydyw. Wrth i faint y sampl fynd yn fwy, mae'r gwahaniaeth sydd ei angen i ddangos gwir wahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau yn y boblogaeth gyfan yn mynd yn llai.

Efallai nad yw rhai ffigurau yn y siartiau a thablau'n cyrraedd 100% wrth eu hadio at ei gilydd. Y rheswm am hyn yw bod y ffigurau wedi'u talgrynnu. Os byddwch yn gweld bod atebion yn adio i roi mwy na 100% am fod yr holiadur wedi caniatáu mwy nag un ateb, mae nodyn i esbonio hynny.

Defnyddiwyd y symbolau yma yn y tablau:

* i ddynodi canrannau llai na 0.5 y cant ond yn fwy na sero

– i ddynodi sero y cant

2.0 BODDHAD CYFFREDINOL

Mae'r adran yma'n ymdrin â:

- Boddhad cyffredinol y myfyrwyr gyda'u profiad o ddysgu yn eu chweched dosbarth
- Disgwyliadau'r myfyrwyr am eu chweched dosbarth ac i ba raddau mae'r rhain wedi'u cyflawni

2.1 Y Boddhad Cyffredinol gyda'r Profiad Dysgu

Gofynnwyd i'r myfyrwyr ystyried bob agwedd o ddysgu yn eu chweched dosbarth a rhoi gradd gyffredinol am lefel eu boddhad. Roedden nhw'n gwneud hyn drwy ddewis pwynt ar raddfa foddhad saith pwynt, oedd yn mynd o'r pwynt eithriadol fodlon i'r pwynt eithriadol anfodlon.

Roedd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol. Roedd ychydig yn llai na hanner y myfyrwyr (45%) yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad dysgu cyffredinol, tra bo 40% pellach wedi'u disgrifio eu hunain fel disgybion gweddol fodlon. Mae hyn yn golygu bod 85% o'r myfyrwyr wedi mynegi rhyw raddfa o fodlonrwydd, a dim ond 6% oedd wedi mynegi anfodlonrwydd. O ran cyflwyno gwelliannau yn y dyfodol, dylid ystyried nid yn unig y dysgwyr a fynegodd anfodlonrwydd ond hefyd y dysgwyr a fynegodd fodlonrwydd gweddol yn unig (h.y. yn eu disgrifio eu hunain yn weddol fodlon).

Roedd y canfyddiadau yma'n gyson drwy'r grwpiau blwyddyn a'r rhywiau, ac mewn ysgolion o wahanol feintiau.

Siart 2.1: Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Eithriadol fodlon	9%
Bodlon iawn	35%
Gweddol fodlon	40%
Anfodlon	6%
Crynodeb	
Cyfanswm bodlon eithriadol/iawn	45%
Cyfanswm bodlon	85%
Cyfanswm anfodlon	6%

(Nodwch: Mae'r cyfanswm o fyfyrwyr eithriadol fodlon/bodlon iawn yn adio i roi 45% am fod y niferoedd wedi'u talgrynnu)

Yn nodedig, roedd yr iaith y dysgir y myfyrwyr drwyddi yn dylanwadu ar foddhad cyffredinol y myfyrwyr; roedd hanner y myfyrwyr (51%) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, o'i gymharu â 43% o'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae hyn yn cyfateb â'r adborth a gafwyd gan y grwpiau ffocws gyda myfyrwyr yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, oedd yn dangos bod y lefelau boddhad wedi'u dylanwadu'n gadarnhaol gan ddiwylliant yr ysgol. Yn yr ysgolion yma, roedd llawer o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd oedd yn canolbwyntio'n aml iawn ar draddodiadau Cymreig, e.e. eisteddfodau. Ar ben hynny, tybiwyd bod yna batrwm lle'r oedd gan y myfyrwyr yma rieni cefnogol iawn oedd yn cyfranogi yn addysg eu plant, ac oedd hyn yn chwarae rhan hanfodol yn y penderfyniad bod eu plant yn mynychu'r math arbennig hwnnw o ysgol.

'Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn hollol wahanol. Mae llawer o ysgolion Saesneg nad ydynt yn cynnig chweched dosbarth hyd yn oed. Rwy'n meddwl eich bod yn llawer mwy cyfforddus mewn ysgol Gymraeg; rydych yn cymdeithasu llawer mwy yn yr ysgol, yn mwynhau pethau fel yr Eisteddfod.' (Ysgol rhif 1)

Hefyd, roedd y rhanbarthau lle'r oedd y myfyrwyr wedi'u lleoli yn dylanwadu ar lefel eu boddhad. Dywedodd 40% o'r myfyrwyr yn Ne Ddwyrain Cymru eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn o'i gymharu â 46% neu fwy mewn rhanbarthau eraill. Ar ben hynny, roedd myfyrwyr ysgolion mewn wardiau mwy gwledig yn fwy tebygol o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn na myfyrwyr eraill (52% o'i gymharu â 44% yn y drefn honno). I ryw raddau, mae'r newidynnau yma wedi'u cydgysylltu.

Er nad oedd y math o gymhwyster yn cael effaith arwyddocaol ar lefelau boddhad, roedd pwnc y cyrsiau yn ffactor ddylanwadol. Yn fwyaf nodedig, roedd y pynciau lle'r oedd mwy na hanner y myfyrwyr yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn yn cynnwys:

- Ieithoedd (Cymraeg)
- Ieithoedd (Arall)
- Sgiliau allweddol

Tabl 2.1 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

		Rhyw		Rhanbarth				Cyfrwng yr ysgol		Pa mor wledig ydyw	
	Cyfan -swm	Gwryw	Benyw	De Dd	De Orll	Canol-barth	Gog	Cymraeg	Saesneg	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pawb yn ateb	5563	2438	3069	2555	1240	654	1114	1194	4369	587	4976
% Eithriadol fodlon	9	9	10	8	13	8	9	12	8	11	9
% Bodlon iawn	35	34	37	32	37	38	39	38	34	40	35
% Gweddol fodlon	40	41	40	42	38	41	37	38	41	39	40
% Heb fod yn fodlon nag yn anfodlon	10	11	9	11	8	8	9	7	11	6	10
% Gweddol anfodlon	4	4	4	5	3	3	4	3	4	3	4
% Anfodlon iawn	1	1	1	1	*	*	1	1	1	*	1
% Eithriadol anfodlon	1	1	1	1	1	1	*	1	1	1	1
% Eithriadol fodlon/ bodlon iawn	45	42	46	40	49	46	48	51	43	52	44
% Eithriadol anfodlon/ anfodlon iawn	2	2	1	2	2	1	1	1	2	1	2

Roedd llai na 40% o'r myfyrwyr oedd yn astudio'r pynciau nesaf yma'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad dysgu cyffredinol:

- Busnes, gweinyddiad a'r gyfraith
- Gwyddor chwaraeon

Fel y disgwylir, roedd cydberthynas gref rhwng y lefelau o foddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu a'r lefelau boddhad gydag ansawdd y dysgu. Felly, roedd y myfyrwyr oedd yn mynegi lefelau uchel o foddhad gydag ansawdd y dysgu yn fwy tebygol o fynegi lefelau uchel o foddhad yn gyffredinol. Yn yr un modd gyda lefelau cymhellant; roedd y myfyrwyr hynny a'u disgrifiodd eu hunain fel rhai brwdfrydig iawn yn fwy tebygol na'r myfyrwyr llai brwdfrydig i ddweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r profiad dysgu cyffredinol.

O gymharu'r data gyda chanfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003 (NLSWW) gwelwyd rhai cyferbyniadau diddorol. Roedd lefelau'r bodlonrwydd ymysg myfyrwyr chweched dosbarthiadau ysgolion yn llawer is nag oeddent ymysg

dysgwyr 16 – 18 oed mewn AB neu Dysgu yn y Gwaith. Felly, aeth oddeutu saith ymhob deg o'r dysgwyr AB (67%) a Dysgu yn y Gwaith (70%) ati i ddisgrifio eu hunain fel dysgwyr eithriadol fodlon neu fodlon iawn o'i gymharu â dim ond 45% o fyfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion.

Nid oedd yr arolwg hunan-gwblhau yn gofyn yn benodol i fyfyrwyr chweched dosbarth nodi eu rhesymau am eu bodlonrwydd neu eu hanfodlonrwydd gyda'u profiad dysgu. Ond, mae'r grwpiau ffocws yn rhoi adborth anecdotaidd defnyddiol yn nhermau syniadau myfyrwyr am y profiadau delfrydol o'u cymharu â'r profiadau gwirioneddol o fod yn y chweched dosbarth.

Roedd llawer o'r anfodlonrwydd gyda'r profiad chweched dosbarth yn ymwneud â'r diffyg rhyddid roedden nhw'n ei deimlo; roedd maint y gwaith wedi effeithio'n negyddol ar farn rhai myfyrwyr, a phan oedd cyrsiau'n orfodol, cafwyd ymateb negyddol yn aml iawn hefyd (e.e. sgiliau allweddol, bagloriaeth Gymraeg).



Tabl 2.2 Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu mewn AB a Dysgu yn y Gwaith (o'r NLSSW 2003)

	AB	Dysgu yn y Gwaith	Myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion
Sail: Heb ei bwysoli	1387	351	5563
Sail: Wedi'i bwysoli	1153	355	—
% Eithriadol fodlon	26	24	9
% Bodlon iawn	41	46	35
% Gweddol fodlon	27	25	40
% Heb fod yn fodlon nag yn anfodlon	3	1	10
% Gweddol anfodlon	1	3	4
% Anfodlon iawn	*	*	1
% Eithriadol anfodlon	1	1	1
% Eithriadol fodlon/bodlon iawn	67	70	—
% Eithriadol anfodlon/anfodlon iawn	2	1	—

'Ni fydd cyflogwyr yn cydnabod yr WBAC fel cymhwyster Lefel A' (Ysgol rhif 6)

Ffactorau eraill a grybwyllwyd fel pethau sy'n cael effaith negyddol yw dulliau dysgu gwael a'r ffaith fod athrawon yn trin myfyrwyr 'fel plant'.

'Rydym yn brin o athro, felly dim ond hanner ein gwersi gawn ni.' (Ysgol rhif 7)

'Mae hi'n addasu hen waith i'r maes llafur newydd ac nid yw'n gweithio dda i fod yn onest' (Ysgol rhif 3)

'Beth am ein trin ni'n fwy fel oedolion — fel pobl unigol!' (Ysgol rhif 7)

'Rwy'n meddwl fod pobl wedi disgwyl ychydig mwy o barch... roeddem ni eisiau iddynt ein trin ychydig mwy fel oedolion' (Ysgol rhif 5)

2.2 Y Disgwyliadau am y Chweched Dosbarth

Mae amrywiaeth o ffactorau'n dylanwadu ar foddhad, e.e. natur y myfyrwyr (h.y. eu cymeriadau a'u hagwedd) a gan eu disgwyliadau. Felly, gofynnwyd i'r myfyrwyr beth oedd eu disgwyliadau cyn iddynt ymuno â'r chweched dosbarth yn nhermau, a gyflawnwyd y disgwyliadau yma neu beidio, neu, a oedd ganddynt ddisgwyliadau am faterion penodol.

Mae Tabl 2.3 yn dangos bod myfyrwyr yn llawer mwy tebygol o gael disgwyliadau am safon y gwaith a faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud (roedd tua degfed rhan o'r myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau yn y cyswllt hwn), o'i gymharu â'r dulliau dysgu ac arddull y dysgu a ddefnyddir a strwythur y cyrsiau (roedd tua phumed rhan o'r myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â'r materion yma). Roedd yn rhywfaint o syndod, fodd bynnag, bod ychydig yn llai na phumed rhan o'r myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau am gynnwys eu cyrsiau.

Pan ddadansoddwyd y canlyniadau yn nhermau'r dysgwyr oedd â disgwyliad am bob mater yn unig, roedd hi'n amlwg bod myfyrwyr yn fwy tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni yn nhermau safon y gwaith (dywedodd 89% bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni) a faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud (dywedodd 87% bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni). Mewn gwrthgyferbyniad, dim ond 75% oedd yn teimlo bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni yn nhermau'r dulliau dysgu ac arddull y dysgu a ddefnyddir mewn gwersi.

Tabl 2.3 Eu disgwyliadau am y chweched dosbarth

	Sail: pawb yn ateb	Cyflawnwyd y disgwyliad	Ni chyflawnwyd y disgwyliad	Dim disgwyliadau
% Y safon a ddisgwylir o ran y gwaith	5246	81	10	9
% Faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud	5351	79	11	9
% Nifer y dyddiadau cwblhau ar gyfer gorffen gwaith	5268	71	16	13
% Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd	5251	71	14	16
% Cynnwys eich cwrs/cyrsiau	5174	70	13	17
% Strwythur eich cwrs/ cyrsiau	5153	65	14	21
% Y dulliau dysgu ac arddull y dysgu mewn gwersi	5164	59	20	20

(Nodwch: mae'r canrannau'n adio at ei gilydd mewn rhesi. 'Ni wn' wedi'i eithrio)

Tabl 2.4 Y disgwyliadau am y chweched dosbarth (pob un o'r rheini oedd â disgwyliadau)

	Sail: pawb oedd â disgwyliad	Cyflawnwyd y disgwyliad	Ni chyflawnwyd y disgwyliad
% Y safon a ddisgwylir o ran y gwaith	4762	89	11
% Faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud	4858	87	13
% Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd	4437	84	16
% Cynnwys eich cwrs/cyrsiau	4295	84	16
% Strwythur eich cwrs/ cyrsiau	4056	82	18
% Nifer y dyddiadau cwblhau ar gyfer gorffen gwaith	4579	82	18
% Y dulliau dysgu ac arddull y dysgu mewn gwersi	4107	75	25

(Nodwch: mae'r canrannau'n adio at ei gilydd mewn rhesi. Nid ydym wedi cynnwys 'Ni wn' a 'Dim disgwyliad')

Roedd y myfyrwyr benywaidd ychydig bach yn fwy tebygol na'r myfyrwyr gwrywaidd o weld cyflawniad eu disgwyliadau mewn perthynas â'r nifer o ddyddiadau cwblhau y byddai'n rhaid iddynt weithio ar eu cyfer (84% o'i gymharu â 79%). Ar ben hynny, roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn fwy tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni ar y mater yma na'r rheini

ym Mlwyddyn 12 (86% o'i gymharu â 79% yn y drefn honno) – am fod myfyrwyr Blwyddyn 13 wedi treulio mwy o amser yn y chweched dosbarth na'r lleill, nid oedd hyn yn syndod mewn gwirionedd.



Tabl 2.5 A oedd eu disgwyliadau wedi'u cyflawni ynghylch nifer y dyddiadau cwblhau yn ôl rhyw a grŵp blwyddyn

		Rhyw		Grŵp blwyddyn	
	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13
Sail: pawb oedd â disgwyliad	4579	1928	2541	2658	1807
% Cyflawnwyd y disgwyliad	82	79	84	79	86
% Ni chyflawnwyd y disgwyliad	18	21	16	21	14

(Nodyn: Nid yw hyn yn cynnwys yr atebion 'Ni wn' a 'Dim disgwyliad')

Mae hi werth nodi fod pob myfyriwr oedd â disgwyliad, yn unol â'r canlyniadau yn yr NLSSW, ar gyfer pob mater a restrwyd, yn fwy tebygol o fod wedi rhoi ystyriaeth fwy difrifol i ymadael â'u chweched dosbarth os nad oedd y disgwyliadau wedi'u cyflawni. Roedd y duedd hon fwyaf amlwg mewn perthynas â strwythur y cwrs ac arddull y dysgu a'r dulliau dysgu a ddefnyddir mewn gwersi.

Roedd myfyrwyr oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws yn teimlo, yn gyffredinol, bod eu disgwyliadau am fod yn y chweched dosbarth wedi bod yn realistig a bod y rhain wedi'u cyflawni i raddau mawr. Roedd y disgwyliadau wedi'u seilio yn anad dim ar brofiadau eu teuluoedd a'u cyfeillion, gwybodaeth gan athrawon ac ar yr hyn roedd y myfyrwyr wedi sylwi arno wrth edrych ar y myfyrwyr oedd yn hŷn na hwy.

Daeth y themâu yma i'r amlwg wrth sôn am ddisgwyliadau:

Cyfrifoldeb a chydberthynas ag athrawon

Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn disgwyl i'r athrawon eu trin nhw fel oedolion, gan eu gwahaniaethu nhw oddi wrth weddill yr ysgol.

'(Roeddwn i'n meddwl) y byddem yn rheoli'r ysgol!' (Ysgol rhif 6)

'(Mae athrawon) yn gwerthfawrogi eich bod chi'n parhau i astudio, hynny yw mewn addysg bellach, ac maen nhw'n parchu hynny.' (Ysgol rhif 8)

'(Cawn) drefnu gweithgareddau a phethau felly – cewch drefnu disgo, gweithgareddau i godi arian i elusennau.' (Ysgol rhif 4)

'Mae'r athrawon yn llai llym am fod ganddynt ddsbarthiadau bach ac maen nhw'n gwybod fod pobl yn astudio'r pwnc ac, yn fwy na thebyg, eisiau gwneud hynny.' (Ysgol rhif 4)

'Mae yna deimlad eu bod nhw'n ceisio eich trin chi'n wahanol a bod yn ddiplommatig ac ati, ond dydi hynny ddim yn gweithio am fod yr athrawon yn dal i feddwl amdanoch fel plant.' (Ysgol rhif 2)

'Dydi'r athrawon ddim yn eich plagio chi - maen nhw'n rhoi'r gwaith i ni ac, os byddwn yn ei wneud, byddwn yn ei gyflwyno i'r athrawon...ni sy'n gyfrifol am wneud y gwaith ar ein pennau ein hunain.' (Ysgol rhif 7)

'Mae'r athrawon yn eich trin yn well na blyneddodd iau yr ysgol' (Ysgol rhif 5)

'Mae'n rhaid i ni wneud mwy o bethau droson ni'n hunain – dydi'r athrawon ddim yn gwneud popeth i chi' (Ysgol rhif 3)

'Roedd hi'n braf gweld y plant bach yn edrych i fyny arnoch; mae wedi ffurfio cysylltiad rhwng y chweched dosbarth a gweddill yr ysgol' (Ysgol rhif 2 – wrth sôn am drefnu eisteddfod ysgol)

Ystyriwyd y ffaith fod myfyrwyr yn dysgu mewn dosbarthiadau llai nag oeddent wrth astudio ar gyfer TGAU yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at ddatblygu cydberthnasau gwell gyda'r athrawon:

'Mae llawer mwy o waith un ac un.' (Ysgol rhif 7)

'Rydych yn teimlo'n fwy hyderus mewn grŵp llai'
(Ysgol rhif 5)

Natur y cyrsiau

Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn cydnabod eu bod yn mwynhau eu hastudiaethau am eu bod yn astudio eu dewis bynciau a chymwysterau. Ond, roedd nifer o'r myfyrwyr yn cyfaddef eu bod wedi cael y cam o'r TGAU i'r Lefel A yn anoddach nag yr oeddent wedi'i ddychmygu:

'Rydym wedi dewis y pynciau yr ydym yn eu mwynhau, felly dylent fod yn ddiddorol.' (Ysgol rhif 1)

'Dydych chi ddim yn cael gwersi nad ydych yn eu hoffi... yn y chweched dosbarth, am fy mod wedi dewis y pynciau, rwy'n ei chael hi'n haws, dyna i gyd.'
(Ysgol rhif 7)

'Mae'n rhaid i ni fod yn fwy trefnus – wrth wneud TGAU roedden nhw'n rhoi popeth i chi.' (Ysgol rhif 5)

Doeddwn i ddim wedi meddwl yn iawn sut beth fyddai'r cyrsiau, dim ond meddwl am y gwersi rhydd wnes i.'
(Ysgol rhif 2)

'Mae Lefel A Ffiseg yn anoddach na Lefel AS'
(Ysgol rhif 7)

'Dylent wneud y TGAU yn fwy anodd neu'r Lefel A yn haws, mae'r cam o un i'r llall yn rhy fawr' (Ysgol rhif 6)

Maint y gwaith

Roedd barn pobl yn amrywiol, ond yr argraff gyffredinol a gafwyd oedd bod mwy o waith na'r disgwyl.

'Ar gyfer y TGAU roedd hi'n weddol hawdd. Ar ôl dod yn ôl roeddwn i'n gwneud yr un math o waith ag o'r blaen ac yn methu'r profion. Mae'r naid mor fawr, does neb yn eich paratoi chi ar gyfer hynny.' (Ysgol rhif 1)

'Rydych yn cael llai o wersi, felly rydych yn meddwl y bydd llai o waith gennych i'w wneud, ond y gwir yw bod y gwaith yn dyblu.' (Ysgol rhif 8)

'Fe ddywedodd yr athrawon wrthym y byddai'n debyg i'r TGAU, ond dydi hynny ddim yn wir. Gyda'r TGAU roedd yn athrawon yn gosod tasgau i chi ond, erbyn hyn, rydym yn cael y gwaith i gyd ar unwaith ac mae'n rhaid i ni weithio ar ein cyflymder ein hunain ... dydyn nhw ddim yn dweud wrthym beth i'w wneud,' (Ysgol rhif 6)

'Doeddwn i ddim yn disgwyl iddo fod mor anodd â hyn; doeddwn i ddim yn disgwyl cymaint o waith cartref.'
(Ysgol rhif 5)

'Mae llawer o bwysau yn y chweched dosbarth – rydych yn mynd adref ac yn gweithio am ychydig oriau, mae'r gwaith ar eich meddwl drwy'r amser. Os nad ydych yn cadw ati i weithio ni fyddwch yn ennill y graddau yr ydych eu heisiau... Dylem wneud mwy o waith yn y dosbarth fel bod llai o waith cartref... Dw i'n l6 oed ac mae gen i swydd a phethau eraill yn fy mywyd – nid gwaith yn unig.' (Ysgol rhif 5)

'Weithiau mae llawer o waith i'w wneud ymhob un o'ch pynciau ar yr un pryd.' (Ysgol rhif 3)

Roedd yna ddisgwyliad cyffredinol y byddai mwy o ryddid a mwy o amser rhydd yn y chweched dosbarth, ac er bod y disgwyliad yma wedi'i gyflawni mewn rhai ysgolion, doedd hynny ddim yn wir mewn ysgolion eraill.

(Mewn gwirionedd, mae'r profiad yn y chweched dosbarth...) 'yn llai o straen ac mae mwy o ryddid.'
(Ysgol rhif 8)

'Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn cael llawer mwy o ryddid nag y caf.' (Ysgol rhif 5)

'Roeddwn i'n meddwl y byddai mwy o fanteision i ni. Mae'n rhaid i ni weithio yn ein hystafell gyffredin ni, ond mewn (ysgolion) eraill mae gemau cyfrifiadur i'w chwarae.' (Ysgol rhif 5)

'Byddwn yn dewis mynd i'r coleg [pe bawn i'n cychwyn eto] oherwydd byddai'n well gen i gael mwy o ryddid.'
(Ysgol rhif 1)

'Pe bawn i wedi mynd i'r coleg, byddwn yn cael dewis pa ddillad i'w gwisgo, byddwn yn cael fy nhrin fel oedolyn... yn y fan yma... mae pobl yn anghofio pwy sy'n blentyn a phwy sy'n oedolyn.' (Ysgol rhif 1)



Mewn ysgolion lle'r oedd 'rhyddid', roedd yr ymateb yn gymysg weithiau. Yn wir, ym marn rhai myfyrwyr, roedd amgylchedd mwy disgybledig yr ysgol yn beth positif.

'Mae pethau wedi ymlacio gormod yn y coleg; rydych yn gwisgo'r dillad a ddewiswch, yn gwneud yr hyn a ddewiswch' (Ysgol rhif 1)

'Maen nhw'n ceisio ein trin ni fel oedolion, ond mae angen dyddiadau cwblhau a chosbi os nad ydych yn gweithio' (Ysgol rhif 6)

'Mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r myfyrwyr yn gallu bod yn rhy dda – dydi Mr X ddim yn mynd yn flin gydag unrhyw beth a wnewch chi – rydych yn dechrau credu y gallwch ymddwyn fel y mynnwch.' (Ysgol rhif 4)

2.2.1 Cymhariaeth gydag Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith

Pan gymharwyd y canlyniadau ar gyfer chweched dosbarthiadau ysgolion gyda'r canlyniadau ar gyfer AB a Dysgu yn y Gwaith, roedd rhai gwahaniaethau yn amlwg. Er enghraifft, er bod barn myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion a myfyrwyr AB yn weddol debyg mewn perthynas â faint o waith y byddai'n rhaid ei wneud a safon y gwaith a ddisgwyliir ganddynt, roedd y myfyrwyr AB a'r myfyrwyr Dysgu yn y Gwaith o leiaf 10% yn fwy tebygol na myfyrwyr chweched dosbarth i ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni mewn perthynas â'r pethau yma:

- Strwythur y cyrsiau
- Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd
- Cynnwys y cwrs
- Arddull y dysgu a'r dulliau dysgu a ddefnyddir yn y sesiynau

Ar ben hynny, roedd y bobl hynny mewn AB fwy na 10% yn fwy tebygol na myfyrwyr chweched dosbarth o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u cyflawni mewn perthynas â:

- Faint o ddyddiadau cwblhau y byddai'n rhaid i chi weithio ar eu cyfer

2.3 Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Mynegodd 85% o'r myfyrwyr chweched dosbarth ysgol ryw radd o foddhad gyda'u profiad dysgu cyffredinol. Yn wir, roedd ychydig yn llai na hanner y myfyrwyr (45%) yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn ar y cyfan. Dim ond 6% o'r myfyrwyr fynegodd anfodlonrwydd.

O gymharu canlyniadau'r arolwg yma gyda chanlyniadau'r NLSSW, gwelir bod lefel y boddhad gyda'r profiad dysgu yn is ymysg myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion nag ymysg myfyrwyr o'r un oedran mewn AB neu sy'n Dysgu yn y Gwaith (dywedodd oddeutu saith ymhob deg o'r grwpiau yma eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn).

Roedd y boddhad yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad ac ar yr iaith y dysgwyd myfyrwyr ynddi. O ganlyniad, roedd 40% o'r myfyrwyr yn Ne Ddwyrain Cymru o'i gymharu â 46% neu fwy mewn rhanbarthau eraill yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn. Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn (51% o'i gymharu â 43% yn y drefn honno).

O edrych ar y gwaith ymchwil ansoddol, gwelir bod yr anfodlonrwydd mwyaf yn ymwneud â disgwyliadau anghywir ynghylch faint o ryddid y byddai'r myfyrwyr yn ei gael, faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud, a'r ffordd y byddai eu cyrsiau wedi'u dysgu.

Er bod y mwyafrif o'r myfyrwyr (ychydig yn llai na 90%) yn ymddangos fel pe bai ganddynt ddisgwyliadau cywir am safon y gwaith a faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud, roedd yna leiafrif bach ond arwyddocaol oedd â disgwyliadau anghywir. Roedd eu prif broblemau'n ymwneud ag addasu i'r lefel uwch o waith sydd ei angen a cheisio ymdopi â'r dyddiadau cwblhau sy'n codi ar yr un pryd. Roedd chwarter y myfyrwyr wedi disgwyl arddull wahanol o ddysgu i'r hyn a gawsant. Mae'n ymddangos mai'r rheswm nad oedd profiadau wedi cyfateb â'u disgwyliadau i raddau mawr oedd am ei bod hi mor anodd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain a chynnal fframwaith cefnogi da ar yr un pryd.

3.0 GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae'r adran yma'n ymdrin â:

- Y dewisiadau a wnaeth y myfyrwyr, ac a lwyddodd y myfyrwyr yma i gael lle gyda'r darparwyr dysgu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt ac ar y cwrs/cyrsiau oedd yn ddewis cyntaf ganddynt
- Y rhesymau am benderfynu mynd i chweched dosbarth mewn ysgol
- Y cyngor a geisiwyd wrth wneud y dewisiadau yma
- Yr opsiynau ceisio cyngor oedd orau ganddynt (gwybodaeth anecdotaidd gan y grwpiau ffocws)

3.1 DEWIS DARPARYDD A CHWRS

3.1.1 Dewis Darparydd


Gofynnwyd i'r myfyrwyr beth oedd eu prif resymau am benderfynu mynd i'r chweched dosbarth ac ai eu hysgol hwy oedd eu dewis cyntaf yn nhermau lle i astudio. Archwiliwyd eu dewisiadau o ran pynciau a chysiau hefyd drwy edrych ai'r rhain oedd eu dewis cyntaf, ac os nad, pam nad oeddent wedi gallu astudio eu dewis gyrsiau.

Roedd bron i dri chwarter y myfyrwyr chweched dosbarth (73%) yn astudio gyda'r darparydd dysgu roedden nhw wedi'i ddewis fel opsiwn cyntaf. Pan ddadansoddwyd y canlyniadau yn ôl amrywiol nodweddion yr ysgol a nodweddion demograffig, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau na rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Ar ben hynny, doedd hi ddim yn ymddangos bod y pwnc na'r cymhwyster a astudiwyd yn effeithio o gwbl ar lwyddiant y myfyriwr i gael lle yn eu chweched dosbarth dewisol.

Roedd myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru yn llai tebygol o fod wedi cael lle gyda'u darparydd dewisol. Yn yr un cyswllt, roedd myfyrwyr yn y wardiau mwyaf gwledig ychydig yn llai tebygol o fod yn mynychu eu dewis cyntaf (70% o'i gymharu â 73% yn y drefn honno). Ar ben hynny, wrth i faint y chweched dosbarth gynyddu, roedd cyfran y myfyrwyr oedd yn dweud eu bod yn mynychu eu dewis cyntaf yn cynyddu hefyd.

Roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn astudio yn y sefydliad roedden nhw wedi'i roi'n ddewis cyntaf (74% o'i gymharu â 71% o fyfyrwyr Blwyddyn 13). Ar ben hynny, roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn llawer llai tebygol na'r myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 i ddweud nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall (15% o'i gymharu â 21% yn y drefn honno). Efallai bod hyn yn ymwneud â'r amser sydd wedi mynd heibio ers iddynt wneud y penderfyniad. Gallai hynny effeithio ar farn y myfyrwyr am y dewisiadau roeddent wedi'u gwneud.

Siart 3.1 Mynychu'r sefydliad darparu dysgu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt



Tabl 3.1 Faint sy'n astudio yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt, yn ôl eu grŵp blwyddyn, eu rhanbarth a maint y chweched dosbarth

		Grŵp Blwyddyn		Rhanbarth				Maint y chweched dosbarth				
	Cyfan -swm	Bl 12	Bl 13	De Dd	De Orll	Can	Gog	Hyd at 100	101 – 150	151 – 200	201 – 250	251+
Sail: pob un yn ateb	5656	3251	2237	2605	1261	661	1129	700	1082	1375	546	1953
% Ia, dewis cyntaf	73	74	71	71	80	65	74	68	69	71	73	78
% Na, nid dewis cyntaf	7	9	5	7	7	10	6	11	7	7	6	6
% Ni chefais ddewis	3	2	3	3	2	5	2	2	4	2	3	2
% Ni ystyriais opsiwn arall	18	15	21	20	12	20	17	19	21	20	18	14



O gymharu'r data yma gyda chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003 (NLSSW) fe welwn fod cyfran fwy o ddysgwyr mewn Addysg Bellach yn astudio yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (88% o'i gymharu â 73% o fyfyrwyr chweched dosbarth). Roedd cyfran debyg yn teimlo na chawsant unrhyw ddewis (4% o fyfyrwyr 16 – 18 oed mewn AB o'i gymharu â 3% o fyfyrwyr chweched dosbarth). Ond, er nad oedd 18% o fyfyrwyr chweched dosbarth wedi 'ystyried opsiwn arall', dim ond 3% o'r rheini mewn AB oedd heb ystyried opsiwn arall. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol lwybrau dewis yr oedd y ddau grŵp yn eu dilyn.

Roedd y myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn astudio yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt na'r myfyrwyr 16 – 18 oed oedd yn Dysgu yn y Gwaith (73% o'i gymharu â 68% yn y drefn honno). Roedd y myfyrwyr oedd yn Dysgu yn y Gwaith yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt ddewis o ran y sefydliad darparu (13% o'i gymharu â 3% o fyfyrwyr chweched dosbarth), sydd i'w ddisgwyl i ddweud y gwir o ystyried eu bod nhw'n dysgu drwy gyfrwng eu cyflogwyr.

3.1.2 Dewis Cyrsiau

Roedd mwy na thri chwarter y myfyrwyr chweched dosbarth yn astudio'r cwrs roedden nhw wedi'i ddewis fel opsiwn cyntaf (pwnc a chymhwyster), ond doedd hynny ddim yn wir am bumed rhan ohonynt (19%). Roedd y cyfrannau yma'n gyson mewn perthynas â rhywiau a chyfrwng iaith yr ysgol.

Ond, roedd nifer o ffactorau yn effeithio ar y tebygolrwydd y byddai myfyrwyr yn dilyn y cwrs roedden nhw wedi'i ddewis fel opsiwn cyntaf, fel a ganlyn

- Roedd y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 yn llai tebygol na'r rheini ym Mlwyddyn 13 o ddweud eu bod yn astudio'r cyrsiau roedden nhw wedi'u dewis fel opsiwn cyntaf (74% o'i gymharu â 82% yn y drefn honno).
- Fel y gwelwyd wrth edrych ar ddewisiadau'r myfyrwyr mewn perthynas â sefydliad, roedd myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru'n llai tebygol na'r rheini mewn rhanbarthau eraill o fod yn dilyn y cyrsiau oedd yn ddewisiadau cyntaf ganddynt. Mae hyn yn gysylltiedig â'r

canfyddiad bod myfyrwyr sy'n mynychu ysgolion a ystyrir yn rhai mwy gwledig nag eraill ychydig bach yn llai tebygol o fod yn astudio'r cyrsiau oedd yn ddewis cyntaf ganddynt na myfyrwyr eraill.


- Roedd myfyrwyr sy'n astudio lefel A neu gymhwyster cyfatebol a lefel AS yn fwy tebygol o fod yn astudio'r cyrsiau oedd yn ddewisiadau cyntaf ganddynt na myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau eraill.
- Roedd 75% neu'n llai o'r myfyrwyr hynny sy'n astudio 'busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith', 'gwyddor chwaraeon', 'technoleg gwybodaeth a chyfathrebu' a 'sgiliau allweddol' yn astudio'r cyrsiau oedd yn ddewisiadau cyntaf ganddynt.

Un o themâu allweddol y grwpiau ffocws oedd bod y myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi trosglwyddo bron yn awtomatig o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12. Yr argraff a geir yw bod hyn, i lawer ohonynt, yn berthnasol i'w disgygliadau neu i ddisgygliadau eu teuluoedd – dyma beth wnewch chi a dyna ni.

'(Yn yr ysgol yma mae) y math o bobl sy'n mynd i (ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg), i'r (ysgol yma) ac yn aros ymlaen yn y chweched dosbarth – y dosbarth canol Cymreig.' (Ysgol rhif 2)

'Rydych yn aros gyda'ch ffrindiau – mae fel estyniad o'r ysgol.' (Ysgol rhif 3)

Siart 3.2 Ai eu dewis cyntaf oedd y cwrs/cyrsiau a astudir ganddynt?



Tabl 3.2 Y nifer sy'n astudio'r cwrs/cyrsiau dewis cyntaf yn ôl grŵp blwyddyn, rhanbarth, pa mor wledig yw'r ysgol

		Grŵp blwyddyn		Rhanbarth				Pa mor wledig ydyw	
	Cyfan-swm	Bl 12	Bl 13	De Dd	De Orll	Can	Gog	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pob un yn ateb	5647	3253	2243	2614	1247	662	1124	595	5052
% Ia, dewis cyntaf	77	74	82	77	80	72	78	75	78
% Na, nid y dewis cyntaf	19	21	14	19	16	24	18	22	18
% Ni chefais ddewis	2	2	1	2	2	1	2	1	2
% Ni ystyriais opsiwn arall	2	2	2	3	2	2	2	2	2

Tabl 3.3 Y nifer sy'n astudio'r cwrs/cyrsiau dewis cyntaf yn ôl y cymhwyster

		Math o gymhwyster						
	Cyfan-swm	Lefel A neu gyfatebol	Lefel AS	CSYS ¹ neu gyfatebol	TGAU	RSA ²	GNVQ	Arall
Sail: pob un yn ateb	5647	5105	3042	35	214	5	229	25
% Ia, dewis cyntaf	77	79	78	63	55	40	49	80
% Na, nid y dewis cyntaf	19	17	19	23	35	20	35	16
% Ni chefais ddewis	2	1	1	6	8	40	14	–
% Ni ystyriais opsiwn arall	2	2	2	9	2	–	2	4

1 CSYS + Tystysgrif Astudiaethau Blwyddyn Chwech

2 RSA + Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau; cymwysterau a roddir ar gyfer pynciau gweinyddol fel sgiliau teipio

O gymharu'r data yma gyda chanlyniadau'r NLSSW gwelwyd bod myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion yn llawer llai tebygol na dysgwyr mewn AB ac sy'n Dysgu yn y Gwaith o fod yn astudio'r cyrsiau oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (77% o'i gymharu â 89% mewn AB a 85% ymysg y rhai sy'n Dysgu yn y Gwaith)

Dangosodd y grwpiau ffocws bod myfyrwyr mewn ysgolion llai yn tueddu i gael opsiynau cyfyngedig yn y chweched dosbarth, er bod yr ysgolion yma'n ffurfio cysylltiadau gyda cholegau lleol yn aml iawn er mwyn ehangu'r dewis sydd ar gael i'r myfyrwyr. O ganlyniad, o ddewis rhai cyrsiau penodol byddai'n rhaid i'r myfyriwr dreulio rhywfaint o amser ar safle arall a gall hyn fod yn

ffactor sy'n dylanwadu ar y cyrsiau maent yn eu dewis, gyda chanlyniadau digon gwael ar brydiau:

'Dewisais astudio seicoleg oherwydd roeddwn i'n meddwl y byddai'n bwnc diddorol... ond rwy'n difaru gwneud y cwrs erbyn hyn am fy mod i wedi methu. Roedd rhaid i mi fynd ar y cwrs ar ôl yr ysgol am ddwy noson bob wythnos... erbyn i mi gyrraedd yno roeddwn i'n rhy flinedig a doedd gen i ddim yr egni i wneud unrhyw beth.' (Ysgol rhif 7)

Dywedodd llawer o'r myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y byddai'n well ganddynt dderbyn rhywfaint o'u haddysg yn y Saesneg, a'r rheswm am hynny i raddau mawr yw'r prinder adnoddau Cymraeg sydd ar gael a'r angen i'w cyfieithu drwy'r amser.

'Pe bawn i'n cychwyn eto, byddwn yn dewis pynciau Saesneg i gyd' (Ysgol rhif 1)

'I mi, mae'r lle yma wedi gweithio'n iawn, oherwydd mae angen pynciau craidd arnaf beth bynnag. Rwyf wedi gallu gwneud hanner fy ngwaith yn y Saesneg.' (Ysgol rhif 2)

Pwynt cyffredinol i'w ystyried yw hyn: yn unol â'r canlyniadau o'r NLSSW, roedd gallu myfyrwyr i gael eu dewis cyntaf o ran darparwydd dysgu a chwrs yn dylanwadu ar eu boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu yn y chweched dosbarth.

Eithriadol fodlon

Bodlon iawn

Gweddol fodlon

Diffyg diddordeb/anfodlon

Mae'r gyfran sydd yn y sefydliad/ar y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn gostwng drwy'r grwpiau

3.1.3 Y Rhesymau nad ydynt yn Astudio eu Cyrsiau Dewis Cyntaf

Ymysg y myfyrwyr hynny nad oeddent yn astudio'r cyrsiau fyddai'n well ganddynt, roedd y prif resymau am hynny yn ymwneud â hyn:

- Nid oedd modd cael lle i'r dewisiadau ar yr amserlen (47%)
- Nid oedd yr ysgol yn darparu'r cyrsiau neu'r pynciau yr oeddwn eu heisiau (36%)
- Cynghorodd yr athrawon fi i beidio â dilyn fy newis(iadau) cyntaf (14%)

Roedd rhai grwpiau'n fwy tebygol o nodi 'nid yw'r ysgol yn gallu darparu'r cyrsiau/ pynciau' fel rheswm am beidio astudio eu dewisiadau cyntaf, fel a ganlyn:

- Myfyrwyr benywaidd (39% o'i gymharu â 33%)
- Myfyrwyr Blwyddyn 13 (41% o'i gymharu â 35%)
- Myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru oedd yn cynnwys yr ysgolion mwyaf gwledig (nodwyd y rheswm yma gan 52%, o'i gymharu â 35% neu'n llai mewn rhanbarthau eraill)
- Myfyrwyr mewn chweched dosbarthiadau llai (150 o ddisgyblion neu lai)
- Myfyrwyr sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg (nodwyd y rheswm yma gan 46% o'i gymharu â 33% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg)

I gymharu, y rhesymau a roddwyd gan ddysgwyr mewn Addysg Bellach a'r rheini sy'n Dysgu yn y Gwaith am beidio â dilyn eu cyrsiau dewis cyntaf oedd:

Addysg Bellach:

- Ni allwn gael lle ar y cwrs hyfforddi a ddewisais (17%)
- Newidiais fy meddwl/ roedd yn well gennyf y cwrs yma pan glywais amdano (13%)
- Ni fwyneais yr hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf gennyf (11%)
- Nid oedd y darparwydd yn darparu'r hyfforddiant roeddwn ei eisiau (10%)

Dysgu yn y Gwaith:

- Dim lle ar y cwrs hyfforddi (18%)
- Ni allwn gael lle ar y cwrs hyfforddi a ddewisais (16%)
- Ni fwyneais yr hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf gennyf (13%)
- Nid oedd y darparwydd yn darparu'r hyfforddiant roeddwn ei eisiau (10%)

'Nid yw hwn yn cyfri ar gyfer (mynediad i) brifysgolion yn Lloegr' (Ysgol rhif 6)

Roedd yr amserlen yn bwnc a godwyd yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws i gyd. Nid oedd ysgolion yn gallu cael hyd i le yn eu hamserlenni ar gyfer cyrsiau dewis cyntaf eu myfyrwyr bob amser. I nifer o fyfyrwyr, roedd hyn yn golygu eu bod wedi rhoi'r gorau i'r posibilrwydd o astudio eu dewis gyrsiau yn hytrach na newid ysgolion neu fynd i'r coleg.

'Byddwn wedi hoffi astudio ieithoedd, ond nid oes opsiynau iaith yn yr ysgol yma.' (Ysgol rhif 6)

'Roeddwn eisiau astudio Sbaeneg... ond doedden nhw ddim yn ei gynnig yma' (Ysgol rhif 5)

'Pan oeddem yn gwneud ein dewisiadau, roedd hi'n dweud ar y ffurflen bod rhaid cael 8 o bobl o leiaf ar gwrs neu efallai na allai'r ysgol ei gynnal' (Ysgol rhif 5)

Roedd rhai myfyrwyr yn gorfod gweithio o amgylch cyfyngiadau'r amserlen.

'Rwy'n mynd i'r gwersi Ffrangeg arferol i gyd ac yn gweithio ar fy ngwaith Celf pan fydd gwersi rhydd gennyf' (Ysgol rhif 3)

Tabl 3.4 Y rhesymau am fynd i'r chweched dosbarth yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn a rhanbarth

		Rhyw		Grŵp blwyddyn		Rhanbarth			
	Cyfan-swn	Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	De Dd	De Orll	Can	Gog
Sail: pob un yn ateb	5681	2439	3084	3261	2240	2615	1269	661	1136
% Roeddwn i'n mynd i'r ysgol yma'n barod	85	83	86	83	88	87	83	85	82
% Y lleoliad agosaf/yn gyfleus	54	52	55	53	56	53	57	57	50
% Yn cynnig y cwrs/cyrsiau a/ neu'r pwnc/pynciau yr oeddwn eu heisiau	53	52	55	56	50	53	56	46	56
% Roedd fy ffrindiau'n mynd yno	51	52	50	52	50	49	56	51	50
% Mae ganddo enw da	23	24	23	23	23	16	29	25	31
% Y cynghorwr gyrfaol wedi'i argymhell	6	7	6	7	5	6	9	6	6
% Yn cynnig addysg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg	6	5	6	6	6	3	4	8	13
% Arall	2	2	3	3	2	2	3	3	5
% Ni wn	*	*	—	*	—	*	—	—	—
% Nid oedd dewis gennyf — dyma'r unig opsiwn yn fy ardal i	*	*	*	*	*	*	*	*	*

(Nodwch: Roedd caniatâd iddynt roi mwy nag un ateb)

3.2 Y rhesymau am fynd i'r Chweched Dosbarth

Y ffactor allweddol i'r myfyrwyr wrth iddynt ddewis mynychu ysgol arbennig oedd y ffaith eu bod yn gyfarwydd â'r ysgol. Dywedodd 84% o'r myfyrwyr mai un o'u prif resymau am ddewis eu chweched dosbarth oedd eu bod yn mynd i'r ysgol honno'n barod. Mae hyn yn cyd-fynd â'r 18% o fyfyrwyr oedd heb ystyried opsiwn arall wrth ddewis ymhle i astudio. Dyma rai o'r rhesymau allweddol eraill am fynychu ysgol benodol:

- y lleoliad yn gyfleus/yr ysgol agosaf (53%)
- yn cynnig y cyrsiau a/neu'r pynciau roeddwn eu heisiau (53%)
- roedd fy ffrindiau'n mynd yno (51%)

Roedd amrediad y dewis sydd ar gael mewn ysgolion mwy ac mewn ardaloedd mwy poblog wedi'i amlygu

gan y ffaith fod myfyrwyr yn yr ysgolion/ardaloedd hynny'n fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan y ffaith fod eu hysgol yn 'cynnig y cyrsiau a/neu'r pynciau roeddwn eu heisiau'.

Pan gymharwyd y canlyniadau ar gyfer y myfyrwyr chweched dosbarth gyda'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr mewn AB a'r rhai sy'n Dysgu yn y Gwaith, roedd hi'n amlwg eu bod yn gorgyffwrdd yn nhermau'r rhesymau allweddol am ddewis darparwydd, sef cyfleustra a'r ffaith eu bod yn cynnig cyrsiau neu bynciau penodol.

Roedd yr adborth gan y grwpiau ffocws yn dangos bod y myfyrwyr yn cael eu denu'n gryf at y sefydliad oedd yn gyfarwydd iddynt ac roedd llawer o'r myfyrwyr heb ystyried gadael eu hysgol o gwbl, oherwydd roeddent wedi cymryd yn ganiataol y byddent yn parhau â'u haddysg i'r chweched dosbarth gyda'u cymheiriaid,



Ile'r oedd athrawon yn rhywbeth cyfarwydd. Mewn geiriau eraill, roedd cyrraedd y chweched dosbarth yn digwydd yn 'awtomatig' yn aml iawn, yn hytrach na thrwy broses o ystyriaeth ofalus.

'Roedd hyn yn teimlo'n iawn... doeddwn i ddim yn ffansio mynd i'r coleg... Daeth fy nghyfeillion yma, ac roeddwn eisiau gwneud lefelau A yma – roeddwn i'n nabod yr athrawon.' (Ysgol rhif 7)

'Drwy gydol y gwyliau haf roeddwn eisiau mynd i'r coleg, ond ddwy noson cyn dechrau'r tymor newidiais fy meddwl. Rwy'n meddwl fod gen i ofn mynd i'r coleg ac roedd fy nghyfeillion i gyd yn aros yma.' (Ysgol rhif 1)

'Mwynheais fy amser yn yr ysgol o Flwyddyn 7 ymlaen, felly doeddwn i ddim yn gweld unrhyw reswm dros newid' (Ysgol rhif 3)

'Rydych yn nabod yr amgylchedd – mae'r athrawon... yn nabod ein personoliaethau a'r ffordd rydym yn hoffi gwneud pethau' (Ysgol rhif 3)

'Wrth wneud (lefelau) A ac AS rydych dan ddigon o bwysau heb orfod dysgu am system ysgol newydd neu unrhyw beth felly' (Ysgol rhif 3)

'Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw ddewis i ddweud y gwir – mae pawb arall yn y teulu wedi mynd ymlaen. Ni feddyliais i erioed am beidio mynd ymlaen' (Ysgol rhif 4)

'Rwy'n hoffi'r syniad o fynd i goleg chweched dosbarth, ond nid oes un ar gael yn yr ardal yma' (Ysgol rhif 3)

I rai pobl, nid oedd y coleg yn opsiwn i'w ystyried o gwbl. Roedd arddull y dysgu a'r ffaith fod cyrsiau coleg yn tueddu i fod yn fwy galwedigaethol yn ei gwneud hi'n opsiwn na fyddent yn ei ystyried:

'Mae pethau wedi ymlacio gormod yn y coleg. Rydych yn gwisgo'r dillad a ddewiswch ac yn gwneud fel y mynnoch.' (Ysgol rhif 1)

'Mae rhyw fath o dabŵynghylch mynd i'r coleg. Dydych chi ond yn mynd i'r 'tec' os nad ydych yn ddigon clyfar i fynd i'r chweched dosbarth, dyna'r argraff a gewch chi.' (Ysgol rhif 2)

Yn nodedig, yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid yr iaith sydd wedi'i nodi fel y ffactor sy'n eu cymell i aros, ond agweddau cymdeithasol / all-gwricwlaidd yr ysgol.

'Roeddwn i'n edrych ymlaen at bethau... rydym newydd gael eisteddfod yr ysgol, cymryd rhan mewn pethau felly, does dim fel hynny yn y coleg.' (Ysgol rhif 1)

'Mae mwy o gyfle i wneud y pethau (all-gwricwlaidd) yr ydych eu heisiau nag yn y coleg' (Ysgol rhif 1)

3.3 CYNGOR AM DDEWIS DARPARYDD A CHWRS

3.3.1 Gweithgareddau Ceisio Cyngor

Gofynnwyd i'r myfyrwyr ddweud a oeddent wedi ceisio cyngor wrth ddewis ysgol a chysiau. Pan oedd y myfyrwyr wedi ceisio cyngor, fe archwiliwyd ffynonellau'r cyngor hwnnw.

Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o fod wedi gofyn cyngor ynghylch beth i'w astudio (58%) nag ynghylch lle i astudio (34%). Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrymau a welir mewn gwneud penderfyniadau; i nifer o fyfyrwyr, roedd mynd ymlaen i'r chweched dosbarth yn eu hysgol gyfredol yn digwydd yn awtomatig. Roedd mwy na chwarter y myfyrwyr (27%) heb geisio cyngor am y naill fater na'r llall.

Roedd myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o geisio cyngor na myfyrwyr gwrywaidd, yn arbennig mewn perthynas â'u cwrs astudio (roedd 61% o ferched wedi ceisio cyngor am gyrsiau o'i gymharu â 54% o fyfyrwyr gwrywaidd).

Er bod cyfrannau tebyg o fyfyrwyr ymhob rhanbarth yn ceisio cyngor ar beth i'w astudio, roedd y myfyrwyr yn Ne Orllewin Cymru'n fwy tebygol na'r myfyrwyr eraill o fod wedi ceisio cyngor ar y lle astudio (44% o'i gymharu â 34% neu'n is mewn rhanbarthau eraill).

Roedd adborth gan y grwpiau ffocws yn dangos bod y penderfyniad ynghylch beth i'w astudio yn allweddol ac yn gallu effeithio'n fawr ar y penderfyniadau ynghylch lle i astudio (os oes dewis ar gael a/neu os yw'r myfyrwyr wedi'u cymell yn ddigonol).

Efallai bod y gwahanol batrwm o geisio cyngor rhwng y rhywiau yn ymwneud ag agwedd fwy

aeddfed ymysg myfyrwyr benywaidd, o'i gymharu â'r bechgyn, fel y gwelwyd yn ystod y grwpiau ffocws. Er enghraifft, y duedd oedd bod gan y myfyrwyr benywaidd syniadau mwy eglur am y dyfodol yn nhermau bod eisiau mynd ymlaen i'r cam nesaf mewn bywyd, yn hytrach nag aros yn amgylchedd gweddol 'ddiogel' yr ysgol.

Mae cydberthynas rhwng y nifer o achosion o geisio cyngor a'r lefelau boddhad a chymhelliant, fel yma:

- Roedd y myfyrwyr oedd wedi ceisio cyngor ynghylch lle i astudio a/neu ynghylch beth i'w astudio yn fwy tebygol o'u disgrifio eu hunain fel myfyrwyr eithriadol frwdfrydig neu frwdfrydig iawn na'r rheini oedd heb gymryd cyngor (76% a 77% o'i gymharu â 64%).
- Gwelir patrwm tebyg gyda'r lefelau boddhad cyffredinol. Roedd y myfyrwyr oedd wedi ceisio cyngor ynghylch lle a/neu ynghylch beth i'w astudio yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn na'r rheini oedd heb geisio unrhyw gyngor (49% a 51% o'i gymharu â 34% yn y drefn honno).

Ond, mae'r cysylltiadau achosol yn y data yn aneglur. Er enghraifft, efallai bod y myfyrwyr sy'n uchel eu brwdfrydedd yn fwy tebygol o geisio cyngor, yn hytrach na phroses lle mae'r cyngor yn cyfrannu'n uniongyrchol at lefelau uwch o frwdfrydedd ymysg y myfyrwyr yma.

3.3.2 Ffynonellau'r Cyngor

Mae tabl 3.5 yn dangos mai'r ffynonellau a nodwyd fwyaf oedd athrawon yn yr ysgol (70%), cynghorydd Gyrfa Cymru o fewn neu'r tu allan i'r ysgol (69%) a rhieni/aelodau eraill o'r teulu (65%). Nododd traean o'r myfyrwyr (35%) eu bod wedi cael cyngor gan eu cyfeillion.

'(Gofynnais i'r athrawon) a fyddwn i'n ddigon da (yn y pwnc hwnnw)' (Ysgol rhif 3)

'Gofynnais (i'r athrawes) a oedd hi'n meddwl y gallwn i ymdopi gyda lefelau A' (Ysgol rhif 5)

Roedd cyfrannau tebyg o fyfyrwyr gwrywaidd a benywaidd wedi nodi 'athrawon' fel ffynhonnell cyngor, ond roedd y myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol na'r

bechgyn o nodi aelodau'r teulu fel ffynhonnell cyngor. Roedd myfyrwyr benywaidd hefyd ychydig bach yn fwy tebygol na'r myfyrwyr gwrywaidd o nodi Gyrfa Cymru (71% o'i gymharu â 67%, yn y drefn honno).

- Yn nodedig, roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn fwy tebygol o nodi cynghorwyr Gyrfa Cymru fel ffynhonnell cyngor na'r rheini ym Mlwyddyn 13 (72% o'i gymharu â 65%)

Yn gyffredinol, roedd y ffynonellau cyngor yn gyson drwy'r rhanbarthau i gyd. Ond, roedd y myfyrwyr oedd yn mynychu ysgolion yn y wardiau mwyaf gwledig yn fwy tebygol na myfyrwyr eraill o nodi athrawon yn yr ysgol fel ffynhonnell cyngor allweddol (77% o'i gymharu â 70%).

Roedd myfyrwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion eraill o nodi athrawon yn yr ysgol (74% o'i gymharu â 69%) a rhieni/aelodau eraill o'r teulu (69% o'i gymharu â 64%) fel ffynonellau cyngor.

Mae adborth gan grwpiau ffocws yn awgrymu bod nifer o fyfyrwyr yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i ddylanwad a dewisiadau eu rheini. Yn yr achosion yma, mae'n rhesymol tybio y bydd cyfranogaeth y rhieni yn parhau drwy gydol eu gyrfa ysgol ac y bydd yn bwysig ar yr amseroedd hynny pan fydd raid i'r myfyrwyr wneud penderfyniadau.

Pan gymharwyd y canlyniadau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion gyda'r canlyniadau a gafwyd ar gyfer dysgwyr AB a'r rhai sy'n Dysgu yn y Gwaith, roedd y patrymau ceisio cyngor yn weddol debyg (tabl 3.6), er bod cyfrannau mwy o fyfyrwyr chweched dosbarth ysgolion wedi nodi'r mwyafrif o'r ffynonellau cyngor oedd yn gorgyffwrdd rhwng yr arolygon. Ond, roedd dysgwyr AB a Dysgu yn y Gwaith yn fwy tebygol na myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion o nodi cyfeillion a gwasanaethau Cyswllt Dysgu fel ffynonellau cyngor.



Tabl 3.5 Y ffynonellau cyngor yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn, iaith yr ysgol a pha mor wledig yw'r ysgol

	Cyfanswn	Rhyw		Grŵp blwyddyn		Iaith yr ysgol		Pa mor wledig ydyw	
		Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	Cymraeg	Saesneg	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pawb a geisiodd gyngor yn ateb	3939	1597	2255	2316	1521	880	3059	414	3525
% Athrawon ysgol	70	70	71	69	73	74	69	77	70
% Cynghorwr Gyrfa Cymru, o fewn neu oddi allan i'r ysgol	69	67	71	72	65	70	69	71	69
% Rhieni/aelodau eraill o'r teulu	65	58	70	67	63	69	64	68	65
% Cyfeillion	35	33	36	36	34	35	35	32	35
% Staff mynediad chweched dosbarth	20	22	18	17	23	16	21	18	20
% Gwasanaeth Cyswllt Dysgu	1	1	1	1	1	1	1	1	1
% Arall	1	1	1	1	1	*	1	1	1

(Nodwch: Cai'r myfyrwyr roi mwy nag un ateb)

Tabl 3.6 Ffynonellau cyngor i fyfyrwyr AB a Dysgu yn y Gwaith (o NLSSW 2003)

	AB	Dysgu yn y Gwaith
Sail: Heb ei bwysoli	1387	351
Sail: Wedi'i bwysoli	1153	355
Gyrfa Cymru	55	65
Swyddfa fynediadau'r coleg	33	17
Athrawon yn yr ysgol	58	38
Athrawon/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu	59	37
Rhieni neu aelodau eraill o'r teulu	59	54
Cyfeillion	58	47
Cyflogwr	14	51
Cynghorwr Gyrfaol yr Ysgol	65	53
Y Gwasanaeth Cyswllt Dysgu	9	8
Gwefan Cyswllt Dysgu	6	5
Arall	5	4

(Nodwch: Caniatwyd i'r dysgwyr roi mwy nag un ateb. Nid ydym wedi dangos 'Dim ateb')

Dangosodd y grwpiau ffocws fod safon a maint y cyngor sydd ar gael yn amrywio'n enfawr rhwng ysgolion. Mae rhai yn cynnig gwersi gyrfaol i helpu myfyrwyr i ganolbwyntio eu dewisiadau, tra bo eraill yn cynnig cyfarfodydd gyda'r cynghorwr gyrfaol o oed mor ifanc â Blwyddyn 9. Roedd nifer o ysgolion yn cynnig dyddiau/nosweithiau agored yn ystod Blwyddyn 11, y gallai myfyrwyr o ysgolion eraill fynd iddynt.

Mae amseru'n bwysig. Dywedodd nifer o fyfyrwyr fod Blwyddyn 11 yn rhy hwyr i dderbyn cyngor am ddewisiadau, ond roedd eraill yn teimlo nad oedd ganddynt syniadau mor gyflawn am yr hyn yr oeddent ei eisiau pan oeddent yn iau. Roedd myfyrwyr mewn nifer o ysgolion yn teimlo bod/y byddai cyngor parhaus ym Blwyddyn 13 yn ddefnyddiol.

Hefyd, roedd y grwpiau'n dangos fod barn y myfyrwyr am gynghorwyr gyrfaol mewn ysgolion yn gymysg iawn. Roedd llawer o fyfyrwyr yn cydnabod gwerth y gwasanaeth a gynigir gan gynghorwyr gyrfaol, er enghraifft, maen nhw'n dda am gynghori pa opsiynau i'w cymryd er mwyn astudio meddygaeth mewn prifysgol neu sut i wneud cais i ymuno â'r lluoedd arfog.

'Roeddwn i'n meddwl bod y cyngor yn ddefnyddiol - roedd yn eich cymryd at bwynt y sgwrs, roeddech chi'n siarad am y pethau roeddech eisiau eu gwneud ac yn trafod a fyddai'r chweched dosbarth yn addas' (Ysgol rhif 5)

Roeddwn i'n meddwl bod y cyngor yn dda iawn. Nid oedd y cyfuniad o lefelau A yr oeddwn wedi'u dewis yn mynd gyda'i gilydd yn dda iawn...Fe newidiodd ef fy meddwl a'm helpu i ddewis pynciau gwell.'
(Ysgol rhif 8)

'Rydych yn siarad am bynciau, cymwysterau, i ble y gallwch symud ymlaen, prifysgolion a pharhau eich addysg...Yn tueddu i roi ffeithiau gyrfaol i chi...Mae'n edrych ar y graddau y mae disgwyl i chi eu hennill ac efallai y bydd yn dweud, "byddech yn gwneud yn well yn y coleg, ond dyma sydd ar gael i chi.' (Ysgol rhif 8)

Ond, roedd y cyngor yn tueddu canolbwyntio ar yr opsiynau mwyaf cyffredin, yn hytrach na'u bod wedi'u

teilwra i'r unigolyn. I'r bobl hynny oedd heb lawer o syniad i ba gyfeiriad yr oeddent eisiau mynd, y farn oedd bod y cyfarfod yma'n 'wastraff amser'.

'Y cwbl ddywedodd (hi) oedd beth sydd ei angen arnaf i wneud y cwrs yr hoffwn ei wneud yn y brifysgol er mwyn cael swydd a dyna i gyd i fod yn onest. Ni esboniodd unrhyw beth am...yr opsiynau eraill. Pe baech chi eisiau gwybod rhywbeth, byddai'n rhaid i chi fynd ati i'w ganfod drosoch chi'ch hun.' (Ysgol rhif 5)

'Nid oes ymdrech am yr hyn y gallech ei wneud' (Ysgol rhif 6)

'Doedd hi ddim eisiau gwybod beth fyddech chi'n hoffi'i wneud. Roedd hi'n dweud wrthyh pa swydd y gallech ei gwneud yn ei barn hi.' (Ysgol rhif 7)

Mewn un ysgol, roedd y cynghorydd gyrfaol wedi cynghori nifer o fyfyrwyr i fynd i'r coleg yn hytrach nag aros ymlaen yn y chweched dosbarth, ond fe wrthodwyd y cyngor yma. Cafwyd y teimlad hefyd bod y cynghorwr heb hybu prifysgolion 'da' ar bwrpas wrth gynghori myfyrwyr am eu ceisiadau prifysgol. A yw hyn yn enghraifft o ddisgwyliadau rhy isel gan gynghorwr am allu myfyrwyr?

Y farn yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd bod y cyngor yn wael. Roedd myfyrwyr mewn un ysgol o'r farn bod y cynghorwyr heb esbonio eu hopsiynau wrthyn nhw ar bwrpas, yn arbennig yr opsiynau oedd ar gael yn chweched dosbarth yr ysgol cyfrwng Saesneg lleol. Dehonglwyd hyn fel cais i gadw rhifau'r myfyrwyr fyddai'n mynd ymlaen i chweched dosbarth yr ysgol ei hun yn uchel. Mewn ysgol arall, roedd myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u sianelu'n ormodol at fynd i brifysgol.

'Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar y pethau sy'n dda i'r ysgol, yn hytrach na'r pethau sy'n dda i'r unigolyn.'
(Ysgol rhif 2)

'Mae llawer o bobl yn teimlo nad ydynt eisiau mynd i'r brifysgol. Dydw i ddim yn credu bod digon o wybodaeth ar gael iddyn nhw. Does gennym ni ddim syniad sut i gael prentisiaeth neu rywbeth felly.'
(Ysgol rhif 1)



Un o'r negeseuon allweddol a gafwyd gan y grwpiau oedd bod y penderfyniad am ba gwrs i'w astudio wedi'i seilio'n aml iawn ar y pethau mae myfyrwyr yn eu mwynhau neu'n rhagori ynddynt yn ystod eu TGAU, o'i gymharu ag ystyriaeth am ddewisiadau gyrfaol tymor hirach. Felly, roedd cyngor gyrfaol ym Mlwyddyn 11 yn llai arwyddocaol na dewis eu pynciau 'gorau' wrth weithio o fewn cyfyngiadau'r opsiynau amserlennu.

'(Rydych yn dewis) y pethau y credwch y byddwch yn dda ynddynt.' (Ysgol rhif 4)

'Am fy mod i'n hoffi'r pynciau yma wrth wneud TGAU dim ond cario mlaen wnes i mewn gwirionedd.' (Ysgol rhif 7)

Mae athrawon yn dylanwadu ar eu dewisiadau hefyd mewn ffordd fwy personol. Os nad yw'r myfyrwyr yn parchu athro/athrawes neu os ydyn nhw'n athrawon amhoblogaidd, bydd rhai myfyrwyr yn osgoi'r pwnc hwnnw.

'Rydych yn osgoi pynciau gydag athrawon nad ydych yn eu hoffi' (Ysgol rhif 6)

'Wrth ddod i fyny drwy (enw'r ysgol) roeddech chi'n gwybod pa bynciau oedd yn cael eu dysgu'n dda' (Ysgol rhif 4)

Roedd un neu ddwy o'r ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws yn cynhyrchu Llawlyfrau Chweched Dosbarth ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11. Fel arfer, roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau at fywyd yn y chweched dosbarth, cyfrifoldebau myfyrwyr a gwybodaeth am y gwahanol bynciau sydd ar gael. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr o'r farn bod y rhain yn ddefnyddiol:

'Yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer pynciau newydd, fel Athroniaeth neu Gymdeithaseg' (Ysgol rhif 3)

'Am fod yr ysgol wedi'i gynhyrchu, roeddem yn gwybod ei fod ar gyfer ein hysgol ni – nid yn un cyffredinol ar gyfer yr holl ysgolion yng Nghymru' (Ysgol rhif 3)

Roedd dylanwad cyfeillion a theulu yn bwysig. I nifer o fyfyrwyr, roedden nhw eisiau bod fel myfyrwyr/brodyr neu chwiorydd oedd yn hŷn na nhw yn yr ysgol. Ar y

llaw arall, lle'r oedd eraill wedi methu, roedd hyn yn eu hysgogi nhw i ymgeisio'n galetach ac i wneud yn siŵr nad oeddent yn gwneud yr un camgymeriadau. Roedden nhw o'r farn fod hwn yn amser pwysig iawn yn eu bywydau ac yn hanfodol yn nhermau eu dyfodol.

'Gadawodd mam yr ysgol pan oedd hi'n 16 oed, cafodd blentyn pan oedd hi'n 18 oed ac, ers hynny, mae hi wedi aros adref. Allwn i ddim gwneud hynny. Rwyf eisiau gyrfa cyn i mi gael plant.' (Ysgol rhif 7)

'Mae (cyn-fyfyrwyr) yn dod yn ôl o'r brifysgol ac yn dweud mor grêt ydyw, mor falch ydynt eu bod wedi llwyddo i fynd yno.' (Ysgol rhif 7)

'Rydych yn gwybod y gwnewch chi'n well na (myfyrwyr sydd wedi methu). Rwy'n edrych ar fy chwaer ac yn sylweddoli...Dydw i ddim eisiau gwneud fel y gwnaeth hi.' (Ysgol rhif 3)

Fel sylw terfynol, gall nodweddion cymdeithasol ardal fod yn eithriadol ddylanwadol ar fywydau myfyrwyr – roedd rhieni'r myfyrwyr oedd yn dod o gefndiroedd 'dosbarth canol' yn tueddu i gyfranogi fwy ym mywydau eu plant ac roedd hyn yn dylanwadu ar eu disgwyliadau. Fel y dywedodd un myfyrwr, oedd yn dod o ardal amddifadus i ysgol cyfrwng Cymraeg:

'Rwy'n dod o ardal dlawd, mae hon yn ardal gyfoethog. Rwy'n meddwl fod disgwyliadau pobl yn y ddau le yn hollol wahanol. Mae wedi bod yn sioc go iawn i mi cael dod yma a gweld fod pobl yn gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud, fel llwybrau clir. Dylanwad yr ardal yw hynny.' (Ysgol rhif 2)

3.3.3 Yr opsiynau sicrhau cyngor sydd orau gan y myfyrwyr (adborth anecdotaidd gan grwpiau ffocws)

Datgelodd y drafodaeth am gyngor yn y grwpiau ffocws wybodaeth am y pethau y byddai myfyrwyr wedi'u cael yn ddefnyddiol. Gellir crynhoi'r rhain fel hyn:

- Mwy o gyngor wedi'i deilwra'n arbennig i'r unigolyn am opsiynau gyrfaol yn y dyfodol
- Cyngor sy'n parhau i Flynyddoedd 12 a 13

- Cyngor mwy penodol am y cyrsiau sydd ar gael yn y chweched dosbarth (e.e. eu cynnwys, llwyth y gwaith, sut berson sy'n ymdopi'n llwyddiannus â'r cwrs)
- Mwy o gyfle efallai i ymweld â phrifysgolion a chyflogwyr i gael syniad realistig am bob opsiwn.

'Ni all y cyngorwr gyrfaol ddweud wrthyh sut bethau yw'r swyddi mewn gwirionedd.' (Ysgol rhif 6)

Roedd yr adborth anecdotaidd yn awgrymu bod darparu cyngor i fyfyrwyr ar bwyntiau priodol cyn Blwyddyn 12 ac yna yn ystod eu chweched dosbarth yn sicrhau manteision yn nhermau cymhelliant. Os bydd y myfyrwyr yn gwybod at beth maen nhw'n gweithio, mae mwy o ffocws i'w hymdrechion. Y myfyrwyr hynny oedd heb lawer o syniad am eu cynlluniau yn y dyfodol oedd yn tueddu i ymddangos yn brin o frwdfrydedd yn ystod trafodaeth y grwpiau.

'Rwy'n meddwl bod yna lawer o bobl ym Mlwyddyn 11 sydd heb syniad ynglŷn â beth maen nhw eisiau ei wneud – doeddyn i ddim – ac ni roddodd hi (cyngorwr gyrfaol yr ysgol) unrhyw gliw am yr hyn y gallwn ei wneud neu beth fyddai'n fy siwtio i orau' (Ysgol rhif 5)

'Canfod beth rydych yn hoffi ei wneud a'ch rhoi chi ar y trywydd iawn, neu ddweud wrthyh y byddai hyn yn eich siwtio chi, y math yma o swydd.' (Ysgol rhif 5)

'Ni ofynnodd am fy marn i' (Ysgol rhif 7)

'Dydy nhw ddim yn gofyn am ein diddordebau nag unrhyw beth felly. Y cwbl gewch chi yw'r cwestiwn byr 'Beth hoffech chi ei wneud?'' (Ysgol rhif 5)

Yn wir, mewn un o'r ysgolion llai, roedd y myfyrwyr yn llawn canmoliaeth am un athro oedd yn barod i ymrwymo amser i siarad â'r myfyrwyr am eu dewisiadau, i wrando ar eu barn ac, yn fwyaf pwysig, i'w hannog a'u cefnogi nhw.

'Mae'n rhoi llwyth o opsiynau i chi – dydi o ddim yn dweud mai dyma sy'n rhaid i chi ei wneud.' (Ysgol rhif 7)

'Mae'n golygu llawer iddo bod ei ddisgyblion yn llwyddo.' (Ysgol rhif 7)

Mewn ysgol arall, roedd Blwyddyn 12 yn gwneud cwrs byr oedd yn canolbwyntio ar y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys opsiynau gyrfaol, bywyd prifysgol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. Cafodd dderbyniad da yn gyffredinol, yn arbennig yr agweddau hynny sy'n ymwneud ag ysgrifennu CV a datganiadau personol:

'Mae'n eich helpu i fod yn bositif amdanoch chi'ch hun.' (Ysgol rhif 3)

'Mae'n eich helpu chi i ddeall beth i'w roi yn eich CV a'ch datganiadau personol...pan oeddech yn gwneud eich Cofnod Cyrhaeddiant yn 11 oed, roedd hi'n anodd i ysgrifennu eich datganiad personol.' (Ysgol rhif 3)

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod myfyrwyr yn hoffi cael eu 'bwydo' gyda gwybodaeth mewn ffordd strwythuredig (e.e. drwy brosbectws/llyfrynau, nosweithiau agored), ond ei bod hi'n bwysig hefyd bod cyngor ar gael yn hawdd pan oeddent yn teimlo eu bod ei angen, a bod hyn wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau unigol.

3.4 Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Roedd y ffaith fod myfyriwr wedi llwyddo i fynd i'r sefydliad ac i astudio'r cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddo/ganddi yn cael effaith ar ei f/bodddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu. Felly, mae'n gadarnhaol iawn bod 73% o'r myfyrwyr yn astudio yn y sefydliad roedden nhw wedi'i ddewis fel opsiwn cyntaf a bod 77% yn astudio eu dewis gwrs (h.y. pwnc a chymhwyster). O ran dewis darparydd, roedd lleiafswm sylweddol o fyfyrwyr chweched dosbarth heb ystyried opsiwn arall, ac roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ymysg myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion nag ymysg dysgwyr mewn AB (18% o'i gymharu â 3%).

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod lle cyfarwydd yn bwysig iddynt wrth ddewis pa chweched dosbarth i'w fynychu. Dywedodd 85% o'r myfyrwyr mai un rheswm am ddewis eu chweched dosbarth oedd eu bod yn mynychu'r ysgol yn barod.

Roedd grŵp blwyddyn, maint y chweched dosbarth a'r rhanbarth yn ddylanwadol yn y dewis. Roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 ychydig yn fwy tebygol na'r rheini ym Mlwyddyn 13 i ddweud eu bod yn mynychu eu sefydliad



dewisol. Roedd myfyrwyr mewn ysgolion mwy yn fwy tebygol o fod yn astudio yn y sefydliad roedden nhw wedi'u dewis yn gyntaf. Roedd myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru yn llai tebygol na myfyrwyr eraill o fod yn astudio yn eu sefydliad dewis cyntaf ac ar eu cwrs dewis cyntaf.

Roedd y prif resymau am beidio astudio eu cyrsiau dewis cyntaf yn ymwneud â gwrthdrawiadau o fewn yr amserlen (47%), y ffaith nad oedd yr ysgol yn darparu'r cwrs dewisedig (36%) a chynghor gan athrawon i beidio â dilyn eu dewisiadau cyntaf (14%).

Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o fod wedi ceisio cyngor am y pethau i'w hastudio (58%) nag am y lle astudio (34%), er bod 27% o'r myfyrwyr heb geisio cyngor am y naill fater na'r llall. Y ffynhonnell allweddol ar gyfer cael cyngor oedd athrawon yn yr ysgol (70%), cynghorwr Gyrfa Cymru o fewn neu'r tu allan i'r ysgol (69%) a rhieni/aelodau eraill o'r teulu (65%).

Y darlun cyffredinol sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith ymchwil ansoddol oedd bod dewisiadau nifer o fyfyrwyr ar ddiwedd Blwyddyn 11 ynglŷn â lle i astudio wedi bod yn weddol awtomatig o ystyried bod y rhan fwyaf wedi aros ymlaen yn yr un ysgol. Roedd hyn yn golygu eu bod efallai'n gwneud llai o waith ymchwil cyn penderfynu nag y byddent wrth ystyried newid darparrydd, ac roedd eu dewis gwrs yn fwy tebygol o gael ei ddylanwadu gan enw da/ddrwg athro neu athrawes y pwnc.

Canfu nifer o'r myfyrwyr a geisiodd gyngor gan gynghorwyr nad oedd y cyngor wedi'i deilwra'n ddigonol ar eu cyfer nhw fel unigolion ac roedden nhw'n teimlo eu bod yn derbyn yr ymadroddion arferol neu'n waeth fyth, gyngor rhagfarnllyd. Roedd hyn yn siom i'r myfyrwyr hynny oedd angen cymorth gweithredol er mwyn datblygu eu meddwl eu hunain am ddewisiadau cyrsiol ar ôl Blwyddyn 11 a dewisiadau gyrfaol ar ôl gorffen Blwyddyn 13.

4.0 ANSAWDDY DYSGU

Mae'r adran yma'n ymdrin â:

- Barn myfyrwyr am y dysgu a gânt, gan edrych yn benodol ar yr agweddau yma:
 - Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog i chi'
 - Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu
 - Y gefnogaeth maent yn ei rhoi i chi, e.e. i wella eich technegau astudio neu i reoli eich amser yn well
 - Yn gwneud defnydd da o amser y sesiwn
 - Ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu a ddefnyddiant
 - Gosod targedau neu nodau dysgu clir i'ch helpu i wella
 - Rhoi adborth prydlon a rheolaidd i chi am eich datblygiad'
 - Delio gyda dysgwyr aflonyddgar

- Y gallu i esbonio'r pwnc'
- Gwrando ar eich anghenion'
- Eu boddhad cyffredinol gyda'r dysgu a dderbyniant a'u barn am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n dda (o'r grwpiau ffocws).

4.1 Boddhad Cyffredinol gyda'r Dysgu


Roedd hanner y myfyrwyr a ymatebodd i'r arolwg naill ai'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gydag ansawdd y dysgu ac roedd 36% pellach yn weddol fodlon. Dim ond 6% a fynegodd radd o anfodlonrwydd.

Roedd gwahaniaethau bach rhwng y rhywiau (edrychwch ar dabl 5.1) gyda'r myfyrwyr benywaidd ychydig bach yn fwy positif.

Mae'n ymddangos bod maint y chweched dosbarth yn cael effaith ar foddhad y myfyrwyr am fod dosbarthiadau lleiaf a rhai mwyaf y sbectrwm wedi rhoi graddau boddhad uwch na'r rhai canolig.

Tabl 4.1 Y boddhad cyffredinol gydag ansawdd y dysgu yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn, a maint y chweched dosbarth

		Rhyw		Grŵp blwyddyn		Maint y chweched dosbarth				
	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	Hyd	101 – at 150	151 – 250	201 – 200	251+ 250
Sail: pob un yn ateb	5563	2379	3050	3189	2218	696	1049	1350	546	1922
% Eithriadol fodlon	10	11	10	10	12	9	10	9	12	11
% Bodlon iawn	40	38	42	40	40	43	38	39	41	41
% Gweddol fodlon	36	35	37	37	35	37	36	37	34	36
% Heb fod yn fodlon na'n anfodlon	8	9	6	7	8	5	10	9	8	7
% Gweddol anfodlon	4	4	3	4	4	3	4	5	4	3
% Anfodlon iawn	1	1	1	1	1	1	1	1	1	*
% Eithriadol anfodlon	1	2	1	1	1	1	2	*	2	1
% Eithriadol fodlon/bodlon iawn	51	49	52	50	52	53	48	48	53	52
% Eithriadol anfodlon/anfodlon iawn	2	2	1	2	22	2	3	1	2	2



Yn cydgyssylltu â'r canlyniadau mewn perthynas â maint y dosbarth a grybwyllwyd uchod, mae tabl 5.2 yn dangos bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rheini yn y

wardiau mwyaf gwledig yn cael sgôr uwch na'r lleill. Roedd y sgôr ar gyfer ysgolion yn Ne Orllewin Cymru un uwch hefyd nag ar gyfer rhanbarthau eraill.

Tabl 4.2 Y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu yn ôl y rhanbarth, cyfrwng iaith yr ysgol a pha mor wledig yw'r ysgol

	Cyfanswm	Y rhanbarth				Iaith yr ysgol		Pa mor wledig ydyw	
		De Dd	De Orl	Can	Gog	Cymraeg	Saesneg	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pob un yn ateb	5563	2564	1241	657	1101	1169	4394	584	4979
% Eithriadol fodlon	10	9	14	9	11	14	9	13	10
% Bodlon iawn	40	38	44	41	41	43	40	48	39
% Gweddol fodlon	36	37	34	39	35	33	37	32	37
% Heb fod yn fodlon na'n anfodlon	8	9	6	7	7	6	8	5	8
% Gweddol anfodlon	4	4	2	3	5	3	4	2	4
% Anfodlon iawn	1	1	*	1	1	1	1	1	1
% Eithriadol anfodlon	1	2	1	*	1	1	1	1	1
% Eithriadol fodlon/bodlon iawn	51	47	58	50	51	57	49	61	49
% Eithriadol anfodlon/anfodlon iawn	2	3	1	1	2	1	2	1	2

O gymharu'r canlyniadau yma gyda'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003 (NLSWW) gan fyfyrwyr 16–18 oed mewn AB a darpariaeth Dysgu yn y Gwaith, gwelwyd bod myfyrwyr chweched dosbarth yn llai tebygol o fod yn eithriadol fodlon. Felly, er bod 10% o fyfyrwyr chweched dosbarth yn eithriadol fodlon gydag ansawdd y dysgu, roedd yr un peth yn wir am 18% o'r dysgwyr yn y gwaith a 25% o'r rheini mewn AB.

4.2 Rhoi Gradd ar gyfer Agweddau Penodol o'r Dysgu

Gofynnwyd i'r myfyrwyr roi gradd ar gyfer agweddau penodol o'r dysgu ar raddfa 5 pwynt, o 'da iawn' i 'gwael iawn'. Mae Tabl 5.3 yn dangos y graddau a gafwyd, gyda'r ffactorau wedi'u rhestru yn eu trefn o'r raddfa uchaf i'r isaf ac wedi'u dangos ar sail y sgôr cymedrig (h.y. y sgôr cymedrig ar gyfer bob ffactor ar

raddfa o 1 i 5). Mae'r data yma'n taflu rhyw oleuni ar y ffactorau sydd efallai'n gostwng y sgorau boddhad cyffredinol.

Roedd myfyrwyr yn tueddu dewis y sgôr 'gweddol dda' yn hytrach na 'da iawn' ac roedd cyfran gweddol uchel hefyd (tua 20%) yn dewis y sgôr canolig.

Roedd y tair agwedd dderbyniodd y sgorau uchaf yn ymwneud â'r ffordd y dysgir y gwersi, ond rhaid ystyried bod 'gwneud y pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog' yn elfen allweddol o ddarparu gwersi a bod hon i'w chael yn y tri isaf. Efallai bod hyn yn arwydd o'r ffaith fod safon sylfaenol y dysgu yn broffesiynol, ond bod 'hwyliog' yn air rhy gryf efallai ar gyfer rhai o'r myfyrwyr. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o'r myfyrwyr, er nad ydynt mewn addysg orfodol mwyach mewn theori, yn teimlo bod yr addysg yn orfodol o hyd, yn arbennig o ystyried y

Tabl 4.3 Sut sgôr fyddech chi'n ei roi i'r athrawon am yr agweddau yma?

Sail: pob myfyriwr yn ateb (5717)	Da lawn (5)	Gweddol Dda (4)	Heb fod yn dda na'n wael (3)	Gweddol wael (2)	Gwael lawn (1)	Ni wn	Sgôr cymedrig
% Eu gallu i esbonio'r pwnc	36	54	7	3	1	*	4.24
% Gwneud defnydd da o amser y wers	29	47	16	5	2	1	3.95
% Ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu a ddefnyddiant	28	46	17	6	2	1	3.93
% Gwrando ar eich anghenion	26	47	18	6	2	1	3.90
% Gosod targedau clir i'ch helpu i wella	27	44	21	5	2	1	3.90
% Y gefnogaeth a gewch ganddynt	28	40	21	7	2	1	3.87
% Darparu adborth prydlon a rheolaidd am eich datblygiad	26	43	20	7	2	1	3.86
% Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog	22	49	19	6	2	1	3.82
% Delio gyda dysgwyr aflonyddgar	25	36	20	6	4	8	3.77
% Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	18	43	26	9	3	1	3.65

(Nodwch: mae'r canrannau'n adio at ei gilydd mewn rhesi. Mae'r sail yn amrywio ar gyfer bob ffactor yn dibynnu ar y nifer a roddodd sgôr ar gyfer bob un)

canran uchel a arhosodd yn eu hysgol wreiddiol a'r ffaith fod gwisg ysgol o ryw fath yn orfodol yn y mwyafrif o ysgolion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, gallai adlewyrchu diffyg amrywiaeth yn y dulliau dysgu, sy'n cyd-fynd â'r ffaith mai 'eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' oedd y ffactor gafodd y sgôr isaf.

Roedd dau o'r pum ffactor gwaethaf yn ymwneud â chefnogaeth ac adborth – 'y gefnogaeth a gewch ganddynt' a 'rhoi adborth prydlon a rheolaidd i chi am eich datblygiad'. Yn yr NLSWW dangoswyd bod y meysydd yma'n allweddol, yn arbennig ar gyfer y grwpiau iau, ac yn adlewyrchu'r ffaith fod rhai myfyrwyr yn cael y trosglwyddiad i'r lefel A neu i ffordd fwy annibynnol o ddysgu yn weddol anodd.

Doedd hi ddim yn bosib cymharu'r canlyniadau'n fanwl â chanlyniadau'r NLSWW am fod y ddau arolwg yn

defnyddio graddfeydd gwahanol (addaswyd y raddfa wreiddiol i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer holiadur y mae'r ymatebwr yn ei gwblhau ei hun). O gymharu'r drefn, fodd bynnag, dyma oedd y prif wahaniaethau:

- Ymysg myfyrwyr 16 – 18 oed mewn AB, mae gwneud defnydd da o amser y wers yn dod yn chweched yn nhrefn y sgôr a roddwyd i'r ffactorau yma, ond mae'n dod yn ail ymysg myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion. Ar y llaw arall, roedd 'y gefnogaeth a gewch ganddynt' yn bedwerydd ymysg y dysgwyr AB ond yn chweched ymysg ffigurau'r myfyrwyr chweched dosbarth.
- Ymysg y bobl sy'n Dysgu yn y Gwaith, roedd y drefn yn wahanol mewn ffordd debyg, felly, roedd 'gwneud defnydd da o amser y sesiwn' yn seithfed a'r 'gefnogaeth a gewch ganddynt' yn bedwerydd.



O edrych ar y canlyniadau yn ôl rhyw (edrychwch ar dabl 5.4), roedd y myfyrwyr benywaidd yn fwy positif am bob agwedd, yn arbennig felly am y ffactorau yma:

- Gwrando ar eich anghenion' (77% yn rhoi sgôr da iawn/gweddol dda o'i gymharu â 69% o'r dynion)
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu' (64% o'i gymharu â 58%)
- Gwneud y pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog' (74% o'i gymharu â 68%)

- Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar' (64% o'i gymharu â 57%)

Efallai bod yr anghysondeb yn y ddau ffactor cyntaf yn dangos bod myfyrwyr benywaidd yn well am sefydlu deialog gyda'u hathrawon.

Yn unol â'r canfyddiadau cyffredinol am foddhad, roedd chweched dosbarthiadau bach (llai na 100 o fyfyrwyr) yn tueddu i roi sgorau uwch ar gyfer y mwyafrif o'r ffactorau (o 4 – 5% o bwyntiau).

Tabl 4.4 Y sgorau a roddwyd am y dysgu yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn a maint y chweched dosbarth (y canran sy'n rhoi sgôr o dda iawn neu gweddol dda)

	Cyfanswm	Rhyw		Grŵp blwyddyn		Maint y chweched dosbarth				
		Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	Hyd at 100	101 – 250	151 – 200	201 – 250	251+
Sail: pob myfyriwr yn ateb	5717	2455	3096	3274	2256	708	1088	1382	560	1979
% Eu gallu i esbonio'r pwnc	91	89	92	91	90	92	90	91	89	90
% Gwneud defnydd da o amser y wers	76	74	77	78	73	76	77	73	76	77
% Ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu a ddefnyddiant	74	72	75	75	73	77	72	73	73	75
% Gwrando ar eich anghenion	73	69	77	73	74	78	72	72	74	73
% Gosod targedau clir i'ch helpu i wella you improve	71	69	73	71	71	75	71	68	71	71
% Y gefnogaeth a gewch ganddynt	69	68	69	69	68	71	68	67	70	69
% Darparu adborth prydlon a rheolaidd am eich datblygiad	70	68	71	71	68	74	67	68	70	71
% Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog	71	68	74	72	71	75	68	71	70	72
% Delio gyda dysgwyr aflonyddgar	61	57	64	62	61	65	60	58	63	62
% Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	61	58	64	61	61	66	59	60	63	61

(Note: 'Don't knows' have been excluded from the base. Base sizes vary for each factor depending on the number who gave a rating for each)

Mae Tabl 5.5 yn dangos fel mae'r canlyniadau'n amrywio yn ôl y lleoliad ac mae'n nodedig bod myfyrwyr yn y De Orllewin wedi rhoi sgôr uwch ar gyfer bob ffactor, ond mae'r De Ddwyrain wedi rhoi sgôr is na'r rhanbarthau eraill i rai ffactorau, yn arbennig:

- gwrando ar eich anghenion
- ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu

Hefyd, yn unol â'r canfyddiadau cyffredinol am foddhad, cafodd ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion gwledig sgorau ychydig yn uwch na'r ysgolion eraill. Y ffactor mwyaf nodedig yn y cyswllt hwn oedd y sgôr am 'wrandio ar eich anghenion' lle rhoddodd myfyrwyr ysgolion gwledig bwyntiau 10% yn uwch na'r myfyrwyr mewn ardaloedd mwy trefol.

Tabl 4.5 Y sgorau am ddysgu yn ôl y rhanbarth, cyfrwng iaith yr ysgol, a pha mor wledig yw'r ysgol (y canran a nododd yr ymateb da iawn neu gweddol dda)

		Y rhanbarth				Iaith yr ysgol		Pa mor wledig ydyw	
	Cyfan-sw m	De Dd	De Orl	Can	Gog	Cymraeg	Saesneg	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pob myfyriwr yn ateb	5717	2611	1245	661	1119	880	3059	414	3525
% Eu gallu i esbonio'r pwnc	91	90	92	92	91	92	90	93	90
% Gwneud defnydd da o amser y wers	76	75	79	75	76	77	76	78	76
% Ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu a ddefnyddiant	74	71	78	75	76	79	73	80	73
% Gwrando ar eich anghenion	73	70	77	76	75	78	72	82	72
% Gosod targedau clir i'ch helpu i wella	71	69	75	70	72	74	70	75	70
% Y gefnogaeth a gewch ganddynt	69	67	73	70	68	72	68	76	68
% Darparu adborth prydlon a rheolaidd am eich datblygiad	70	68	73	71	69	73	69	77	69
% Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n hwyliog	71	70	77	70	70	72	71	77	71
% Delio gyda dysgwyr aflonyddgar	61	60	66	60	61	65	60	68	60
% Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	61	59	65	61	61	64	60	69	60

(Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys atebion 'Ni wn' yn y nifer sail. Mae maint y sail yn amrywio ar gyfer bob ffactor yn dibynnu ar y nifer a roddodd sgôr ar gyfer pob un)

4.3 Yr Elfennau sy'n Creu Boddhad gyda'r Dysgu

Gwnaethpwyd dadansoddiad ystadegol i ganfod pa gyfraniad mae'r gwahanol elfennau o ddysgu wedi'i wneud i siapio'r boddhad cyffredinol gydag ansawdd y dysgu a pha sgôr a roddodd y myfyrwyr i berfformiad bob elfen.

Mae Siart 5.1 yn mapio'r dadansoddiad ystadegol yma drwy leoli'r agweddau dysgu ar y siart yn ôl y cyfraddau boddhad a'r cyfraniad a wna bob agwedd i greu boddhad.


Mae hwn yn darparu pedwar cwadrant:

Yr ochr chwith uchaf: Cyfraniad uchel ond boddhad is sy'n dynodi'r angen i **weithredu**


Yr ochr dde uchaf: Cyfraniad uchel a boddhad uchel gan ddynodi bod lle i **hyrwyddo'r** cryfderau yma

Yr ochr chwith isaf: Cyfraniad is a boddhad is sy'n dynodi lle i **fonitro'r** agweddau yma

Yr ochr dde isaf: Cyfraniad is ond boddhad uchel sy'n dynodi'r angen i **gynnal** y perfformiad



Siart 5.1 Y Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu – Boddhad gydag Ansawdd y Dysgu mewn Chweched Dosbarthiadau



Nodwch: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd felly nid ydynt yn cychwyn ar sero. Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 3.6 allan o 10 a dim sgorau pwysigrwydd cymedrig sy'n is na 4.

Mae'r elfennau mewn dysgu sy'n dod i mewn i, neu sydd ar ymylon y cwadrant gweithredu yn cynnwys:

- Gwneud y pwnc yn ddiddorol neu'n hwyllog
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu
- Gwrando ar eich anghenion
- Y gefnogaeth a gewch ganddynt, er enghraifft, i wella eich technegau astudio neu eich gallu i reoli'ch amser

Byddai gwella'r elfennau yma'n cael yr effaith fwyaf ar lefelau'r boddhad cyffredinol gydag ansawdd y dysgu. Gan fod y boddhad cyffredinol gydag ansawdd y dysgu yn ymwneud yn agos iawn â lefelau boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu yn y chweched dosbarth, byddai'n dilyn fod pethau sy'n effeithio ar un maes yn fanteisiol yn y llall.

Yr agwedd o ddysgu fyddai'n elwa o hyrwyddo parhaus yw:

- Y gallu i esbonio'r pwnc

4.4 Ymateb gan y Grwpiau Ffocws

Taflodd y grwpiau ffocws olau ar y mwyafrif o'r canfyddiadau uchod. Roedd tri phrif linyr i'r drafodaeth am ansawdd y dysgu. Dyma nhw:

- Arddull y dysgu
- Cydberthnasau
- Cefnogaeth a chyfeiriad

4.1.1 Arddulliau Dysgu

Fel y dangoswyd gan y canlyniadau mesurol, roedd y myfyrwyr yn teimlo bod yr athrawon yn gallu esbonio eu pwnc ond a allan nhw addasu eu harddull i ateb gofynion y dysgwr ac i roi rhywfaint o amrywiaeth? Daeth y gallu i wneud hyn i'r amlwg fel un o ofynion allweddol y myfyrwyr.

Gydag 'amrywiaeth', roedden nhw'n golygu darparu, lle bynnag y byddai'n bosib, gymaint o gyfleoedd ag y gellid i gymryd rhan yn y dosbarth a yw hynny ar ffurf dadleuon, trafodaethau neu ddangosiadau ymarferol. Roedden nhw'n cydnabod na fyddai hyn yn bosib bob amser mewn rhai pynciau oedd roedden nhw'n teimlo bod rhai

athrawon (yn arbennig rhai o'r genhedlaeth hŷn)
yn amharod i gymysgu a chyfateb technegau:

'Rydym yn siarad am hawliau merched – byddwn yn dadlau, yn cael trafodaethau. Mae gan bobl eu barn eu hunain. Mae hynny'n gweithio cymaint yn well am ein bod yn dysgu cymaint mwy' (Ysgol rhif 7)

'Maen nhw'n siarad ac rydych chi'n cymryd nodiadau a dw i'n meddwl eu bod nhw'n credu bod hon yn ffordd fwy aeddfed o ddysgu, fel y byddech mewn darlith, ond mae'n ddiflas' (Ysgol rhif 4)

'Mae fy athrawes yn weddol ifanc, mae hi newydd adael y coleg, felly mae hi'n gwybod sut i berthnasu gyda ni, dydi hi ond ychydig flynyddoedd yn hŷn, felly mae hi'n deall os nad ydym yn hoffi rhywbeth' (Ysgol rhif 8)

'Nid yw athrawon iau wedi'u dysgu i ddysgu mewn ffyrdd arbennig – mae ganddyn nhw i gyd syniadau gwahanol...mae angen i athrawon hŷn edrych ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud – mae'n rhaid eu bod nhw'n gwybod eu bod nhw'n amhoblogaidd' (Ysgol rhif 5)

Roedd y myfyrwyr hefyd yn croesawu'r defnydd o dechnegau gweledol a chyfryngau gwahanol, ond dim ond os oedd yr athro wedi meistrolï'r dechnoleg berthnasol!

'Mae diagramau'n gallu bod yn weddol ddefnyddiol, pan fyddent yn rhoi diagramau i chi i esbonio pethau yn hytrach na thaflenni o ysgrifennu – mae'n haws i'w ddeall... rydych yn ei ystyried ac yn ei gofio hefyd.' (Ysgol rhif 8)

'Dydw i ddim yn hoffi'r byrddau gwyn rhyngweithiol, maen nhw'n wirion. Mae'n cymryd gymaint o amser i'r athrawon weithio allan sut i'w defnyddio nhw.' (Ysgol rhif 1)

Mae'n amlwg bod amrywiaeth yn un elfen bwysig ond yr awydd gor-redol oedd am athro/athrawes oedd yn wirioneddol fwynhau ei b/phwnc ac yn gallu cyfathrebu'r mwynhad hwnnw:

'Os ydyn nhw'n anhapus maen nhw'n gwneud y wers yn ddiflas ond os ydyn nhw'n hapus maen nhw'n creu gwefr hapus yn y dosbarth' (Ysgol rhif 1)

'Mae ganddo ddiddordeb yn y pwnc hefyd, mae'n gwneud yr holl gyrsiau Prifysgol Agored yma hefyd... mae ychydig yn wyllt ond mae'n wirioneddol garu (ei bwnc). Mae'n gwybod

mwy am y pwnc na'r maes llafur yn unig' (Ysgol rhif 8)

'Hyd yn oed os yw'r athrawon yn dda iawn yn eu pwnc mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ddiddorol hefyd' (Ysgol rhif 2)

(I mi bydd athro da yn....) 'Frwdfrydig' (Ysgol rhif 6)

4.4.2 Cydberthnasau

Rhan o'r hyn roedd myfyrwyr yn gofyn amdano wrth drafod y gwahanol agweddau o ddysgu oedd y dylai athrawon ffurfio cydberthynas â nhw. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn bosib am eu bod wedi dewis y pwnc ac yn cymryd agwedd mwy aeddfed i'w hastudiaethau. Yn eu barn hwy, gallai athro ddefnyddio hyn er budd pawb drwy greu awyrgylch mwy di-straen o fewn y dosbarth a dod i adnabod y disgyblion fel unigolion:

'Mae'n rhaid i chi glicio (gyda'r athro); fel y byddech gyda ffrind' (Ysgol rhif 1)

'Awyrgylch ddi-straen. Cewch eich trin fel oedolion gan yr athrawon, mae'r tiwtoriaid yn eich annog ac yn eich cymell' (Ysgol rhif 8)

'Pan fydd yr athro'n siarad â chi fel petaech chi'n un ohonyn nhw, rydych yn gallu ymlacio fwy' (Ysgol rhif 5)

'Dw i'n meddwl mai'r ffordd orau o gael eich dysgu yw pan fo'r athro'n datblygu perthynas â'r dosbarth lle gall pawb ymlacio ag o. Yn is i lawr yr ysgol, gyda rhai athrawon, rydych yn teimlo'n ofnus os byddwch yn gwneud un peth bach yn anghywir' (Ysgol rhif 5)

'Mae un athro'n troi'r byrddau i wynebu ar i mewn fel fod pawb yn gyfartal, nid eu gosod yn y ffordd draddodiadol, a gallwn gyfnewid syniadau ar draws y bwrdd' (Ysgol rhif 5)

(I mi bydd athrawon da yn...) 'Dangos eich bod yn bwysig iddynt' (Ysgol rhif 6)

Yr elfen allweddol yw parch yn hytrach na chyfeillgarwch. Roedd y myfyrwyr yn gwbl ymwybodol bod perygl mewn gadael i'r berthynas rhwng yr athro a'r myfyrwyr ymlacio gormod ac roedden nhw eisiau i'r athro gadw ei awdurdod o hyd:

'Os oes gennych barch tuag at yr athro rydych yn mynd i wneud eich gwaith. Mae'n gweithio'r ddwy ffordd' (Ysgol rhif 2)

'Os ydych yn hoffi'r athro, rydych yn teimlo'n euog os nad ydych yn gwneud yn dda mewn pwnc' (Ysgol rhif 4)



'Mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r myfyrwyr yn gallu bod yn rhy dda – nid yw Mr X yn mynd yn flin gydag unrhyw beth a wneuch chi – mae'n gwneud i chi feddwl y gallwch ymddwyn fel y mynnoch' (Ysgol rhif 4)

Mae'n amlwg bod athrawon oedd â safonau isel yn colli parch ond, y ffactor pwysicaf oedd bod myfyrwyr yn dehongli diffyg gweithgaredd yr athrawon fel arwydd nad ydynt yn gofalu am y myfyrwyr unigol a sut maen nhw'n perfformio. Roedden nhw'n teimlo wedi'u siomi yn yr athrawon:

'Dyna'r peth gwaethaf, os nad yw'r athro wedi archwilio'r wers ac mae'n dweud wrthyfych am edrych amdano ar y rhyngwyd' (Ysgol rhif 2)

'Os na fydd yr athrawon yn cyrraedd y wers yn brydlon, neu heb gyrraedd o gwbl... mae hynny'n fy ngwneud i'n flin iawn' (Ysgol rhif 5)

'Mae'n rhaid i chi deimlo bod yr athro'n gyfaill i chi. Rwy'n hoffi meddwl bod yr athro eisiau eich gweld chi'n llwyddo yn gyffredinol' (Ysgol rhif 5)

(I mi bydd athro da yn...) 'Marcio gwaith cartref fel bod y myfyrwyr yn cael adborth' (Ysgol rhif 6)

4.4.3 Cefnogaeth a Chyfeiriad

Er bod y myfyrwyr yn gwerthfawrogi awyrgylch lle gallent ymlacio'n well a'r cydberthnasau rhwng un oedolyn a'r llall allai ddatblygu yn y chweched dosbarth, roedd hi'n amlwg bod angen dipyn go lew o gefnogaeth unigol ac adborth cadarnhaol ar rywfaint ohonynt.

Dywedodd y myfyrwyr llai hyderus faint yr oedden nhw'n gwerthfawrogi'r athrawon mwy amyneddgar:

'Rydych yn hoffi cael athrawon y gallwch ofyn yr un cwestiwn iddyn nhw ddeg gwaith a dydyn nhw ddim yn mynd yn flin â chi, heb i chi deimlo'n wirion' (Ysgol rhif 1)

'Mae'n dod atoch ac yn siarad gyda chi ar wahân hefyd ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn iawn' (Ysgol rhif 3)

'Dylai bod mwy (o amser) unigol rhwng yr athro a'r disgybl – iddo gael dweud wrthyfych lle'r ydych yn mynd o'i le ac ymhle rydych yn gwneud y peth iawn' (Ysgol rhif 5)

Ond mae hyn yn gallu achosi problemau pan fydd y myfyrwyr o'r farn bod y dosbarth yn un gallu cymysg:

'Mae yna wahaniaethau yn yr amser sydd ei angen i esbonio pethau i'r disgyblion da iawn a'r disgyblion llai da – mae'n cadw'r dosbarth yn ei ôl – neu dydyn nhw ddim yn deall a dydyn nhw ddim yn cael budd' (Ysgol rhif 4)

Dywedodd rhai myfyrwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael sesiynau ar ôl gwersi lle gallent ofyn cwestiynau a datrys problemau. Er bod hyn yn creu gwaith ychwanegol ar brydiau, roedd hi'n amlwg eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r cyfle i gael eglurhad heb deimlo cywilydd. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod hyn yn golygu bod yr athrawon yn ymwybodol bod angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt ac nad oeddent yn mynd i anwybyddu'r ffaith hwnnw.

'Efallai y byddent yn rhoi ychydig o waith ychwanegol i chi ei wneud – maen nhw'n barod i farcio'r gwaith yma fel eich bod yn gwybod eich bod wedi'i ddeall yn iawn' (Ysgol rhif 4)

'Bydd [athro da] yn deall pan fyddwch yn cael problemau ac yn eich helpu i'w datrys nhw, dim ots pa mor hir fydd y broses honno. Byddent yn rhoi'r hyder angenrheidiol i chi fel eich bod yn credu y gallwch wneud y gwaith' (Ysgol rhif 8)

Mewn un ysgol roedd y myfyrwyr yn teimlo y dylid rhoi tâl goramser i athrawon am aros ymlaen ar ôl amser ysgol gyda myfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd a rhoi hyfforddiant ychwanegol iddynt.

Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol iawn o unrhyw anghydbwysedd yn y ffordd roedd athrawon yn trin unigolion, gan ddigio gydag unrhyw awgrymiad o ffafriaeth neu feio ar gam:

'Os nad ydynt yn eich ffafrio chi, maen nhw'n codi cywilydd arnoch' (Ysgol rhif 4)

'Mae eich cymryd chi i un ochr yn un peth. Ond, mae'n beth arall i godi cywilydd arnoch o flaen y dosbarth cyfan. Mae hynny'n amhlesurus iawn' (Ysgol rhif 2)

'(Dwy ferch) yw ei ffefrynau. Maen nhw'n siarad am (enw'r pwnc) – sut mae'n cydgyssylltu – mae'n ddiflas ar gyfer y gweddill ohonom' (Ysgol rhif 3)

(I mi, bydd athro da yn...) "Trin pawb yn gyfartal"
(Ysgol rhif 6)

Mae'n amlwg bod rhai myfyrwyr wedi colli diddordeb i raddau mawr iawn wrth weld pawb, athrawon, rhieni ac ati'n eu beirniadu ac yn swian wrthynt byth a hefyd. Yn waeth na hynny oedd diffyg adborth o unrhyw fath, ond fe hoffai'r myfyrwyr weld y cydbwysedd yn symud tuag at anogaeth a chanmoliaeth:

'Dylent roi adborth i chi am eich datblygiad/eich gwaith. Yn is i lawr yr ysgol byddech yn gweld sylwadau ar waelod y dudalen yn dweud bod angen i chi wneud hyn neu'r llall, ac ati. Erbyn hyn, maen nhw'n rhoi sgôr i chi a dyna ni. Dydych chi ddim yn gwybod beth rydych chi wedi'i wneud o'i le – mae angen i chi gael asesiad unigol o'ch gwaith' (Ysgol rhif 5)

'Byddai'n llawer gwell gen i wybod beth sy'n anghywir yn fy ngwaith, hyd yn oed os ydi hynny'n ymwneud â strwythur y gwaith neu'r brawddegau neu'r gramadeg rwyf wedi'u defnyddio' (Ysgol rhif 3)

'Nid oes llawer o hynny yn yr ysgol yma ond rwy'n teimlo y byddai llawer mwy o anogaeth gan yr athrawon yn gwneud llawer iawn i helpu' (Ysgol rhif 5)

'Mae (fy athro) yn eich annog, mae'n gofalu amdanoch'
(Ysgol rhif 8)

'Mae athrawon da ... yn eich cefnogi ac mae ganddynt agwedd bositif' (Ysgol rhif 1)

4.5 Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Maint a lleoliad yr ysgol oedd y prif ffactorau oedd yn dylanwadu ar foddhad y myfyrwyr gyda'r dysgu: roedd y canlyniadau'n uwch mewn ysgolion yn y De Orllewin, mewn ardaloedd gwledig ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng bob un o'r newidynnau yma.

Roedd y boddhad cyffredinol gyda'r dysgu'n rhesymol uchel, gyda hanner y myfyrwyr yn dweud eu bod naill ai'n eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn a 36% arall yn eu disgrifio eu hunain fel myfyrwyr gweddol fodlon.

O edrych ar yr agweddau boddhad mewn mwy o fanylder, dyma oedd y ffactorau gafodd y sgorau uchaf:

- 'y gallu i esbonio'r pwnc' (91% yn cael sgôr da iawn neu gweddol dda)
- 'gwneud defnydd da o amser y wers' (76% yn cael sgôr

da iawn neu gweddol dda)

- 'ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau dysgu' (74% yn cael sgôr da iawn neu gweddol dda)

Ymysg rhai o'r ffactorau gafodd y sgorau isaf roedd y rheini sy'n ymwneud â'r agweddau mwy unigol o ddysgu, yn arbennig 'eich deall chi a sut yr ydych yn hoffi dysgu' a gafodd y sgôr da iawn/gweddol dda gan 61% a ffactorau sy'n berthnasol i gefnogaeth unigol ac adborth (69% a 70% yn y drefn honno).

Daeth y materion yma i'r amlwg hefyd yn y gwaith ymchwil ansoddol lle'r oedd y myfyrwyr yn cadarnhau bod yr athrawon gorau:

- yn sefydlu perthynas gyda'u myfyrwyr chweched dosbarth, sydd wedi'i hadeiladu ar barch o'r ddwy ochr
- yn defnyddio'r berthynas yma i ddeall anghenion y myfyrwyr ac i amrywio'r arddulliau dysgu i gyd-fynd â hynny gan gynnig, er enghraifft, mwy o gyfle i gynnal trafodaethau a sicrhau cyfranogaeth yn y dosbarth a darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau e.e. ffurfiau diagramatig yn hytrach na nodiadau yn unig
- yn dangos gwir ddiddordeb yn eu pwnc ac yn dangos ei bod hi'n bwysig iddynt bod y myfyrwyr yn llwyddo
- cydnabod bod angen cefnogaeth ac anogaeth bositif ar rai o'r myfyrwyr (roedd y myfyrwyr o'r farn bod rhai athrawon yn rhy barod i syrthio'n ôl ar wawdio a chodi cywilydd os oedd rhai o'r myfyrwyr yn cael anawsterau)

Roedd y myfyrwyr yn gallu rhoi nifer o esiamplau o ddysgu da, yn ymwneud gan fwyaf ag athrawon oedd yn rhoi llawer o egni i'r ymdrech i gyfathrebu eu pynciau ac i roi llawer o anogaeth bositif i'r myfyrwyr. Mae'n ymddangos bod yr elfen allweddol yn ymwneud â gallu'r athrawon i gymryd mantais o'r cyfleoedd y mae'r chweched dosbarth yn eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau awyrgylch dysgu lle gall pawb ymlacio fwy a manteisio ar y dosbarthiadau llai i sefydlu cydberthynas dda a bod ychydig yn fwy hyblyg – peth nad oedd yn bosib gyda disgyblion iau. Wedi dweud hynny roeddent yn ymwybodol iawn bod angen rhwyd diogelwch ar gyfer y myfyrwyr hynny oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag arddull dysgu'r chweched dosbarth ac roeddent yn teimlo mai'r ateb i hynny yw rhoi cymorth un ac un i'r unigolion hynny.

Mewn llawer o'r grwpiau, y farn oedd bod athrawon iau yn gallu amrywio eu harddulliau dysgu'n well nag athrawon hŷn.

5.0 CYMHELLIANT


Mae'r adran yma'n ymdrin â:

- Lefelau cymhelliant myfyrwyr chweched dosbarth mewn perthynas â'u hastudiaethau
- Y rhesymau am lefel eu cymhelliant
- Unrhyw broblemau maent wedi dod ar eu traws yn y chweched dosbarth
- A ydynt wedi ystyried gadael

5.1 Lefelau Cymhelliant Cyffredinol

Yn gyffredinol, disgrifiodd bron i dri chwarter y myfyrwyr eu hunain fel myfyrwyr brwdfrydig iawn neu gweddol frwdfrydig yn eu hastudiaethau (73%), er bod y mwyafrif o'r grŵp yma'n weddol frwdfrydig (58%) yn hytrach na'n frwdfrydig iawn (15% yn unig). Dywedodd mwyafrif mawr o'r myfyrwyr nad oeddent yn frwdfrydig iawn (21%) a disgrifiodd 5% eu hunain fel myfyrwyr nad ydynt yn frwdfrydig o gwbl.


Siart 5.1 Lefelau Cymhelliant Cyffredinol



Roedd cydberthynas gref rhwng lefelau cymhelliant y myfyrwyr a'u boddhad gyda'r profiad dysgu yn y chweched dosbarth. Roedd hanner y myfyrwyr (50%) oedd yn eithriadol fodlon gyda'u profiad dysgu yn y chweched dosbarth yn eu disgrifio'u hunain fel myfyrwyr brwdfrydig iawn, a dim ond 4% ohonynt oedd yn anfodlon â'r profiad dysgu yn y chweched dosbarth.

Ffactor arall a gafodd effaith ar gymhelliant oedd llwyddiant y myfyriwr i astudio yn y sefydliad ac ar y cwrs o'u dewis. Roedd y myfyrwyr oedd yn astudio yn eu dewis sefydliad yn llawer mwy tebygol o'u disgrifio

eu hunain fel rhai brwdfrydig iawn neu gweddol frwdfrydig (77%) o'i gymharu â'r rheini nad oeddent (64%). Gostyngodd y gyfran o fyfyrwyr oedd yn teimlo'n frwdfrydig i 46% yn unig ar gyfer y rheini oedd yn teimlo nad oeddent wedi cael dewis. Roedd patrwm tebyg ar gyfer y myfyrwyr hynny oedd yn astudio'r cwrs o'u dewis (tabl 5.2)



- Y prif ffactorau oedd yn cymell y myfyrwyr oedd:
- Eisiau ennill cymwysterau/graddau/canlyniadau arholiad da (14%)
 - Uchelgeisiol/ eisiau gwneud yn dda/ brwdfrydig iawn (13%)
 - Eisiau/angen ennill canlyniadau arholiad da/Lefelau A i fynychu prifysgol (12%)
 - Mwynhau'r dysgu/ y pynciau dewisedig (12%)
 - Derbyn anogaeth dda (5%)

Daeth yr angenrheidrwydd am ennill cymwysterau da er mwyn mynd i'r brifysgol a chael gwell rhagolygon am swydd i'r amlwg fel ffactorau cryf oedd yn effeithio ar gymhelliant yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws:

'Mae'r ffaith bod rhaid i chi gael gradd i fynd i unrhyw le mewn bywyd yn gymhelliant ynddo'i hun' (Ysgol rhif 5)

'Cystadleuaeth yn gyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r brifysgol – y graddau hynny y mae galw uchel amdanynt; mae'n rhaid i chi wneud yn dda i gael lle ar y cwrs' (Ysgol rhif 5)

'Mae gan bawb yn Chwech Dau yr uchelgais i fynd i'r brifysgol ac mae hynny'n eich cadw'n mynd – maen nhw'n gwybod eu bod eisiau cyrraedd y targed hwnnw' (Ysgol rhif 7)

'(Rwyf i'n) ceisio aros yn frwdfrydig er mwyn cael graddau digon da i astudio seicoleg yn y coleg.' (Ysgol rhif 6)

Tabl 5.1 Lefelau cymhelliant yn ôl lefel y boddhad cyffredinol gyda'r chweched dosbarth

		Boddhad cyffredinol gyda'r chweched dosbarth				
	Cyfanswm	Eithriadol fodlon	Bodlon iawn	Gweddol fodlon	Heb fod yn fodlon nag yn anfodlon	Anfodlon
Sail: pawb yn ateb	5638	514	1946	2221	537	306
% Brwdfrydig iawn	15	50	20	6	2	4
% Gweddol frwdfrydig	58	46	69	63	33	18
% Heb fod yn frwdfrydig iawn	21	3	9	26	49	40
% Heb fod yn frwdfrydig o gwbl	5	1	1	3	13	36
% Heb fod yn siŵr	2	*	1	2	3	3
% Gweddol frwdfrydig/ brwdfrydig iawn	73	96	89	69	36	22
% Heb fod yn frwdfrydig iawn/ o gwbl	26	4	10	29	61	75

Tabl 5.2 Lefelau cymhelliant yn ôl llwyddiant y myfyriwr i astudio yn y sefydliad ac ar y cwrs o'u dewis

		Sefydliad o'u dewis			Cwrs o'u dewis		
	Cyfanswm	Ia	Na	Dim dewis	Ia	Na	Dim dewis
Sail: pawb yn ateb	5638	4065	393	147	4336	1028	94
% Brwdfrydig iawn	15	17	9	9	16	9	7
% Gweddol frwdfrydig	58	61	55	37	60	54	37
% Heb fod yn frwdfrydig iawn	21	18	25	32	19	26	32
% Heb fod yn frwdfrydig o gwbl	5	3	9	18	4	8	17
% Heb fod yn siŵr	2	1	2	4	1	3	6
% Gweddol frwdfrydig/ brwdfrydig iawn	73	77	64	46	76	63	45
% Heb fod yn frwdfrydig iawn/ o gwbl	26	21	34	50	23	34	49

(Nodwch; nid yw'r 'sefydliad o'u dewis' a'r 'cwrs o'u dewis' yn cynnwys yr ymateb 'heb ystyried opsiwn arall')



Dywedodd llawer o'r myfyrwyr sy'n gweithio'n rhan amser eu bod yn frwdfrydig ynghylch ennill cymwysterau da er mwyn cael gwell swydd na'r un yr oeddent ynddi ar y pryd neu am eu bod wedi'u cymell gan rywun am y swydd yr oeddent nhw ei heisiau yn y pen draw.

'Mae'n swydd rhan amser a dydw i ddim eisiau bod yn y swydd honno am weddill fy mywyd' (Ysgol rhif 2)

'(Rydych yn gweld) pobl ar fudd-daliadau – ac rydych yn meddwl, dydw i byth yn mynd i fod fel yna – rydw i'n mynd i wneud rhywbeth ohonof fy hun – a dyna wnewch chi – rydych yn gwneud yr ymdrech ychwanegol' (Ysgol rhif 2)

'Siaradais gyda bargyfreithiwr a chyfreithiwr a chefais fy nghymell yn gryf iawn ganddynt... cymhellgar iawn' (Ysgol rhif 5)

Dywedodd cyfran fechan o'r myfyrwyr (5%) bod anogaeth dda yn eu cymell a bod anogaeth, canmoliaeth a chefnogaeth gan athrawon, rheini a chyfeillion wedi'u crybwyll gan nifer o fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws:

'Un athrawes – rydym fel ei phlant; mae hi'n falch iawn pan fyddwn yn gwneud yn dda' (Ysgol rhif 5)

'Mae'n bwysig iddo bod ei ddisgyblion yn llwyddo' (Ysgol rhif 7)

'Mae fy athro yn eich annog, mae'n gofalu amdanoch' (Ysgol rhif 8)

'Weithiau rydych yn cael diwrnod drwg iawn ac rydych yn mynd adref ac mae mam yn dweud 'tyrd, dim ond 12 wythnos arall o wersi sydd ar ôl eleni' (Ysgol rhif 5)

'Mae fy mam yn dweud 'os na fyddi di'n gwneud hyn, wnei di byth gyrraedd y pwynt rwyd ti eisiau ei gyrraedd.' Dyna i gyd' (Ysgol rhif 7)

Ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gymhelliant a ddaeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws oedd yr angen i wneud mor dda â'u brodyr/chwirydd a'r ffaith fod myfyrwyr eisiau gwneud yn well na'u cyfeillion neu deulu oedd wedi cymryd y llwybr sy'n anghywir yn eu barn hwy:

'Rydych yn gwybod eich bod am wneud yn well na hwy – rwy'n cofio bob tro yr edrychaf ar fy chwaer...Dydw i ddim eisiau mynd yr un ffordd â hi' (Ysgol rhif 3)

'Mae hanner fy nheulu wedi llwyddo a dydi'r hanner arall ddim wedi gwneud mor dda. Felly, rwy'n edrych ar y ddau hanner ac yn gofyn i mi fy hun 'ydw i eisiau diweddu yn y fan honno, neu ydw i eisiau cyrraedd y pwynt uchel hwnnw?' (Ysgol rhif 5)

'Gadawodd mam yr ysgol pan oedd hi'n 16 oed, cafodd blentyn pan oedd hi'n 18 oed ac, ers hynny, mae hi wedi aros adref. Allwn i ddim gwneud hynny. Rwyf eisiau gyrfa cyn i mi gael plant.' (Ysgol rhif 2)

'(Rwy'n cael fy nghymell) gan fy nghyfeillion sydd wedi dewis y llwybr anghywir ac maen nhw'n dweud wrthyh eu bod yn difaru nad oeddent wedi gweithio'n galetach. Rwy'n meddwl bod hyn yn eich gwithio i weithio'n galetach...' (Ysgol rhif 5)

'Mae gen i chwaer yn y brifysgol yn barod – rwyf eisiau gwneud yr un peth ag y mae hi'n ei wneud' (Ysgol rhif 7)

Roedd hunan-gymhelliant yn chwarae rhan bwysig hefyd:

'Meddwl am agor eich canlyniadau – a bod yn siomedig iawn wrth sylweddoli y gallech fod wedi gwneud yn well' (Ysgol rhif 4)

'Rwy'n cymryd pethau un dydd ar y tro; yn ceisio aros yn bositif' (Ysgol rhif 6)

'(Rydych yn dweud wrthyh eich hun) Tyrd, symuda – os na wnei di hyn yn awr, wnei di byth' (Ysgol rhif 7)

'Mae pawb yn mynd trwy gyfnodau o ddigalondid, ond mae'n rhaid i chi eich gwithio eich hun ymlaen' (Ysgol rhif 6)

Roedd y rhesymau am beidio â bod yn frwdfrydig yn fwy darniog. Y ffactor mwyaf oedd llwyth gwaith trwm, a nodwyd gan bron i 1 ymhob 10 o fyfyrwyr (9%). Roedd y ffactorau allweddol eraill yn cynnwys:

- Does gen i ddim yr amynedd/rwy'n colli diddordeb (6%)
- Rwy'n cael y gwaith yn ddiflas neu'n ailadroddus (6%)
- Diffyg anogaeth neu gefnogaeth (5%)
- Diffyg diddordeb neu nid wyf yn mwynhau'r ysgol mwyach (4%)

- Rwy'n cael yr ysgol neu bwysau'r arholiadau'n straen (4%)
- Rwy'n cael y gwaith yn anodd neu'n anoddach nag y disgwyliais (4%)
- Nid yw'r pynciau'n ddiddorol/yn fy ysgogi (3%)
- Rwy'n teimlo'n ddiog/flinedig (3%)
- Nid wyf yn mwynhau'r pynciau dewisedig i gyd (3%)

Roedd maint a dwyster y gwaith yn elfen amlwg yn y grwpiau ffocws. Er nad oedd hyn yn torri calonnau'r myfyrwyr bob amser, roedd llawer o fyfyrwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r llwyth gwaith trwm:

'Mae cynnwys y cwrs yn weddol anodd ei wneud i gyd' (Ysgol rhif 5)

'Rwy'n gwneud llenyddiaeth Saesneg, rwy'n hoffi darllen, ond mae'r cwrs mor drwm... does gennych chi ddim amser i drafod pethau, mae'n rhaid i chi fynd yn syth at y gwaith cwrs' (Ysgol rhif 5)

'Nid bod y gwaith yn anodd – dim ond bod llwythi a llwythi o waith' (Ysgol rhif 3)

'Erbyn hyn ni allaf fynd i ddawnsio yn ystod yr wythnos gymaint ag y gallwn o'r blaen am fod gen i gymaint o waith cartref' (Ysgol rhif 5)

'Rwy'n gwneud 3 awr bob nos (o waith cartref) a drwy'r dydd bob dydd Sul i raddau mawr... Pe bawn i'n cael swydd ar ddydd Sadwrn, ni fyddai un diwrnod yn rhydd gennyf na diwrnod i mi fy hun' (Ysgol rhif 5)

'Siarad am yr ARHOLIADAU drwy'r amser! – pwysau mawr i orffen popeth mewn cyfnod byr iawn o amser' (Ysgol rhif 4)

'Roeddwn i'n meddwl y byddai'r flwyddyn gyntaf yn llawer caletach ac y byddai gennych lai o amser i orffen y gwaith i gyd, ond am ddwy flynedd mae wedi bod yn gymaint o bwysau... Doeddwn i ddim wedi disgwyl hynny i fod yn onest...' (Ysgol rhif 5)

'Mwy o waith nag y dychmygais erioed – yn arbennig gyda Bagloriaeth Cymru' (Ysgol rhif 6)

'Mae (athrawon) yn gwneud i'r lefelau A swnio'n haws nag ydynt.' (Ysgol rhif 6)

Un o'r ffactorau allweddol oedd yn effeithio ar gymhelliant y myfyrwyr oedd graddau isel neu ddiffyg cydnabyddiaeth am eu gwaith caled:

'Mae'n gallu bod yn droell ddisgynol – beth yw pwynt ymdrechu?' (Ysgol rhif 5)

'Os byddwch chi'n gwneud ymgais galed iawn rydych yn cael graddau isel beth bynnag weithiau... rydych yn teimlo fel pe baech chi'n ceisio'ch gorau ac yn mynd i nunlle beth bynnag.' (Ysgol rhif 8)

'Os ydych wedi gweithio a heb gael cydnabyddiaeth amdano rydych yn meddwl, wna i ddim trio eto' (Ysgol rhif 2)

Roedd diffyg anogaeth neu gefnogaeth gan athrawon yn ffactor arall oedd yn dylanwadu ar gymhelliant myfyrwyr yn y grwpiau ffocws:

'Byddai'n well pe baen ni'n cael mwy o anogaeth' (Ysgol rhif 4)

'Rwy'n gweithio'n well os bydd rhywun yn fy ngwthio i...yn dweud wrthyf fy mod yn gallu gwneud rhywbeth ac yn rhoi anogaeth bositif i mi.' (Ysgol rhif 5)

'Dylai bod mwy o (amser) unigol rhwng yr athro a'r disgybl – i ddweud wrthyfch lle'r ydych yn mynd o'i le a lle'r ydych ar y trywydd iawn, fel bod gennych ddisgwyliadau realistig' (Ysgol rhif 5)

'Cydnabod pan fydd unigolyn yn teimlo'n isel, ac angen hwb.' (Ysgol rhif 3)

Mewn rhai ysgolion roedd llawer o fyfyrwyr yn teimlo eu bod wedi cael gormod o ryddid a chyfrifoldeb a'u bod angen mwy o ddyddiadau cwblhau a phwysau gan yr athrawon i'w hannog nhw i weithio'n galed:

'Rwy'n meddwl y gallai rhai athrawon fod yn fwy llym am farcio gwaith cartref a gwirio gwaith bob wythnos. Gallai hyn eich cymell chi'n fwy...' (Ysgol rhif 8)

'Maen nhw'n disgwyl i chi weithio ar eich liwt eich hun ond mae hynny'n anodd pan fyddent yn eich gwthio drwy weddill yr ysgol' (Ysgol rhif 6)

Cyfeiriodd nifer o'r myfyrwyr at y ffaith eu bod wedi disgwyl derbyn mwy o gefnogaeth gan yr athrawon yn



y chweched dosbarth, ond mewn gwirionedd roedden nhw'n teimlo bod y disgyblion iau yn cael y flaenoriaeth:

'Pan oeddech yn ddisgybl iau yn yr ysgol roeddech yn meddwl bod y myfyrwyr oedd yn gwneud eu lefelau A yn derbyn y flaenoriaeth ac roeddech yn derbyn hynny i raddau mawr... ond wedi i chi ddechrau gwneud eich lefelau A, mae'r athrawes yn mynd i ffwrdd i ddysgu Blwyddyn 7 a dydyn ni ddim yn cael blaenoriaeth' (Ysgol rhif 5)

Cododd nifer o fyfyrwyr y materion yma: gwneud gwersi'n ddiddorol ac addasu'r dulliau dysgu i siwtio'r myfyrwyr yn y dosbarth:

'Rwy'n meddwl bod angen i'r athrawon pwnc wneud mwy i'ch cymell chi... os nad yw eu harddulliau dysgu'n apelio atoch. Maen nhw'n eich rhoi chi i eistedd i lawr ac yn darllen i chi, a dydi hynny'n gwneud dim i chi o gwbl.' (Ysgol rhif 8)

'Llai o fynd dros yr un pethau drwy'r amser, a mwy o bethau diddorol i'w hychwanegu at lwyth o ffeithiau diflas' (Ysgol rhif 4)

'Os ydych wedi'ch diflasu'n gyfan gwbl ac mae'r athro'n

darllen yn undonog allan o lyfr yn ddi-dor, rydych chi'n dechrau syrthio i gysgu' (Ysgol rhif 4)

'Mewn rhai pynciau, mae'r awyrgylch yn llawn straen' (Ysgol rhif 3)

Ychydig o or-ddefnyddio taflenni gwaith mewn rhai dosbarthiadau.' (Ysgol rhif 3)

5.1.1 Y Lefelau Cymhelliant yn Dibynnu ar y Rhywiau

Roedd y myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o'u disgrifio eu hunain fel rhai brwdfrydig iawn neu gweddol frwdfrydig (76%) o'i gymharu â'r myfyrwyr gwrywaidd (69%). Roedd eu rhesymau am fod yn frwdfrydig yn weddol debyg, er bod y myfyrwyr benywaidd ychydig yn fwy tebygol o ddweud:

- mae'r llwyth gwaith yn eithriadol fawr neu drwm (11% o'i gymharu â 7% o'r myfyrwyr gwrywaidd)
- mae diffyg anogaeth neu mae angen mwy o gefnogaeth (6% o'i gymharu â 3% o'r myfyrwyr gwrywaidd)

5.1.2 Y Lefelau Cymhelliant yn ôl y Grŵp Blwyddyn

Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y gyfran o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn nhermau

Tabl 5.3 Lefelau cymhelliant yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn a rhanbarth

	Cyfan -swm	Rhyw		Grŵp Blwyddyn		Rhanbarth			
		Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	De Dd	De Orll	Can	Gog
Sail: pawb yn ateb	5638	2441	3067	3248	2244	2591	1255	664	1128
% Brwdfrydig iawn	15	13	16	13	16	13	16	13	17
% Gweddol frwdfrydig	58	56	60	60	56	57	62	60	55
% Heb fod yn frwdfrydig iawn	21	24	19	20	22	23	17	20	21
% Heb fod yn frwdfrydig o gwbl	5	6	4	5	5	6	3	5	5
% Heb fod yn siŵr	2	2	1	2	1	2	1	2	2
% Gweddol frwdfrydig/ brwdfrydig iawn	73	69	76	73	72	70	78	73	72
% Heb fod yn frwdfrydig iawn/ o gwbl	26	29	23	25	27	29	21	25	26

cymhelliant cyffredinol, er bod myfyrwyr Blwyddyn 13 ychydig yn fwy tebygol o'u disgrifio'u hunain fel myfyrwyr brwdfrydig iawn (16% o'u cymharu â 13%).

Roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn fwy tebygol o:

- Gael eu cymell gan awydd cyffredinol i wneud yn dda (15% o'i gymharu â 10% ym Mlwyddyn 13)
- Mwynhau dysgu neu fwynhau eu pwnc dewisol (14% o'i gymharu â 8% ym Mlwyddyn 13)
- Cael y gwaith yn anodd neu'n anoddach na'r disgwyl (5% o'i gymharu â 2% ym Mlwyddyn 13)

Roedd eu hymatebion yn awgrymu bod myfyrwyr Blwyddyn 12 yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newid rhwng y TGAU a'r lefel A ar y dechrau a gyda maint a safon y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer lefelau A. Hefyd, er bod y canlyniadau'n dangos bod llawer o'r myfyrwyr yn astudio eu pynciau 'gorau' neu eu hoff bynciau ar gyfer

lefel A, roedd lefel y diddordeb yn dechrau gostwng erbyn ail flwyddyn y chweched dosbarth.

I'r gwrthwyneb, roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn fwy tebygol o:

- Gael eu cymell gan yr angen i sicrhau canlyniadau arholiad da er mwyn mynd i'r brifysgol (21% o'i gymharu â 6% ym Mlwyddyn 12)
- Fod yn brin o ddiddordeb neu heb fod yn mwynhau'r ysgol mwyach (7% o'i gymharu â 3% ym Mlwyddyn 12)
- Yn cael yr ysgol yn llawer o straen neu'n teimlo pwysedd yr arholiadau (6% o'i gymharu â 2% ym Mlwyddyn 12)

Roedd yr adborth gan y grwpiau ffocws yn awgrymu bod nifer o'r myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi cael digon ar fynd i'r ysgol erbyn Blwyddyn 13 a'u bod yn barod i symud ymlaen. Mae manylion llawn y rhesymau am y lefelau cymhelliant i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 5.4 Y rhesymau am beidio â chael eu cymell, yn ôl rhyw a grŵp blwyddyn

	Cyfanswm	Rhyw		Grŵp blwyddyn	
		Gwryw	Benyw	BI 12	BI 13
Sail: pawb yn ateb	4522	1891	2534	2598	1808
% Eisiau ennill canlyniadau/graddau/ canlyniadau arholiad da	14	14	14	15	13
% Uchelgeisiol/eisiau gwneud yn dda/brwdfrydig	13	12	13	15	10
% Eisiau/angen ennill canlyniadau arholiad da/ Lefelau A da er mwyn mynd i'r brifysgol	12	11	13	6	21
% Yn mwynhau dysgu/pynciau dewisedig	12	12	12	14	8
% Y llwyth gwaith yn eithriadol fawr/trwm	9	7	11	10	8
% Ddim eisiau gwneud yr ymdrech/ heb fod yn frwdfrydig iawn/ yn methu ymroi i'r gwaith/ yn colli diddordeb	6	7	6	6	6
% Yn cael agweddau penodol o'r gwaith yn ddiflas/ ailadroddus	6	6	6	7	5
% Yn derbyn anogaeth dda	5	4	5	6	4
% Diffyg anogaeth/mae angen mwy o gefnogaeth	5	3	6	5	5
% Diffyg diddordeb yn yr ysgol/heb fod yn mwynhau'r ysgol mwyach	4	4	5	3	7
% Mae'r ysgol yn straen/ pwysau arholiadau	4	3	4	2	6
% Yn cael y gwaith yn anodd/ yn anoddach na'r disgwyl	4	3	4	5	2

(Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion 'Arall' ac 'Ni wn'. Mae cyfanswm o lai na 4% o'r ymatebion heb eu dangos. Roedd caniatâd i'r myfyrwyr roi mwy nag un ateb).



5.1.3Y Lefelau Cymhelliant yn ôl y Rhanbarth

Yn nhermau'r rhanbarthau, roedd y myfyrwyr yn Ne Orllewin Cymru yn fwy tebygol o fod yn frwdfrydig iawn neu'n weddol frwdfrydig (78%) o'i gymharu â'r myfyrwyr

yng Nghanolbarth Cymru (73%), Gogledd Cymru (72%) a De Ddwyrain Cymru (70%). Roedd y rhesymau am y lefelau cymhelliant yn weddol debyg yn y rhanbarthau i gyd.

Tabl 5.5 Y Rhesymau am y lefelau cymhelliant yn ôl y rhanbarth ac iaith yr ysgol

	Rhanbarth					Iaith yr ysgol	
	Cyfanswm	De Dd	De Orl	Can	Gog	Cymraeg	Saesneg
Sail: pawb yn ateb	4522	2068	987	552	915	913	3609
% Eisiau ennill canlyniadau/graddau/ canlyniadau arholiad da	14	12	16	14	14	14	14
% Uchelgeisiol/eisiau gwneud yn dda/brwdfrydig	13	13	12	13	12	11	13
% Eisiau/angen ennill canlyniadau arholiad da/ Lefelau A da er mwyn mynd i'r brifysgol	12	12	14	8	14	11	13
% Yn mwynhau dysgu/pynciau dewisedig	12	11	13	15	10	13	12
% Y llwyth gwaith yn eithriadol fawr/trwm	9	9	8	10	10	9	9
% Ddim eisiau gwneud yr ymdrech/ heb fod yn frwdfrydig iawn/ yn methu ymroi i'r gwaith/ yn colli diddordeb	6	6	5	5	8	6	6
% Yn cael agweddau penodol o'r gwaith yn ddiflas/ ailadroddus	6	7	5	5	6	4	6
% Yn derbyn anogaeth dda	5	5	5	4	5	7	5
% Diffyg anogaeth/mae angen mwy o gefnogaeth	5	5	3	5	5	5	5
% Diffyg diddordeb yn yr ysgol/heb fod yn mwynhau'r ysgol mwyach	4	5	4	7	3	6	4
% Mae'r ysgol yn straen/ pwysau arholiadau	4	4	3	3	4	4	4
% Yn cael y gwaith yn anodd/ yn anoddach na'r disgwyl	4	3	3	6	4	4	4

(Nodwch: Nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion 'Arall' ac 'Ni wn'. Mae cyfanswm o lai na 4% o'r ymatebion heb eu dangos. Roedd caniatâd i'r myfyrwyr roi mwy nag un ateb).

5.1.4 Y Lefelau Cymhelliant yn ôl Iaith yr Ysgol

Mae cyfran ychydig yn uwch o'r myfyrwyr sy'n astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u disgrifio eu hunain fel myfyrwyr brwdfrydig iawn neu gweddol frwdfrydig (76%) na'r rheini sy'n astudio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (72%). Roedd y rhesymau am y lefelau cymhelliant yr un fath yn fras ar gyfer yr ysgolion Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

5.2 Y PROBLEMAU A GAFWYD

5.2.1 Dim Problemau

Gofynnwyd i'r myfyrwyr a oeddent wedi wynebu unrhyw broblemau ers iddynt gychwyn yn y chweched dosbarth. Yn anogol iawn, dywedodd pumed rhan o'r myfyrwyr (22%) nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau o gwbl. (Nodwch os gwelwch yn dda: nid yw'n bosib i ni gymharu'r ymateb yn y maes yma gyda'r wybodaeth am y myfyrwyr 16 – 18 oed mewn Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith am fod y rhestr o broblemau posib a roddwyd i'r dysgwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003 yn wahanol i'r rhestr a

gafodd ymatebwyr yr Arolwg o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion).

Yn nhermau grwpiau demograffig, dyma'r myfyrwyr oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi cael unrhyw broblemau:

- Ysgolion cyfrwng Cymraeg (32%)
- Chweched dosbarthiadau bach gyda llai na 100 o fyfyrwyr (26%)
- Ysgolion yn Ne Orllewin a Gogledd Cymru (25% ymhob un)
- Myfyrwyr gwrywaidd (24%)
- Myfyrwyr blwyddyn 12 (23%)

5.2.2 Y Problemau a gafwyd

Y broblem fwyaf a gafwyd gan y myfyrwyr, o fwyafrif gweddol fawr, oedd cadw eu cymhelliant personol (crybwyllwyd hyn gan 57% o'r myfyrwyr). Dywedodd ychydig dros draean o'r myfyrwyr (37%) eu bod wedi'i chael hi'n anodd parhau i weithio i'r safon sy'n ofynnol.

Yn ystod y grwpiau ffocws, dywedodd nifer o'r myfyrwyr eu bod wedi cael problemau gyda gweithio i'r safon ofynnol:

'Y naid o TGAU Cemeg i Lefel A Cemeg, mae'r gwaith gymaint yn fwy manwl, mae'n llawer anoddach nag yr oeddwn i wedi'i ddisgwyl.' (Ysgol rhif 5)

'Roeddwn i'n meddwl y byddai'n haws nag ydoedd... mae'r athrawon yn rhoi mwy o bwysau arnoch chi, mwy o gyfrifoldeb, mae'n rhaid i chi ddechrau eich cymell eich hun i weithio' (Ysgol rhif 5)

'Doeddwn i ddim wedi disgwyl iddo fod mor anodd â hyn; doeddwn i ddim wedi disgwyl cymaint o waith cartref' (Ysgol rhif 5)

'Mae'n anoddach – dydyn nhw ddim yn esbonio'r cyrsiau i chi' (Ysgol rhif 6)

'Dylent wneud y TGAU yn anoddach neu'r lefelau A yn haws – mae'r naid yn rhy fawr.' (Ysgol rhif 6)

'Roeddwn i wedi meddwl y byddai'n llawer haws nag ydyw.' (Ysgol rhif 7)

Gan edrych yn fanylach ar grwpiau demograffig, roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn fwy tebygol na'r rheini ym Mlwyddyn 12 o fod wedi wynebu problemau gyda chymhelliant personol (62% o'i gymharu â 54%). Fel y crybwyllwyd yn yr adran am gymhelliant, roedd myfyrwyr

Tabl 5.6 Y problemau a gafwyd ers dechrau'r chweched dosbarth yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn a maint y chweched dosbarth

	Cyfanswm	Rhyw		Grŵp blwyddyn		Maint y chweched dosbarth				
		Gwryw	Benyw	Bl 12	Bl 13	Hyd at 100	101 – 150	151 – 200	201 – 250	251+
Sail: pawb yn ateb	5016	2164	2789	2937	2004	634	957	1227	484	1714
% Cadw cymhelliant personol	57	56	57	54	62	53	55	57	59	58
% Cadw'r gwaith i'r safon ofynnol	37	35	39	40	33	39	36	36	38	38
% Problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill	15	14	15	14	17	15	15	15	15	15
% Teithio i'r ysgol	10	10	10	9	11	7	9	11	10	11
% Help a addawyd i chi sydd heb ei ddarparu	8	8	9	7	9	7	9	8	7	8
% Rheoli amser	1	*	1	1	*	2	1	–	*	1
% Llwyth gwaith mawr	1	*	1	1	*	1	1	1	–	1
% Eraill	2	1	2	2	2	3	2	3	2	2
% Dim problemau	22	24	21	23	20	26	23	23	18	20



Blwyddyn 12 yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd cadw safon uchel y gwaith (40% o'i gymharu â 33% ym Bl 13).

Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd rhwng y myfyrwyr gwrywaidd a'r myfyrwyr benywaidd, er bod y myfyrwyr benywaidd ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd cadw safon y gwaith (39% o'i gymharu â 35% ar gyfer y myfyrwyr gwrywaidd).

Ar ben hynny, roedd hi'n amlwg bod y myfyrwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael problemau gyda pharhau'n frwdfrydig wrth i faint y chweched dosbarth gynyddu.

Fel y dywedwyd o'r blaen, roedd cyfran uwch o fyfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg heb gael unrhyw broblemau yn y chweched dosbarth (32%) o'i gymharu â myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (19%). Mae'r tabl isod yn dangos bod myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o wynebu problemau gyda chymhelliant personol (59% o'i gymharu â 47%) a gyda gweithio i'r safon ofynnol (39% o'i gymharu â 31%). Ar draws y rhanbarthau, roedd y gyfran o fyfyrwyr oedd yn nodi pob problem yn weddol debyg.

Tabl 5.7 Y problemau a gafwyd yn ôl iaith yr ysgol a'r rhanbarthau

	Iaith yr ysgol		Rhanbarth			
	Cymraeg	Saesneg	De Dd	De Orl	Can	Gog
Sail: pawb yn ateb	1063	3953	2314	1090	600	1012
% Cadw cymhelliant personol	47	59	58	55	59	54
% Cadw'r gwaith i'r safon ofynnol	31	39	39	36	37	35
% Problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill	12	16	14	14	13	18
% Teithio i'r ysgol	8	11	11	8	12	10
% Help a addawyd i chi sydd heb ei ddarparu	6	9	10	6	9	8
% Rheoli amser	1	*	*	1	2	*
% Llwyth gwaith mawr	1	1	1	*	1	1
% Eraill	2	2	2	1	5	3
% Dim problemau	32	19	20	25	21	25

- athrawon yn cyrraedd yn hwyr neu heb ddod i'r wers o gwbl
- materion yn ymwneud â rheolaeth yn y dosbarth
- dysgu o ansawdd isel neu'r athrawon heb baratoi ar gyfer y wers
- yr athrawon yn disgwyl gormod gan eu myfyrwyr
- athrawon sydd â ffefrynnau yn y dosbarth
- yr athrawon yn dysgu topigau nag ydynt yn y maes llafur
- athrawon yn absennol yn annisgwyl a neb i gymryd eu lle

- swyddi heb eu llenwi am gyfnod hir
 - yr athrawon yn codi cywilydd arnynt neu'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus o flaen y dosbarth
 - yr athrawon yn eu trin fel plant yn lle oedolion ifainc
- 'Pan fydd yr athrawon yn hwyr yn cyrraedd y wers, neu heb ddod o gwbl, ac mae hynny'n fy nigio i'n fawr' (Ysgol rhif 5)*

‘Mae yna ferched yng nghefn y dosbarth sy’n siarad drwy’r amser, a dydi’r athro ddim yn gofyn iddyn nhw fod yn ddistaw – mae’n fy ngyrru i’n wyllt... mae yna swmian o gefn y dosbarth drwy’r amser’ (Ysgol rhif 5)

‘Fyddwn i ddim wedi dewis un o’r pynciau rwy’n ei astudio oherwydd yr athrawon. Mae gennym ddau athro a dydi un ohonyn nhw ddim yn dda iawn o gwbl’ (Ysgol rhif 5)

‘Rydym yn fyr o un athro felly dim ond hanner ein gwersi gawn ni’ (Ysgol rhif 7)

‘Mae’r athrawon yn disgwyl i ni weithio ar ein liwt ein hunain ond, os nad ydym yn deall y gwaith, does dim y gallwn ei wneud’ (Ysgol rhif 7)

‘Roedd yr athro adre’n sâl ...felly rydym ddwy wythnos ar ei hôl hi gyda’n gwaith erbyn hyn’ (Ysgol rhif 7)

‘Mae hi’n addasu hen waith i’r maes llafur newydd a dydi hynny ddim yn gweithio i fod yn onest’ (Ysgol rhif 3)

‘Mae’n ein drysu oherwydd mae hi’n rhoi gwaith i ni nad ydym ei angen’ (Ysgol rhif 3)

‘Mae eich cymryd chi i un ochr yn un peth. Ond, mae’n beth arall i godi cywilydd arnoch o flaen y dosbarth cyfan. Mae hynny’n amhleserus iawn’ (Ysgol rhif 2)

‘Os nad ydyn nhw’n hapus â chi maen nhw’n eich bychanu chi’ (Ysgol rhif 7)

‘Ein trin ni fwy fel oedolion – fel pobl unigol’ (Ysgol rhif 7)

‘Rwy’n meddwl fod pobl wedi disgwyl ychydig bach mwy o barch... roeddem eisiau i’r athrawon ein trin ni ychydig mwy fel oedolion’ (Ysgol rhif 5)

‘Mae’r (athrawon) yn ein trin ni fel plant....mae rhai o’r bobl yn y dosbarth yn sylweddoli hynny ac yn ymddwyn fel plant ysgol ifanc’ (Ysgol rhif 3)

5.3 Wedi ystyried gadael

Yn gyffredinol, roedd 30% o’r myfyrwyr wedi ystyried ymadael â’r chweched dosbarth, ac roedd y gyfran yma ychydig bach yn uwch na’r gyfran a gofnodwyd ar gyfer myfyrwyr AB (roedd 25% wedi ystyried ymadael) a myfyrwyr sy’n Dysgu yn y Gwaith (roedd 22% wedi ystyried ymadael).

Roedd y gyfran o fyfyrwyr benywaidd a gwrywaidd, rheini ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13, a’r rheini mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg oedd wedi ystyried ymadael yn weddol debyg.

Yn ystod y grwpiau ffocws, dywedodd nifer o’r myfyrwyr eu bod wedi ystyried gadael y chweched dosbarth. Roedd eu rhesymau’n amrywio o feddwl am gymryd cyrsiau mwy galwedigaethol a methu gweithio i’r safon ofynnol neu ymdopi â maint y gwaith i dderbyn adborth negyddol gan yr athrawon am eu gwaith.

Tabl 5.8 Faint sydd wedi ystyried gadael y chweched dosbarth yn ôl eu rhyw ac iaith yr ysgol

	Cyfanswm	Rhyw		Iaith yr ysgol	
		Gwryw	Benyw	Cymraeg	Saesneg
Sail: pawb yn ateb	5548	2432	3052	1186	4362
% Do	30	29	31	29	31
% Naddo	59	61	57	60	59
% Ni wn	11	10	11	11	11



Dyweddodd ei athro wrth un myfyriwr bod ei brosiect technoleg yn ‘anghywir i gyd’:

*‘Roeddwn i’n ei gasáu e am hynny ac roeddwn i eisiau gadael y chweched’
(Ysgol rhif 4)*

‘Roedd fy nghyfaill yn mynd i ffwrdd i’r coleg... roedd hi’n sôn am y rhyddid a gewch chi, a’ch bod chi’n cael eich trin fwy fel oedolyn... ond roeddwn i’n gwybod y byddai’n llawer anoddach pe bawn i’n gadael, yr athrawon yn newid, y pynciau’n newid... fe benderfynais aros oherwydd rwy’n hoffi steil y dysgu yn y fan yma.’ (Ysgol rhif 5)

‘Roeddwn i eisiau gadael... Cefais sgwrs dda gyda (phennaeth y chweched dosbarth)...Gwnaeth i mi sylweddoli mod i’n gallu gwneud hyn... yn rhoi mwy o hyder i mi... yn gwneud i mi sylweddoli y byddaf yn gallu cyrraedd y diwedd.’ (Ysgol rhif 7)

penodol, e.e. prifysgol (nodwyd yr ail reswm yn amlach gan fyfyrwyr Blwyddyn 13 (21%) na’r rheini ym Mlwyddyn 12 (6%)). Roedd eu brwdfrydedd yn deillio hefyd o’r bobl oedd o’u cwmpas, pobl sy’n gwneud yn dda a’r rheini nad ydynt yn llwyddo ym marn y myfyrwyr. O’r gwaith ansoddol, roedd hi’n ymddangos bod cymhelliant i ymdopi â’r gwaith yn deillio’n rhannol o’r anogaeth roedden nhw’n ei dderbyn ac, yn rhannol, am eu bod yn ofni methiant. Gallent golli cymhelliant am eu bod wedi derbyn graddau isel ac oherwydd pwysedd a dyfnder annisgwyl y gwaith astudio yn y chweched dosbarth.

Yn gyffredinol, roedd 30% o’r myfyrwyr wedi ystyried gadael eu chweched dosbarth, ac roedd y gyfran yma’n weddol debyg pan ddadansoddwyd y canlyniadau yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn ac iaith yr ysgol.

5.4 Crynodeb o’r pwyntiau allweddol

Roedd oddeutu 8 myfyriwr ymhob 10 wedi cael problemau. Y broblem unigol fwyaf a nodwyd gan 57% o’r rheini a gafodd broblemau, oedd aros yn frwdfrydig yn eu gwaith. Y broblem gyffredin nesaf oedd ymdopi â safon y gwaith, a nodwyd gan 37%. Roedd hyn yn ymwneud i raddau mawr â’r hyn yr oedd rhai yn ei weld fel y ‘naid’ rhwng TGAU a lefelau A.

Roedd ychydig bach yn fwy na chwarter y myfyrwyr wedi’u disgrifio eu hunain fel myfyrwyr ‘nad ydynt yn frwdfrydig iawn’ neu ‘nad ydynt yn frwdfrydig o gwbl’. Roedd myfyrwyr gwrywaidd yn llai brwdfrydig na myfyrwyr benywaidd (29% o’i gymharu â 23%) ac roedd tua thrydedd rhan o’r rheini a fethodd gael lle yn eu sefydliad dewis cyntaf neu ar eu cwrs dewis cyntaf wedi’u disgrifio eu hunain fel myfyrwyr heb frwdfrydedd o gwbl. Roedd y lefelau cymhelliant ychydig bach yn uwch mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (dim ond 22% heb gymhelliant o’i gymharu â 27% yn y drefn honno).

Roedd y myfyrwyr brwdfrydig yn dweud mai’r rheswm am eu brwdfrydedd oedd eu hawydd cryf i wneud yn dda naill ai’n gyffredinol neu mewn perthynas â nod

6.0 Y DDARPARIAETH GYMRAEG

Mae'r adran yma'n ymdrin â:

- Faint o addysg y myfyrwyr sydd drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd
- Pa gydbwysedd rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth cyfrwng Saesneg fyddai orau gan y myfyrwyr
- Nodwch: roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg hunan-gwblhau yn wahanol i'r rheini a ofynnwyd yn yr NLSSW, felly nid yw'n bosib cymharu'r canlyniadau yma gyda'r canlyniadau ar gyfer myfyrwyr AB a Dysgu yn y Gwaith.

6.1 Y Gyfran Gyfredol sy'n Dysgu drwy'r Gymraeg

Dywedodd y mwyafrif mawr o'r myfyrwyr (75%) nad oedd unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 4% ddywedodd bod eu dysgu cyfan yn y Gymraeg, a dywedodd degfed rhan arall (8%) bod mwy na 50% o'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd lleoliad yn dylanwadu ar ymateb. Er enghraifft, dywedodd 84% o'r myfyrwyr yn Ne Ddwyrain Cymru nad oedd unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â 61% yng Ngogledd Cymru. Yn cysylltu â hyn, roedd 44% o fyfyrwyr yn y wardiau mwyaf gwledig yn dweud nad oedd unrhyw ran o'u dysgu yn y Gymraeg, ac roedd yr un peth yn wir am 78% o fyfyrwyr mewn wardiau llai gwledig.

Yn nodedig, mewn ysgolion a ystyrir yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dim ond 18% o'r myfyrwyr ddywedodd bod eu dysgu i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bo traean arall (31%) yn dweud bod 50% neu fwy o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cysylltu gyda'r adborth a gafwyd gan y grwpiau ffocws, lle'r oedd llawer o fyfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn astudio eu cyrsiau yn y Saesneg ac, yn aml iawn, roedd hyn yn ymwneud â phrinder adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y pwnc neu'r cymhwyster hwnnw.

Tabl 6.1 Y gyfran o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y rhanbarth, iaith yr ysgol, a maint y chweched dosbarth

		Y Rhanbarth				Iaith yr ysgol		Maint y chweched dosbarth				
	Cyfan -swm	De Dd	De Orl	Can	Gog	Cymraeg	Saesneg	Hyd at 100	101 – 150	151 – 200	201 – 250	251+
Sail: pawb yn ateb	5535	2541	1235	652	1107	1191	4344	691	1063	1342	529	1910
% Y gwersi i gyd	4	3	3	3	8	18	*	11	9	4	*	*
50% neu fwy o'r gwersi	8	3	11	9	18	31	2	17	9	13	2	3
Llai na 50% o'r gwersi	13	10	14	20	12	18	11	15	16	11	14	11
% Dim	75	84	72	67	61	32	87	57	67	71	84	86

6.2 Eu Dewis iaith ar gyfer Dysgu

Er mwyn asesu'r bylchau yn narpariaeth y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gofynnwyd y cwestiwn yma i'r myfyrwyr 'O ystyried yr iaith yr ydych yn derbyn eich addysg drwyddi, pa gydbwysedd o ddysgu fyddai'n well gennych yn yr ysgol yma?'

Dywedodd cyfrannau tebyg o'r myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg

i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (tua 10%). Dywedodd hanner y myfyrwyr gwrywaidd y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd drwy gyfrwng y Saesneg, ond dim ond traean (35%) o'r myfyrwyr benywaidd ddywedodd hynny. Roedd y myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol na'u cymheiriaid gwrywaidd o deimlo bod cydbwysedd eu dysgu yn gywir i raddau mawr (44% o'i gymharu â 31% yn y drefn honno).



Tabl 6.2 Y dewis iaith ar gyfer dysgu yn ôl y rhyw, rhanbarth a pha mor wledig yw'r ysgol

	Cyfan-swn	Rhyw		Rhanbarth				Pa mor wledig yw	
		Gwryw	Benyw	De Dd	De Orll	Can	Gog	Mwyaf gwledig	Llai gwledig
Sail: pawb yn ateb	5562	2430	3066	2551	1244	657	1110	587	4975
% Byddai'n dewis Cymraeg i gyd	3	4	3	2	2	2	8	8	3
% Byddai'n dewis mwy o Gymraeg	7	6	9	7	7	11	8	9	7
% Mae'r cydbwysedd yn gywir	38	31	44	32	42	48	40	49	36
% Byddai'n dewis mwy o Saesneg	4	4	3	3	5	3	4	7	3
% Byddai'n dewis Saesneg i gyd	42	50	35	49	39	30	36	22	44
% Ni wn	6	5	6	7	6	6	4	5	6
% Byddai'n dewis mwy o Gymraeg/ Cymraeg i gyd	11	10	12	9	9	13	16	17	10
% Byddai'n dewis mwy o Saesneg/ Saesneg i gyd	46	54	38	52	43	33	39	29	47

Tabl 6.3 Y dewis iaith ar gyfer dysgu

	Wedi'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg				Iaith yr ysgol		Maint y chweched dosbarth				
	Y gwersi i gyd	50%+ o'r gwersi	<50% o'r gwersi	Dim	Cym-raeg	Saes-neg	Hyd at 100	101 – 150	151 – 200	201 – 250	251+
Sail: pawb yn ateb	228	452	696	4109	1190	4372	696	1063	1348	537	1918
% Byddai'n dewis Cymraeg i gyd	42	12	2	1	13	1	9	6	3	*	1
% Byddai'n dewis mwy o Gymraeg	5	11	16	6	9	7	9	9	8	8	5
% Mae'r cydbwysedd yn gywir	38	59	52	33	52	34	45	37	39	36	34
% Byddai'n dewis mwy o Saesneg	9	10	5	2	7	3	3	4	5	2	3
% Byddai'n dewis Saesneg i gyd	3	6	19	52	14	49	28	37	38	47	51
% Ni wn	3	3	5	6	4	6	5	6	7	7	6
% Byddai'n dewis mwy o Gymraeg/ Cymraeg i gyd	47	22	18	6	23	8	19	15	11	8	6
% Byddai'n dewis mwy o Saesneg/ Saesneg i gyd	12	16	25	54	21	52	31	42	43	49	54

Roedd y rhanbarth yn dylanwadu'n gryf ar farn y myfyrwyr am eu dewis gyfrwng ieithyddol. Roedd y myfyrwyr yn y De Ddwyrain yn llawer mwy tebygol na myfyrwyr eraill o ddweud y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd, neu fwy o'u haddysg yn y Saesneg (52%). Mae hyn yn wahanol i'r myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru, lle mae 33% ohonynt yn unig wedi nodi mai dyma fyddai orau ganddynt. Yn gysylltiedig â hyn, roedd dadansoddiad o'r canlyniadau yn ôl pa mor wledig yw ward yr ysgol yn dangos bod myfyrwyr yn y wardiau mwyaf gwledig yn fwy tebygol o nodi y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, na'r rheini mewn lleoliadau llai gwledig (17% o'i gymharu â 10%).

O'r myfyrwyr hynny a ddywedodd bod eu gwersi 'i gyd' wedi'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd pedwar ymhob deg (38%) ohonynt yn hapus gyda chydbwysedd eu haddysg. Ond, dywedodd ychydig yn llai na hanner y myfyrwyr (47%) y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd, neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg tra bo 12% eisiau eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg yn y Saesneg. Wrth i'r gyfran o wersi a ddysgwyd yn y Gymraeg leihau, roedd cyfran y myfyrwyr oedd yn nodi y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gostwng hefyd (tabl 6.3).

Pan oedd y myfyrwyr yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, roedd eu hanner yn teimlo bod cydbwysedd y dysgu yn eu gwersi yn iawn i raddau mawr, ond roedd cyfrannau tebyg yn teimlo eu bod eisiau eu gwersi i gyd neu fwy o'u gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg (23%) neu eisiau eu gwersi i gyd neu fwy o'u gwersi drwy gyfrwng y Saesneg (21%).

Roedd maint y chweched dosbarth yn dylanwadu ar farn y myfyrwyr. Roedd y rheini mewn chweched dosbarthiadau llai (hyd at 100 o fyfyrwyr) yn fwy tebygol o nodi bod yn well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd, neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd y gyfran yma'n gostwng wrth i faint y chweched dosbarth gynyddu.

6.3 Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Dywedodd 4% o'r myfyrwyr bod eu haddysg i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bo degfed rhan arall (8%) yn dweud bod mwy na hanner eu gwaith yn y Gymraeg. Ond dywedodd y mwyafrif mawr o'r myfyrwyr (75%), nad oedd unrhyw ran o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o fod yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion llai ac yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd cyfrannau tebyg o'r myfyrwyr gwrywaidd a'r myfyrwyr benywaidd bod yn well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (tua 10%). Roedd y myfyrwyr yn y lleoliadau mwy gwledig yn fwy tebygol o nodi y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (17% o'i gymharu â 10%).

O'r myfyrwyr hynny a ddywedodd bod eu gwersi 'i gyd' wedi'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd pedwar ymhob deg (38%) yn hapus â chydbwysedd eu dysgu, ond nododd ychydig yn llai na hanner y myfyrwyr (47%) y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bo 12% eisiau derbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Wrth i'r gyfran o wersi a ddysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg leihau, roedd cyfrannau'r myfyrwyr a ddywedodd y byddai'n well ganddynt dderbyn eu haddysg i gyd neu fwy o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleihau hefyd (tabl 6.3).

Grwpiau Ffocws

Fel rhan o'r broses o recriwtio ysgolion bu tîm prosiect ELWa yn ysgrifennu at yr ysgolion i gyd sydd â chweched dosbarth yng Nghymru (169 o ysgolion i gyd). Roedd y llythyr yma'n amlinellu'r rhesymau am y gwaith ymchwil a'r dull roedden nhw wedi'i gynnig o wneud y gwaith yma (mae copi o'r llythyr yma yn Atodiad A). Gwahoddwyd yr ysgolion i anfon eu hymateb at ELWa mewn ffacs yn nodi a oeddent yn barod i gymryd rhan (mewn gwirionedd, roedd hwn yn gweithio fel ymarfer tynnu'n ôl). Rhoddwyd rhestr i'r NOP o'r ysgolion oedd yn barod i gymryd rhan er mwyn eu galluogi nhw i recriwtio'r ysgolion dros y ffôn.

Recriwtiwyd deuddeg o grwpiau ffocws mewn wyth ysgol. Lluniwyd y cwtâu ar gyfer y grwpiau yma mewn ffordd fyddai'n sicrhau cymysgedd o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, ac i sicrhau fod pob un o bedwar rhanbarth

ELWa wedi'u cynnwys yn y gwaith ymchwil. Ar ben hynny, cafodd yr ysgolion eu recriwtio i adlewyrchu gwahanol lefelau o amddifadedd (fel y maent wedi'u pennu gan y Mynegai Amddifadedd Amryfal [Index of Multiple Deprivation]). Safonwyd pedwar grŵp yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Datblygwyd canllawiau trafodaeth ar gyfer y grwpiau ffocws mewn ymgynghoriad ag ELWa. Mae copi o'r canllawiau trafodaeth yn Atodiad B.

Safonwyd pob grŵp gan ymchwilwyr uwch profiadol o NOP (safonwyd pedwar grŵp yn y Gymraeg). Er mwyn helpu gyda'r gwaith dadansoddi a llunio adroddiad, rhoddwyd adroddiad i'r safonwyr yn dilyn y grwpiau ffocws, fel bod modd trafod a deall y themâu allweddol.

Mae'r grid nesaf yn dangos nodweddion bob un o'r wyth ysgol a gymerodd ran. Drwy brif gorff yr adroddiad i gyd, cyfeirir at sylwadau gan fyfyrwyr ymhob ysgol ar y sail yma.

Ysgol	Cyfrwng iaith yr ysgol	Maint y chweched dosbarth (nifer y disgyblion)	Lefelau amddifadedd yn ôl y Mynegai Amddifadedd Amryfal*
1	Cyfrwng Cymraeg	Mwy na 150	Sgôr uwch
2	Cyfrwng Cymraeg	150 neu'n is	Sgôr is
3	Cyfrwng Saesneg	150 neu'n is	Sgôr uwch
4	Cyfrwng Saesneg	Mwy na 150	Sgôr is
5	Cyfrwng Saesneg	Mwy na 150	Sgôr is
6	Cyfrwng Saesneg	150 neu'n is	Sgôr uwch
7	Cyfrwng Saesneg	150 neu'n is	Sgôr uwch
8	Cyfrwng Saesneg	Mwy na 150	Sgôr is

* (sgôr uwch = mwy amddifadus)

Holiadur Hunan-gwblhau

Lluniwyd yr holiadur mewn ymgynghoriad ag ELWa ac roedd yn cynnwys nifer o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fodddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003, fel bod modd gwneud cymariaethau rhwng barn y myfyrwyr chweched dosbarth a'r myfyrwyr 16 – 18 oed mewn darpariaeth AB a Dysgu yn y Gwaith. Lluniwyd yr holiadur mewn ffurf ddwyieithog (mae copi o'r holiadur yn Atodiad C).

Gwahoddwyd pob ysgol oedd yn dangos eu bod yn barod i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil (yn cynnwys y rheini oedd yn cytuno i gynnal grwpiau ffocws) i gymryd rhan yn yr arolwg hunan-gwblhau o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Recriwtiwyd yr ysgolion dros y ffôn, ac esboniwyd proses yr arolwg iddynt. Enwebwyd person cyswllt gan bob ysgol i oruchwylio'r arolwg, ac anfonwyd digon o holiaduron at y person yma er mwyn galluogi i bob myfyriwr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. O'r 72 o ysgolion a ddangosodd ddiddordeb ar y dechrau (h.y. a ddychwelodd y ffurflen ffacio'n ôl at ELWa yn dangos bod ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan) cytunodd 61 o ysgolion i gyd i gymryd rhan yn yr arolwg hunan-gwblhau.

Gofynnwyd i'r ysgolion ddosbarthu'r holiaduron yn ystod amser cofrestru ar ddiwrnod penodol (dewiswyd y diwrnod drwy ymgynghoriad â'r Pennaeth ond roedd rhaid i'r diwrnod fod o fewn cyfnod y gwaith maes a ddiffiniwyd gan NOP). Rhoddwyd amlen i'r myfyrwyr y gallent selio eu holiaduron cyflawn ynddi, a chasglwyd y rhain yn ganolog cyn eu dychwelyd i'r NOP gan ddefnyddio pecyn rhadbost.

Roedd absenoldeb myfyrwyr (e.e. oherwydd salwch, teithiau maes) yn golygu bod yr ymateb yn is mewn rhai ysgolion nag mewn eraill, ac efallai y byddai'n syniad bod gwaith ymchwil yn y dyfodol sy'n dilyn methodoleg debyg yn caniatáu amser ychwanegol i'r myfyrwyr gwblhau'r arolwg.

Cyfraddau Ymateb

Cynorthwywyd y cyfraddau ymateb drwy ddatblygu perthynas gyda'r cyswllt a enwebwyd ar gyfer yr ysgol. Cysylltwyd â'r person yma dros y ffôn i'w hatgoffa am y dyddiad terfynol ar gyfer derbyn yr holiaduron. Dychwelwyd holiaduron cyflawn gan 54 o ysgolion i gyd i'r NOP cyn dyddiad y dadansoddiad (gan gynrychioli cyfradd ymateb o ran ysgolion o 88% ymysg yr ysgolion a gytunodd i gymryd rhan).

Yn nhermau ymateb y myfyrwyr, roedd hyn yn cyfateb â 61%. Mewn geiriau eraill, cwblhaodd 5,717 o fyfyrwyr eu holiaduron, o'r cyfanswm o 9,434 o holiaduron a anfonwyd i'r ysgolion.

I ddeall y cyd-destun, mae 169 o chweched dosbarthiadau ysgol yng Nghymru, gyda chyfanswm o oddeutu 26,000 o fyfyrwyr.

Dadansoddi'r Data

Pan dderbyniwyd yr holiaduron gan yr NOP cawsant eu sganio'n awtomatig gan feddalwedd 'Eyes and Hands'. Gwiriwyd y data yn erbyn rhaglen olygu wedi'i theilwra i ganfod camgymeriadau, cwestiynau oedd heb eu hateb ac anghysondebau. Rhoddwyd côd i'r ymatebion gair am air gan ddim creu codau profiadol.

Dehongli'r Data

Mae'r grid nesaf yn batrwm defnyddiol i'w ddilyn wrth farnu arwyddocâd ystadegol y ffigurau yn yr arolwg hunan-gwblhau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yma:



95% Cyfyngau Hyder ar gyfer gwahanol feintiau sampl a chyfrannau disgwylidig

Maint y sampl	Y gyfran ddisgwylidig				
	50% or 50%	40% 60%	30% 70%	20% 80%	10% 90%
100	+/-9.7%	+/-9.5%	+/-8.9%	+/-7.8%	+/-5.8%
200	+/-6.8%	+/-6.7%	+/-6.2%	+/-5.4%	+/-4.1%
300	+/-5.5%	+/-5.4%	+/-5.0%	+/-4.4%	+/-3.3%
400	+/-4.7%	+/-4.6%	+/-4.3%	+/-3.8%	+/-2.8%
500	+/-4.2%	+/-4.1%	+/-3.8%	+/-3.3%	+/-2.5%
600	+/-3.8%	+/-3.7%	+/-3.5%	+/-3.0%	+/-2.3%
700	+/-3.5%	+/-3.4%	+/-3.2%	+/-2.8%	+/-2.1%
800	+/-3.2%	+/-3.1%	+/-2.9%	+/-2.6%	+/-1.9%
900	+/-3.0%	+/-2.9%	+/-2.7%	+/-2.4%	+/-1.8%
1000	+/-2.8%	+/-2.8%	+/-2.6%	+/-2.3%	+/-1.7%
1500	+/-2.2%	+/-2.1%	+/-2.0%	+/-1.7%	+/-1.3%
2000	+/-1.8%	+/-1.7%	+/-1.6%	+/-1.4%	+/-1.1%
2500	+/-1.5%	+/-1.4%	+/-1.3%	+/-1.2%	+/-0.9%
3000	+/-1.2%	+/-1.2%	+/-1.1%	+/-1.0%	+/-0.7%
3500	+/-1.0%	+/-1.0%	+/-0.9%	+/-0.8%	+/-0.6%
4000	+/-0.8%	+/-0.8%	+/-0.8%	+/-0.7%	+/-0.5%

Nodwch: mae hyn yn tybio bod yr ymatebion wedi dod o hapsampl heb ei chlystyru o gwbl

ATODIAD A Llythyr gwahodd i benaethiaid

5 Ionawr 2004

Pennaeth

Cyfeiriad yr Ysgol

Annwyl Mr/Mrs

Ysgrifennais atoch ar Fawrth 11eg 2003 i gyflwyno Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer ELWa a luniwyd i ddatblygu gwell gwybodaeth am yr hyn sy'n cymell unigolion, busnesau a chymunedau i ddysgu ac am eu boddhad neu fel arall gyda'r profiad dysgu. Bydd yr wybodaeth yma'n rhoi cyfle llawer gwell i ELWa a'i bartneriaid wireddu'r weledigaeth sydd gennym ar y cyd, sef sicrhau bod y dysgu a ddarperir yn cyfateb ag anghenion y dysgwr.

Llinyn cyntaf y rhaglen ymchwil fawr tair blynedd yma yw'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr, a luniwyd i ganfod beth yw barn y dysgwyr am agweddau niferus o'u profiad dysgu. Rydym wedi cychwyn yn barod, a chafodd mwy na 6,300 o ddysgwyr eu cyfweild yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2003. Rydym wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu adroddiad am farn y dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau mewn Addysg Bellach, Addysg Barhaus Oedolion a Dysgu yn y Gwaith.

Wrth gynllunio'r arolwg o foddhad y dysgwr buom yn gweithio'n agos â'n partneriaid prosiect, Dysg, ac aethom ati i ymgynghori â'r Gymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymraeg, y Gymdeithas Pensaethiaid Uwchradd, a Cydag. Dywedwyd wrthym bod angen i ni ddefnyddio dull gwahanol i gasglu sylwadau gan fyfyrwyr chweched dosbarth. O ganlyniad, hoffem wneud gwaith ymchwil wedi'i dargedu ymysg myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 mewn nifer o ysgolion drwy Gymru yn ystod mis Chwefror 2004.

Bydd y gwaith ymchwil yn cynnwys un neu ddau o grwpiau ffocws ymhob ysgol (sy'n cynnwys detholiad o fyfyrwyr o Flynyddoedd 12 neu 13 neu'r ddau) a holiadur ar bapur i'w gwblhau gan bob myfyriwr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Rydym yn gobeithio gweithio gydag oddeutu 12 o ysgolion a phwrpas y llythyr yma yw gofyn am eich cydweithrediad drwy i chi gymryd rhan yn y gweithgaredd yma. O'r ymatebion a dderbyniwn i'r llythyr yma byddwn yn dewis yr ysgolion er mwyn cael sampl gynrychiolaidd o ddalgylchoedd ysgolion.

Rydym yn gobeithio cynnal y grwpiau ffocws ar safleoedd yr ysgolion yn ystod y diwrnod ysgol. Mae grŵp ffocws nodweddiadol yn para tua 60 – 90 munud fel arfer, ac rydym yn rhagweld y bydd y grwpiau wedi'u trefnu ar gyfer gwersi dwbl rhydd pan fydd digon o fyfyrwyr ar gael. Byddwn yn awyddus i weithio'n agos â'ch ysgol chi i ganfod pa ddiwrnod ac amser fyddai orau ar gyfer y grŵp/grwpiau.

Wrth ddewis myfyrwyr i gymryd rhan yn y grwpiau, mae'n bwysig ein bod mor wrthrychol ag sy'n bosib i sicrhau trawstoriad da o wahanol fathau o fyfyrwyr a galluoedd. Un ffordd o wneud hynny yw gofyn i bob ysgol ddarparu rhestr o'r myfyrwyr sy'n rhydd ar amser y grŵp/grwpiau ffocws, a bydd ein cwmni ymchwilio, NOP, yn dewis 8 o fyfyrwyr ar hap i gymryd rhan ymhob grŵp.

Byddai'r ysgol yn dosbarthu a chasglu'r holiaduron hunan-gwblhau ar yr un diwrnod ag y cynhelir y grŵp/grwpiau ffocws. Bydd yr NOP yn anfon swp o holiaduron at gyswllt wedi'i enwebu yn eich ysgol a bydd yntau'n dosbarthu'r rhain i'r myfyrwyr, yn ddelfrydol yn ystod y cyfnod cofrestru. Yna, byddai'n gofyn i'r myfyrwyr gwblhau'r holiaduron (dylai gymryd oddeutu 10 munud i wneud hynny) a'u selio mewn amlen. Os yw'n bosib, hoffem i'ch person cyswllt gasglu'r rhain a'u cyflwyno i safonwr y grŵp ffocws mewn un swp.



Manteision cymryd rhan yn y gweithgaredd yma yw y bydd pob ysgol yn derbyn brasolwg graffigol o ganlyniadau'r holiadur hunan-gwblhau. Bydd hyn yn dangos y canlyniadau cyffredinol ar gyfer yr wyth ysgol a gymerodd ran a'r canlyniadau ar gyfer pob ysgol unigol. Bydd yr ysgolion yn aros yn ddienw, ac wedi'u hadnabod gan lythyren yn unig. Bydd pob ysgol yn cael gwybod pa lythyren sy'n cynrychioli eu hysgol hwy eu hunain. Hefyd, bydd cyfle unigryw i'r ysgol gyfrannu gwybodaeth ar gyfer datblygu'r Arolwg Cenedlaethol blynyddol o Fodhad y Dysgwr yn y dyfodol.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe baech chi'n cwblhau'r ffurflen nesaf yma i roi gwybod i ni a hoffai eich ysgol wirfoddoli i gymryd rhan yn y gweithgaredd yma. Yn y cyfamser os bydd gennych unrhyw ymholiadau mae croeso i chi gysylltu ag Elizabeth Lyon, Dadansoddwraig Cwsmeriaid a Marchnadoedd ar 01745 538 544 neu e-bostiwrch lyone@elwa.org.uk.

Gaf i gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Yn gywir iawn

Grenville Jackson

Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyfathrebiad

ATODIAD B Canllawiau trafodaeth y grwpiau ffocws

Arweiniad i'r Topigau Trafod gyda Chweched Dosbarthiadau Ysgolion

Cyflwyniad y Safonwr

- Diolch i'r ymatebwyr am gymryd rhan yn y gwaith ymchwil.
- Cyflwyno ei hun (enw llawn), NOP, esbonio natur y gwaith ymchwil: i ofyn am eu barn a'u sylwadau am eu cyrsiau addysgol a beth yw eu barn am eu chweched dosbarth ysgol.
- Tawelu meddwl: cyfrinachedd, peiriant recordio, Côd Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. NI fydd yr athrawon yn clywed y tapiau.
- Bydd y drafodaeth yn para am 60/90 munud a bydd wedi'i recordio i bwrpas y gwaith ymchwil.
- Mor bwysig yw hi fod pawb yn gallu dweud beth maen nhw'n ei feddwl, gan barchu barn pawb arall, peidio â thorri ar draws pobl eraill.
- Unrhyw gwestiynau?
- Mynd o amgylch y grŵp yn rhoi enwau – Cyflwynwch eich hun, dywedwch pa bynciau rydych yn eu hastudio, eich hobiau a'ch diddordebau.

Disgwyliadau

- I ddechrau ein trafodaeth, dywedwch pam rydych wedi penderfynu parhau i ddysgu ar ôl Blwyddyn 11?
- Beth yw manteision parhau i ddysgu?
- Cyn i chi ddechrau yn y chweched, beth oedd eich disgwyliadau am fod yn chweched dosbarth yr ysgol?
Eu hannog nhw: cael eu trin yn wahanol, mwy o ryddid, llai o ofynion ynghylch y wisg ysgol (efallai).
- A beth oedd eich disgwyliadau am eich cyrsiau?
Eu hannog nhw: y llwyth gwaith; cynnwys y cwrs; y dull o ddysgu; safon y gwaith roeddech chi'n ei ddisgwyl.
- A pha rai o'r disgwyliadau yma sydd wedi'u hateb neu sydd heb eu hateb?
Eu hannog nhw: y cwrs/cyrsiau, chweched dosbarth
- Sut mae'r disgwyliadau yma wedi'u hateb?
- A oedd eich disgwyliadau'n realistig?
- Ar beth oeddech chi wedi seilio eich disgwyliadau?
Eu hannog nhw: yr hyn roedd cyfeillion neu deulu wedi'i ddweud; siarad ag athrawon
- Beth ydych chi'n gobeithio ei wneud/i ble yr hoffech fynd ar ôl gorffen yn y chweched dosbarth?

Cyngor am ddewisiadau

- Wrth benderfynu beth roeddech chi'n mynd i'w wneud ar ôl Blwyddyn 11, at bwy aethoch chi i gael cyngor ynghylch lle i astudio?
Eu hannog nhw: teulu, cyfeillion, athrawon, cynghorydd Gyrfa Cymru naill ai o fewn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol
- Ac at bwy aethoch chi i gael cyngor am beth i'w astudio?
Eu hannog nhw: teulu, cyfeillion, athrawon, cynghorydd Gyrfa Cymru naill ai o fewn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol
- Felly, gaf i fynd dros hynny eto, oedd unrhyw rai ohonoch wedi mynd at yr un person i gael cyngor am le i astudio ac am beth i'w astudio?
- Oedd yna unrhyw fannau eraill y gallech geisio cyngor? Beth oedd y rhain?
- A sut oedd yr wybodaeth/cyngor?
- Oedd o'n ddigon i'ch llywio chi at y cwrs neu'r pynciau cywir?
Oedd o'n ddigon i'ch digalonni chi?
Oedd o'n briodol ar gyfer eich oed a'ch profiad?
Oedd o'n ddigon?
- Wnaethoch chi benderfynu ymhle i astudio'n gyntaf ac yna ddewis y pynciau yn dibynnu ar beth oedd ar gael? Neu aethoch chi ati i ddewis y pynciau cyn dewis ymhle i astudio?
- Pe baech chi'n cychwyn eto, beth fydddech chi'n gofyn cwestiynau amdano
Ymhle i astudio?
Beth i'w astudio?
Ceisiwch ganfod: Beth fydddech chi wedi'i wneud yn wahanol – os oes unrhyw beth?
- Ac yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o roi'r math yma o wybodaeth i chi?
Pa fformat
Pa fath o iaith
- Oes yna wahaniaeth rhwng y ffordd orau o gael gwybodaeth am beth i'w astudio a'r ffordd orau o gael gwybodaeth am ble i astudio?

Ansawdd y dysgu/hyfforddiant

- Y sawl sy'n cyfweid: Gofynnwch i'r grŵp feddwl am eu profiadau o ddulliau/arddulliau dysgu oedd yn ddefnyddiol iddynt ac a gafodd argraff bositif arnynt.
- Pa un yw'r ffordd orau o gael eu dysgu?



(YMATEBION AR SIART TROI)

- Pa arddull o ddysgu ydych chi'n ei hoffi – pam?
- Pa arddulliau dysgu sy'n eich annog chi i ddysgu/dalu sylw?
- Ymhle ydych chi'n cofio cael y profiad dysgu gorau – yn yr ysgol gynradd neu yn yr ysgol uwchradd? Pam?
- Ym mha ffordd ydych chi DDIM eisiau cael eich dysgu (YMATEBION AR SIART TROI)
- Beth yw'r ffyrdd gwaethaf o ddysgu? pam?
Gofynnwch am esiamplau
- Pa bethau ydych chi'n casáu eu gwneud ar eich cwrs? pam?
- Sut ydych chi leiaf tebygol o ddysgu? pam?
- Pa radd fydddech chi'n ei roi i ansawdd cyffredinol y dysgu yn eich chweched dosbarth?
Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gofynnwch iddynt am: y ffordd y darperir y gwersi yn y Gymraeg, faint o athrawon sy'n siarad Cymraeg. Gofynnwch iddynt roi sgôr allan o 10, lle mae 1 yn eithriadol wael a 10 yn eithriadol dda.
- Oes unrhyw broblemau gyda'r ffordd y cewch eich dysgu ar hyn o bryd?
Gofynnwch am: ddulliau dysgu, disgyblaeth yn y dosbarth/rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth, cyflenwad y staff / oes staff ar gael ar gyfer pob gwers
- Pam oes problemau feddyliwch chi?
Gofynnwch am: oedran, rhyw, hil
- A, meddyliwch, os byddai'r dewis gennych, sut fyddai'n well gennych ddysgu?
Gofynnwch am: ddulliau ac arddulliau

OS OES RHAID

- Pa ddulliau fyddai'n eich helpu i gyrraedd eich potensial llawn?

OS NAD YDYCH WEDI YMDRIN Â HYN YN BAROD

- Allwch chi ddweud wrthyf am unrhyw brofiadau lle mae rheolaeth yr athro ar yr ystafell ddosbarth wedi methu? Pam fethodd hyn?
Ai bai'r athro ydoedd?
Ai bai'r disgyblion ydoedd?
Allai'r athro fod wedi gwneud unrhyw beth amdano?
Sut ymdriniwyd ag o?
Beth ddylai'r athro fod wedi'i wneud?
Beth ddylai'r athrawon ei wneud i atal y math yma o beth rhag digwydd yn y dyfodol?

Cymhelliant

- Beth sy'n eich cadw chi'n frwdfrydig? Beth sy'n eich cadw i fynd?
I'w helpu nhw: yr angen am gymwysterau; rhieni; cyfeillion; staff dysgu
 - OS OES RHAID:
 - Pwy yw'r bobl sy'n eich cadw'n frwdfrydig?
I'w helpu nhw: rhieni, cymheiriad. Hwb: Pwy arall?
 - Pam eu bod nhw'n eich cymell chi?
Gofynnwch: Beth yw eu heffaith arnoch?
 - Sut ydych chi'n eich sbarduno eich hun o ddydd i ddydd?
 - Beth fyddai'n eich cymell chi fwy?
Gofynnwch: Beth fyddai'n gwneud i chi fwynhau dysgu mwy yn eich barn chi?
 - Pwy ddylai fod yn eich cymell?
- Nawr rydym yn mynd i siarad am y pethau sy'n eich diflasu chi.
- Allwch chi roi esiamplau o amseroedd pan oedd eich brwdfrydedd wedi mynd i gyd ac roedd rhywun/rhywbeth wedi helpu i ail gynnu eich brwdfrydedd?
I'w hannog nhw: y tiwtor yn siarad â chi, adborth defnyddiol am aseiniad, anogaeth gan athrawon, anogaeth gan gyfeillion
 - A yw unrhyw rai ohonoch wedi meddwl am adael y chweched dosbarth?
Gofynnwch: Pam?
 - Beth neu pwy wnaeth i chi newid eich meddwl?

Crynodeb

- Nawr hoffem wneud ychydig o ymarferion crynhoi. Gan ddefnyddio nodiadau 'post-it' ysgrifennwch beth fyddai eich profiad delfrydol yn chweched dosbarth eich ysgol ac, ar nodyn 'post' arall, nodwch beth yw eich profiad mewn gwirionedd.
(Gwnewch yr un peth eto ar gyfer eich profiad gwaethaf – ond dim ond os oes gennych yr amser i wneud y ddau beth nesaf. Os nad oes, gwnewch gwestiwn 40 a symudwch ymlaen)
- Yn olaf, allwch chi gwblhau'r brawddegau nesaf yma gan ddefnyddio tua 5 o eiriau:
'I mi bydd athro da yn...'
(ysgrifennwch yr ymatebion ar siart troi arall)
'Bydd profiad dysgu da yn... (ysgrifennwch yr ymatebion ar siart troi arall)

ATODIAD C Strategaeth ymchwilio'r cwsmer

Strategaeth ymchwilio'r cwsmer

Roedd Cynllun Corfforaethol 2002/3 y Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn cynnwys gofyniad i sefydlu 'Rhaglen integredig i ddeall anghenion ein cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod yr holl ddatblygiad cynnyrch yn y dyfodol wedi'i seilio ar eu hanghenion' (Y Cynllun Corfforaethol – 2002/03 cyf. P13).

Yn dilyn proses ymgynghori fewnol eang datblygwyd Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer i sicrhau dealltwriaeth o anghenion, cymhelliant a boddhad y dysgwyr. Byddai'r gweithgaredd yma'n caniatáu i ELWa:

- ddeall beth sy'n cymhell cwsmeriaid i ddysgu, ac felly'n ein galluogi ni i ehangu a dyfnhau cyfranogaeth mewn dysgu;
- deall beth mae cwsmeriaid yn ei feddwl am y gwasanaethau Addysg and Dysgu a dderbyniant, yn arbennig y rheini a ariannwn; ac

- olrhain a deall y gyfranogaeth mewn gwahanol grwpiau cwsmer.

Amlinellwyd y rhaglen ymchwilio tair blynedd arfaethedig i'r Cyngor ym mis Mai 2003 ac mae'n cynnwys yr elfennau yma:

- Arolwg cyffredinol o Foddhad y Dysgwr yn ystod Haf 2003, yn cynnwys cyfweiliadau ffôn 20 munud gyda mwy na 6,200 o ddysgwyr;
- Datblygiad methodoleg i gasglu gwybodaeth debyg gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth ledled Cymru
- Sefydlu panel unigolion a phanel cyflogwyr er mwyn olrhain newidiadau mewn agweddau tuag at ddysgu a chyfranogaeth mewn dysgu; a
- Chynhyrchu amrediad o adroddiadau gyda thema drwy fywyd cyfan y rhaglen.

Gweithgaredd	Gwaith maes
Arolwg Cenedlaethol y Dysgwr yng Nghymru	Cyfwelwyd 6200 o fyfyrwyr AB, DyG ac ABO ar y ffôn yn Haf 2003. Bwriad yr arolwg oedd sicrhau dealltwriaeth o farn a boddhad y dysgwyr gyda'u profiadau dysgu.
Arolwg o Chweched Dosbarth Ysgolion ELWa	Aeth 5,000 o ddysgwyr chweched dosbarth ati i lenwi holiaduron hunan-gwblhau, a chynhaliwyd 12 o grwpiau ffocws ym mis Chwefror 2004.
Astudiaethau Achos Cyflogwyr	Gwnaethpwyd 28 o astudiaethau achos yn ystod misoedd Ionawr/Chwefror 2004. Cyfwelwyd cyfarwyddwyr a rheolwyr llinell, ac arolygwyd y staff o amrediad o gyflogwyr ledled Cymru. Canolbwyntiwyd ar agweddau tuag at ddysgu o fewn y gweithle, a'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â dysgu yn y gweithle.
Panel Cyflogwyr	Bydd 2,000 o gyflogwyr wedi'u cyfweld ddwywaith y flwyddyn ar y ffôn er mwyn olrhain a dadansoddi agweddau tuag at ddysgu. Mae'r holiadur a'r sampl yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd – mae'r don gyntaf o waith maes wedi'i chynllunio ar gyfer mis Medi.
Panel Unigolion	Cyfwelwyd 2,000 o unigolion o bob rhan o Gymru wyneb yn wyneb yn ystod Rhagfyr 03/Ionawr 04. Bydd yr unigolion yma'n ffurfio panel fydd yn cael eu cyfweld bob blwyddyn i wella ein dealltwriaeth o agweddau tuag at ddysgu, ac i olrhain newidiadau mewn agweddau a chanfyddiadau.
Arolwg o Ymadawyr oedd wedi'u seilio yn y gwaith (Peilot)	Fel rhan o ofynion ELWa dan ei Amserlenni Rheoli, mae prosiect peilot wedi'i lunio i gyfweld sampl o ddysgwyr rhaglen dysgu yn y gwaith oddeutu 6 mis ar ôl iddynt adael y rhaglen. Cynhaliwyd 600 o gyfweiliadau ffôn 20 munud ym mis Mai 2004.

Urgent proof

Client	ELWA	Job number	12828
		Proof number	2
Contact	Joanne Starkey	Sent by	KL
		Copies to	
Production	Customer Research Strategy	Date sent by PGA	28/02/05
	Sixth form survey	Date returned to PGA	
Item	Main report – Welsh	Date corrected by PGA	
		Corrected by	

Every effort has been made to ensure the content of this proof is correct, however it is the customer's responsibility to read the proof for errors or omissions and mark any changes clearly in the margin.

This proof is intended to provide an indication of the final colours, but a degree of colour variation may occur in the printing process. Proofs will not be progressed to print or production without a customer signature and, once signed, Peter Gill & Associates will not accept any responsibility for alterations that are not marked on the proof.

☐ Colour proof	☐ Fax proof	☐ Cromalin proof	☐ Running sheets
☒ PDF proof	☐ Film proof	☐ Digital proof	☐ Wet proof

Notes

Please complete the following and return to PGA

Client (Signature)	Name (Print)	Date	☐ Re-proof
			☐ Proof approved
Account executive	Name	Date	☒ PGA proof checked
	Jason Gill	28/02/05	
Designer	Name	Date	☒ PGA proof checked
	Kate Lloyd	28/02/05	